# Ieithoedd tramor modern

Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3










**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Ieithoedd tramor modern

## Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

**Cynulleidfa** Athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; tiwtoriaid hyfforddiant cychwynnol athrawon; a phobl eraill sydd â diddordeb mewn datblygiad proffesiynol parhaus.

**Trosolwg** Mae'r deunyddiau hyn yn darparu negeseuon allweddol ar gyfer cynllunio dysgu ac addysgu mewn ieithoedd tramor modern. Maen nhw'n cynnwys proffiliau o waith dysgwyr er mwyn egluro'r safonau a amlinellir yn y disgrifiadau lefel ac yn dangos sut i ddefnyddio disgrifiadau lefel wrth lunio barn sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, mae'r deunyddiau'n cynnwys arweiniad a gweithgareddau enghreifftiol ar gyfer cyflwyno ieithoedd tramor modern gan ddefnyddio fframwaith anstatudol Cyfnod Allweddol 2.

**Camau i'w cymryd** Adolygu'r cynlluniau a'r gweithgareddau dysgu a pharatoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Yng Nghyfnod Allweddol 2, yng ngoleuni'r fframwaith anstatudol, gall ysgolion naill ai adolygu eu darpariaeth ar hyn o bryd o ran ieithoedd tramor modern neu ystyried sut i gyflwyno iaith dramor fodern i'r cwricwlwm.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu

**Dogfennau cysylltiedig** *Ieithoedd tramor modern yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru; Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru; Manteisio i'r eithaf ar ddysgu: Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig; Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)

Mae'r canllawiau hyn ar gael yn Saesneg hefyd.

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: CAD/GM/0024
ISBN: 978 0 7504 4857 4

A-EAC-02-01-qA694370/1/ND
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2008

WG30202

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**

**Defnyddio'r deunyddiau hyn** **4**

**Adran 1**
Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu ieithoedd tramor modern 7

**Adran 2**
Disgwyliadau a dilyniant mewn ieithoedd tramor modern 21

**Adran 3**
Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 25

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Targed cyrhaeddiad 1** | **Llafaredd** | | **27** |
| Ffrangeg | Adam | Lefel 3 | |
| | Laurent | Lefel 5 | |
| | Joe | Lefel 6 | |
| Almaeneg | David | Lefel 4 | |
| | Zoe | Lefel 6 | |
| | Steph | Lefel 7 | |
| Sbaeneg | Maya | Lefel 5 | |
| | Laura | Lefel 6 | |
| | Luke | Lefel 7 | |
| **Targed cyrhaeddiad 2** | **Darllen** | | **56** |
| Ffrangeg | Andrew | Lefel 3 | |
| | Nicole | Lefel 5 | |
| | Sarah | Lefel 6 | |
| Almaeneg | Elizabeth | Lefel 4 | |
| | Lucy | Lefel 6 | |
| Sbaeneg | Sam | Lefel 5 | |
| | Tanya | Lefel 6 | |
| | Tom | Lefel 7 | |
| **Targed cyrhaeddiad 3** | **Ysgrifennu** | | **93** |
| Ffrangeg | Jordan | Lefel 5 | |
| | Josephine | Lefel 6 | |
| Almaeneg | Penny | Lefel 4 | |
| | Hazel | Lefel 6 | |
| | Alex | Lefel 7 | |
| Sbaeneg | Karl | Lefel 5 | |
| | Chelsea | Lefel 6 | |
| | Huw | Lefel 7 | |

**Adran 4**
Defnyddio'r fframwaith anstatudol yng Nghyfnod Allweddol 2 127

**Cydnabyddiaethau** **151**

# Cyflwyniad

Mae'r rhaglenni astudio yn nodi'r cyfleoedd y dylid eu rhoi i ddysgwyr ym mhob cyfnod allweddol, ac maen nhw'n darparu'r sail sy'n eich galluogi chi, fel athrawon, i gynllunio gwaith dysgu ac addysgu. Mae'r rhaglenni astudio wedi eu rhannu'n ddwy adran, sef Sgiliau ac Ystod. Mae'r adran Sgiliau yn rhestru'r sgiliau y dylid eu datblygu mewn pwnc, ac mae'r adran Ystod yn nodi'r cyfleoedd a'r cyd-destunau y dylid eu defnyddio i ddatblygu ac atgyfnerthu'r sgiliau hynny.

Mae asesu ffurfiannol parhaus – asesu **ar gyfer** dysgu – yn hanfodol i addysgu da. Drwy'r asesiadau y byddwch yn eu gwneud wrth addysgu, byddwch yn casglu gwybodaeth helaeth am gryfderau eich dysgwyr, a'r meysydd mae angen eu datblygu ymhellach. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i'ch helpu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Bydd y dysgwyr hefyd yn dod i ddeall nodau dysgu penodol a'r meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â nhw fel eu bod, gyda'ch cymorth chi, yn medru datblygu eu gallu i hunanasesu ac asesu cyfoedion. Wrth wneud hynny, bydd modd iddyn nhw weld ble maen nhw arni ar hyn o bryd, gosod targedau a gweithio tuag atyn nhw, a darganfod pryd neu os llwyddwyd i'w cyrraedd. Mae targedau unigol yn gysylltiedig â gwella ansawdd gwaith dysgwr, fel y nodir mewn adborth ffurfiannol, ac maen nhw felly'n gysylltiedig â meini prawf llwyddiant ar gyfer tasgau penodol. Nid yw disgrifiadau lefel yn dargedau effeithiol am eu bod yn disgrifio cyrhaeddiad ar draws ehangder y rhaglen astudio ar ddiwedd cyfnod allweddol.

Drwy nodi disgwyliadau ar lefelau penodol a dilyniant yn y pwnc, gall disgrifiadau lefel helpu i lywio eich gwaith cynllunio, addysgu ac asesu yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Bydd tystiolaeth o waith asesu ar gyfer dysgu yn dangos ble mae angen mwy o amser i atgyfnerthu'r dysgu ac yn dangos pryd bydd dysgwyr yn barod i symud ymlaen. Efallai y byddwch am gadw rhywfaint o dystiolaeth fel y gallwch drafod gwaith a dilyniant dysgwr gyda nhw a/neu gydweithwyr neu rieni/warcheidwaid. Er hynny, nid yw cadw cofnodion sy'n ddiangen o gymhleth neu gadw tystiolaeth fanwl am bob dysgwr yn ofyniad statudol.

Swyddogaeth hanfodol disgrifiadau lefel yw eich helpu i lunio barn grynodol a chytbwys am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3. Nid yw disgrifiadau lefel wedi eu cynllunio i'w defnyddio i bennu lefel ar gyfer darnau unigol o waith nac i gynhyrchu data bob hanner tymor neu bob tymor. Dim ond ar ddiwedd y cyfnod allweddol y byddwch wedi casglu digon o wybodaeth am berfformiad dysgwr ar draws ystod o waith, ac mewn amrywiaeth o gyd-destunau, i'ch galluogi i lunio barn mewn perthynas â'r disgrifiadau lefel.

Hwyrach y bydd rhai dysgwyr wedi cyrraedd lefel uwch mewn rhai agweddau ar y gwaith nag agweddau eraill, ac na fydd un disgrifiad lefel ar ei ben ei hun yn cyd-fynd yn union â'u perfformiad. Mae hynny i'w ddisgwyl, ac mae'r ystod o waith dysgwyr unigol sydd wedi ei gynnwys yn y deunyddiau hyn yn dangos sut i lunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad dysgwr dan amgylchiadau o'r fath. I lawer o ysgolion/adrannau, mae datblygu eu proffiliau dysgwyr eu hunain wedi bod o gymorth i safoni barn ar ddiwedd cyfnodau allweddol. Mae'r proffiliau hynny hefyd yn helpu i gynnal dealltwriaeth gyffredin o safonau pan maen nhw'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u diweddaru pan fo angen.

Pan fydd barn yn cael ei llunio ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, dylech benderfynu pa ddisgrifiad lefel sy'n **cyd-fynd orau** â pherfformiad dysgwr. Y nod yw cael barn gytbwys:

- sy'n seiliedig ar eich gwybodaeth am y modd mae'r dysgwr yn perfformio ar draws ystod o gyd-destunau
- sy'n ystyried gwahanol gryfderau a meysydd mae angen eu datblygu ym mherfformiad y dysgwr dan sylw
- a gaiff ei chymharu â disgrifiadau lefel cyfagos er mwyn sicrhau mai'r lefel y tybir ei bod fwyaf priodol yw'r lefel sy'n cyd-fynd orau'n gyffredinol â pherfformiad y dysgwr yn y targed cyrhaeddiad.

Mae deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u hysgrifennu ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio islaw Lefel 1. Deilliannau anstatudol yw'r rhain, a bwriedir darparu arweiniad ar gyfer eu defnyddio.

Mae'r fframwaith anstatudol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 wedi ei ddatblygu er mwyn rhoi cymorth pellach i athrawon sydd eisoes yn addysgu iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2 a darparu fframwaith ar gyfer athrawon sy'n bwriadu datblygu eu darpariaeth o ran ieithoedd tramor modern yn y dyfodol. Mae'r canllawiau yn darparu enghreifftiau o ystod o weithgareddau a syniadau y gellir eu datblygu gan ddefnyddio'r fframwaith er mwyn darparu profiad cydlynol ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 2 a chynorthwyo gwaith pontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Mae'r canllawiau yn canolbwyntio hefyd ar weithgareddau sy'n datblygu cysylltiadau trawsgwricwlaidd, ac maen nhw'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau iaith a sgiliau cyfathrebu'n gyffredinol. Gallwch ddefnyddio'r gweithgareddau hyn fel man cychwyn ar gyfer datblygu'r fframwaith mewn modd sy'n addas i'ch cyd-destun a'ch sefyllfa arbennig ar gyfer dysgu ac addysgu ieithoedd tramor modern.

# Defnyddio'r deunyddiau hyn

Mae'r llyfryn hwn wedi ei rannu'n bedair adran.

| | |
|---|---|
| Adran 1 | sy'n tynnu sylw at negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu mewn ieithoedd tramor modern. |
| Adran 2 | sy'n tynnu sylw at ddisgwyliadau a dilyniant mewn ieithoedd tramor modern. |
| Adran 3 | sy'n cynnwys cyfres o broffiliau dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 3. Diben y rhain yw dangos y defnydd a wneir o'r disgrifiadau lefel wrth lunio barn am berfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol. |
| Adran 4 | sy'n cynnwys cyngor ynghylch dysgu ac addysgu gan ddefnyddio'r fframwaith anstatudol yng Nghyfnod Allweddol 2. |

Gallwch gyfeirio at y llyfryn hwn pan fyddwch am:

- adolygu eich cynlluniau a'ch gweithgareddau dysgu
- ystyried y safonau a amlinellir yn y Gorchymyn ieithoedd tramor modern diwygiedig
- cydweithio ag athrawon eraill er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o'r disgrifiadau lefel
- paratoi ar gyfer llunio barn ar ddiwedd y cyfnod allweddol
- datblygu eich proffiliau dysgwr eich hun
- cynorthwyo'r gwaith pontio o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Mae'r disgrifiadau lefel wedi'u cynnwys ar daflen gyda'r llyfryn hwn fel bod modd cyfeirio atyn nhw'n hawdd.

Mae DVD sy'n enghreifftio Targed cyrhaeddiad 1: Llafaredd, a CD-ROM wedi eu darparu gyda'r llyfryn hwn. Mae'r CD-ROM yn cynnwys fersiwn PDF o *Ieithoedd tramor modern yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* a'r canllawiau hyn.

Mae’r canllawiau hyn yn rhan o gyfres o ddeunyddiau a fydd yn helpu athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 i roi’r cwricwlwm diwygiedig a’i drefniadau asesu cysylltiedig ar waith. Mae’r gyfres yn cynnwys:

- *Manteisio i’r eithaf ar ddysgu: Gweithredu’r cwricwlwm diwygiedig* – canllawiau cyffredinol ar roi’r cwricwlwm newydd ar waith
- *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* – sy’n cynnwys arweiniad ynghylch dilyniant mewn sgiliau
- *Sicrhau cysondeb mewn asesiad athrawon: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3*
- *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol*
- canllawiau penodol ar gyfer pob un o bynciau’r cwricwlwm cenedlaethol, addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a’r byd gwaith, ac addysg grefyddol.

# Adran 1

## Negeseuon allweddol ar gyfer dysgu ac addysgu ieithoedd tramor modern

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eich helpu chi i gynllunio ar gyfer addysgu'r rhaglen astudio diwygiedig. Dylai dysgu iaith dramor fodern fod yn broses sy'n ennyn brwdfrydedd a diddordeb dysgwyr, a dylai cysylltiad amlwg fod rhyngddi a'r gwledydd a'r cymunedau lle defnyddir yr iaith sy'n cael ei haddysgu. Dylai dysgwyr ddatblygu sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol a pherthnasol. Mae'r rhaglen astudio wedi cael ei chynllunio i gynorthwyo dysgwyr wrth iddyn nhw gaffael a datblygu'r sgiliau hyn trwy gyfrwng ystod o weithgareddau, profiadau a chyd-destunau diddorol ac ystyrlon.

Yn y rhaglen astudio, ceir diffiniad clir o'r **sgiliau** a addysgir i ddysgwyr mewn ieithoedd tramor modern – **llafaredd**, **darllen** ac **ysgrifennu** – a diffiniad clir o'r **ystod** y caiff y sgiliau hynny eu datblygu oddi mewn iddi – dealltwriaeth ryngddiwylliannol, strategaethau dysgu iaith, a gweithgareddau a chyd-destunau. Mae'r rhaglen astudio yn:

- rhydd o feysydd profiad penodol er mwyn eich galluogi chi i ddatblygu ystod o gyd-destunau cyfoes ac ysgogol ar gyfer dysgu ac addysgu iaith, sy'n berthnasol i ddiddordebau, aeddfedrwydd a phrofiad y dysgwyr
- rhoi pwyslais clir ar ddatblygu sgiliau iaith dysgwyr a darparu cyfleoedd i ddefnyddio iaith mewn modd ystyrlon at ystod o wahanol ddibenion
- rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod dysgwyr yn creu cysylltiadau ag ieithoedd eraill ac yn defnyddio gwybodaeth a sgiliau cyffredin sy'n gysylltiedig ag ieithoedd eraill
- cynnwys cyfleoedd penodol i ddysgwyr werthfawrogi diwylliannau a chymunedau eraill a'u cymharu nhw â'u diwylliannau a'u cymunedau eu hunain
- cynnwys un targed cyrhaeddiad ar gyfer Llafaredd, sy'n galluogi dysgwyr i ddatblygu ystod ehangach o sgiliau gwrando a siarad
- cynnwys disgrifiadau lefel sy'n diffinio'n gliriach y cynnydd y bydd dysgwyr yn ei wneud mewn ieithoedd yn ystod y cyfnod allweddol, heb unrhyw gyfeiriadau at strwythurau a chynnwys penodol.

## Dysgwyr

Yn aml, roedd profiad dysgwyr o ieithoedd tramor modern yn y gorffennol yn canolbwyntio ar gaffael geirfa ar draws ystod o bynciau. Mae angen i ddysgwyr fedru trosglwyddo iaith a sgiliau er mwyn tyfu'n fwy annibynnol a gwneud cynnydd gwirioneddol o safbwynt eu gallu i ddefnyddio'r iaith.

Mae'r rhaglen astudio ddiwygiedig yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- gyfathrebu'n effeithiol ac yn fwyfwy annibynnol a hyderus mewn ystod o weithgareddau a chyd-destunau y mae'r dysgwyr yn ganolog iddyn nhw
- cymhwyso'u gwybodaeth ieithyddol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd sydd o ddiddordeb iddyn nhw
- gwrando, gweld a darllen ystod o ddeunyddiau ar gyfer diddordeb a dibenion penodol
- addasu ac ail-ddefnyddio'r iaith maen nhw wedi'i darllen a'i chlywed wrth iddyn nhw gynhyrchu eu hiaith eu hunain, a defnyddio iaith yn annibynnol ac yn greadigol
- dysgu am y diwylliannau a'r gwledydd lle defnyddir yr iaith maen nhw'n ei dysgu trwy ddefnyddio adnoddau dilys a rhyngweithio â phobl sy'n siarad yr iaith
- creu cysylltiadau rhwng yr iaith dramor fodern a Chymraeg a Saesneg, ac adeiladu ar eu sgiliau blaenorol mewn perthynas â dysgu iaith
- caffael strategaethau dysgu iaith er mwyn hybu eu gwaith dysgu a'u hannibyniaeth.

## Athrawon

Bydd y modd y caiff y rhaglen astudio ei chynllunio a'i haddysgu'n allweddol o safbwynt sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau llwyddiannus, tebyg i'r rhai a ddisgrifir uchod, wrth ddysgu ieithoedd tramor modern. Wrth gynllunio ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig, byddwch am fanteisio ar y cyfle i adolygu a diweddaru eich cynlluniau cwricwlwm a'ch dulliau addysgu presennol; adeiladu ar eich arferion da presennol a datblygu cyfleoedd newydd ar gyfer eich dysgwyr.

Dylai gwaith cynllunio gynnwys yr elfennau canlynol:

- creu unedau gwaith sy'n canolbwyntio ar y strwythurau sydd i'w dysgu yn hytrach nag ar dopig
- darparu ystod o gyd-destunau (a allai fod yn berthnasol i feysydd eraill y cwricwlwm hefyd) fel bod dysgwyr yn ymwneud â'r hyn sydd o bwys ac o ddiddordeb iddyn nhw wrth ymarfer eu sgiliau darllen, gwylio, gwrando, siarad ac ysgrifennu

- nodi agweddau perthnasol a diddorol ar ddiwylliant a chymdeithas, a all fod yn rhan integredig o'u gwaith dysgu iaith
- sicrhau bod dysgwyr yn gwybod sut mae iaith yn gweithio a beth yw ei rheolau a'i phatrymau fel y gallan nhw addasu ac ail-ddefnyddio iaith at eu dibenion eu hunain ac mewn gwahanol gyd-destunau
- strategaethau addysgu – megis addysgu cysylltiadau rhwng sain a sillafu, sgiliau cofio, sgiliau defnyddio geiriadur ac ail-ddrafftio – er mwyn hybu annibyniaeth dysgwyr a gwella'u hystod a'u cywirdeb
- cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei wybod yn greadigol ac yn annibynnol, ac i fentro a chwarae gydag iaith
- helpu dysgwyr i adeiladu ar eu gwybodaeth a'u sgiliau blaenorol mewn perthynas â dysgu iaith, i adnabod cysylltiadau, tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill
- darparu cyfleoedd i ddysgu iaith y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, (gan gynnwys cysylltiad â siaradwyr yr iaith a defnyddwyr yr iaith yng nghyd-destun byd gwaith) yn ogystal â thrwy weithgareddau sy'n dod â byd yr iaith i mewn i'r ystafell ddosbarth trwy gyfrwng ystod o adnoddau.

## Datblygu ffocws ar Sgiliau

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu yn yr iaith dramor fodern. Mae'r canllawiau isod yn disgrifio enghreifftiau o strategaethau y gallwch eu defnyddio i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar sgiliau ar gyfer dysgu'r iaith dramor fodern. Gellir dod o hyd i enghreifftiau o weithgareddau tebyg yn y proffiliau dysgwr a geir yn Adran 3.

### Datblygu Llafaredd

Mae'r gweithgareddau hyn yn dangos sut y gellir integreiddio siarad a gwrando, a sut gall dysgwyr ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei glywed i ddatblygu eu siarad neu eu hysgrifennu eu hunain.

Er enghraifft, wrth wrando ar ddeunydd llafar gellir rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- wrando am strwythurau iaith yn hytrach na geiriau
- ail-ddefnyddio deunydd llafar maen nhw'n ymateb iddo fel patrwm ar gyfer datblygu eu sgyrsiau neu'u cyflwyniadau eu hunain neu fel cam tuag at greu eu hiaith eu hunain (er enghraifft stori, cyflwyniad, cân neu gerdd)
- crynhoi'r hyn maen nhw wedi'i glywed, ei drosi i'r trydydd person neu'i gymharu â'u profiadau nhw'u hunain, gan drosglwyddo'r wybodaeth i bobl eraill
- cynnig eu barn a'u rhesymau eu hunain ar lafar wrth ymateb i'r hyn maen nhw'n ei glywed.

Wrth siarad, gellir rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ryngweithio ac ymateb i'w gilydd mewn gwahanol weithgareddau megis gêmau a chystadlaethau
- paratoi a rhoi cyflwyniadau i'r dosbarth mewn parau, mewn grwpiau neu'n unigol, a gofyn cwestiynau ac ymateb i gyflwyniadau dysgwyr eraill
- gwrando ar ddysgwyr eraill yn siarad a chymryd rhan mewn gweithgareddau asesu cyfoedion.

## Datblygu Darllen

Caiff gweithgareddau darllen eu cyfyngu weithiau i ddarllen er mwyn deall yn unig. Mae'r gweithgareddau a ddisgrifir yma'n dangos sut y gellir defnyddio testun ysgrifenedig mewn gwahanol ffyrdd i hybu gwaith dysgu iaith, a sut gall testun ysgrifenedig hybu sgiliau siarad ac ysgrifennu dysgwyr. Er enghraifft, wrth weithio gyda thestun, gellir rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- adnabod geiriau cytras a geiriau maen nhw'n eu gwybod yn barod, canfod ystyr geiriau, a rhestru'r geiriau nad ydyn nhw'n eu deall a chwilio am eu hystyr mewn rhestr eirfa neu eiriadur
- darllen yn uchel mewn parau neu mewn grwpiau fel gêm er mwyn ymarfer cysylltiadau rhwng sain a sillafu ac atgyfnerthu ynganu da
- gwrando ar stori ac ail-drefnu testun ysgrifenedig fel ei fod yn cyfateb i'r hyn maen nhw'n ei glywed
- ail-ysgrifennu testun sydd yn y person cyntaf er mwyn creu adroddiad sydd yn y trydydd person
- darllen ystod o destunau ar thema arbennig, mewn grwpiau neu'n unigol, er mwyn paratoi eu hadroddiad, eu stori neu'u cyflwyniad eu hunain.

## Datblygu Ysgrifennu

Gall gweithgareddau ysgrifennu atgyfnerthu gwaith dysgu a galluogi dysgwyr i ysgrifennu'n fwy annibynnol a chreadigol am bynciau sydd o ddiddordeb iddyn nhw, hyd yn oed pan fo'u gwybodaeth nhw am iaith yn eithaf prin. Er enghraifft, wrth ddatblygu tasgau ysgrifennu, gellir rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- weithio mewn parau, mewn grwpiau neu'n unigol i ymestyn a newid brawddegau er mwyn eu gwneud nhw'n fwy diddorol
- addasu testun ysgrifenedig syml trwy ychwanegu adferfau, cysyllteiriau ac ansoddeiriau i'w wneud yn fwy diddorol
- defnyddio iaith at ddibenion go iawn, er enghraifft, anfon negeseuon e-bost i ysgol bartner, neu ddefnyddio TGCh i greu poster neu gyflwyniad ar gyfer ysgol bartner neu wefan yr ysgol
- llunio cerddi syml, gan ddefnyddio cerddi acrostig neu galigramau neu ailadrodd strwythurau a ddysgwyd yn ddiweddar (er enghraifft yr amser gorffennol)
- ymchwilio, addasu ac ysgrifennu am yr hyn sydd o ddiddordeb iddyn nhw, trwy ystod o wahanol gyd-destunau a ffurfiau
- defnyddio gweithgareddau adrodd stori i greu storïau ar gyfer disgyblion iau Cyfnod Allweddol 3 neu Cyfnod Allweddol 2.

## Gweithredu'r Ystod

Dylid datblygu sgiliau Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu trwy'r ystod o weithgareddau, cyd-destunau a phrofiadau a amlinellir yn y rhaglen astudio. Mae'r canllawiau isod yn disgrifio enghreifftiau o weithgareddau a chyd-destunau y gallwch eu defnyddio i sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad ysgogol a pherthnasol. Gellir dod o hyd i enghreifftiau o weithgareddau a chyd-destunau tebyg yn y proffiliau dysgwr a geir yn Adran 3.

### Dealltwriaeth ryngddiwylliannol

Dylai dealltwriaeth ryngddiwylliannol fod wrth wraidd y rheswm dros ddysgu iaith dramor fodern, a dylid sicrhau bod dealltwriaeth ryngddiwylliannol yn rhan integredig o gynifer o weithgareddau ag sy'n bosibl.

**Er enghraifft:**

- gellir dathlu agweddau ar fywyd gwlad yr iaith darged a chymharu'r agweddau hynny â phrofiad y dysgwyr mewn cyd-destunau megis cymdeithas, hanes, daearyddiaeth a'r amgylchedd, y celfyddydau, cerddoriaeth, bwyd a diod, chwaraeon a hamdden
- mae defnyddio deunyddiau dilys yn tynnu'r iaith allan o'r gwerslyfr ac i mewn i'r ystafell ddosbarth
- gall dysgwyr weld diben a phwysigrwydd dysgu ieithoedd os ydyn nhw'n dod i gysylltiad â gwlad a siaradwyr yr iaith, gartref a thramor
- gellir archwilio dealltwriaeth ryngddiwylliannol trwy gyd-destunau lleol ac ehangach, trwy ddefnyddio TGCh i ymchwilio a chyfathrebu a thrwy newyddion, digwyddiadau a phersonoliaethau sy'n gysylltiedig â'r gwledydd lle siaredir yr iaith darged.

### Strategaethau dysgu iaith

Er mwyn helpu dysgwyr i dyfu'n fwy annibynnol wrth ddysgu iaith, gellir dangos ystod o strategaethau iddyn nhw a fydd yn eu helpu i ddysgu iaith newydd.

**Er enghraifft:**

- chwarae a chael hwyl gydag iaith yn hybu hyder dysgwyr a'u parodrwydd i fentro
- sut i adnabod strwythurau mewn testun llafar neu ysgrifenedig (er enghraifft berfau mewn amser newydd) a gellid ceisio llunio rheolau ar gyfer y strwythurau hynny
- creu cyfleoedd i ymarfer y tu allan i'r ystafell ddosbarth (er enghraifft y dysgwyr yn recordio'u hunain yn siarad, yn cadw dyddiaduron, yn sylwi ar ble mae'r iaith yn cael ei defnyddio yn eu bywydau eu hunain) yn helpu dysgwyr i gadw'r iaith yn fyw y tu allan i'r ystafell ddosbarth
- darparu cyfleoedd cyson i gymharu ieithoedd â'i gilydd ac adeiladu ar y sgiliau mae'r dysgwyr wedi'u datblygu'n barod wrth astudio Cymraeg a Saesneg.

**Gweithgareddau a chyd-destunau**

Dylech gynllunio gweithgareddau sy'n berthnasol ac sy'n ennyn diddordeb dysgwyr, ac sydd â diben clir, er mwyn cynnal eu brwdfrydedd a chadw eu diddordeb yn ystod Cyfnod Allweddol 3 a thu hwnt.

**Er enghraifft:**

- cyfleoedd i ddysgu'r iaith dramor fodern mewn ystod o gyd-destunau ysgogol, perthnasol a diddorol a ddewisir ganddyn nhw a'u hathro/hathrawes
- cyfleoedd i brofi ystod mor eang ag sy'n bosibl o adnoddau
- gweithgareddau sy'n adeiladu ar y gwaith dysgu a wnaed yng Nghyfnod Allweddol 2, ac sy'n cysylltu â meysydd eraill y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3
- gweithgareddau sy'n helpu dysgwyr i ddefnyddio iaith yn greadigol ac yn annibynnol.

## Ieithoedd tramor modern a sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3 i 19 oed.

Mewn ieithoedd tramor modern, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau maen nhw wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; o'r syml i'r cymhleth; o'r personol i'r 'darlun mawr'; o'r cyfarwydd i'r anghyfarwydd; ac o'r dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Defnyddiwyd eiconau yn y Gorchymyn ieithoedd tramor modern i ddangos gofynion penodol o ran datblygu gwaith dysgu a sgiliau ar draws y cwricwlwm. Byddwch yn dod ar draws cyfleoedd pellach i ddatblygu'r gwaith dysgu a'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm pan fyddwch yn cynllunio eich gwaith addysgu a dysgu mewn ieithoedd tramor modern.

### Datblygu meddwl

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy brosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn ieithoedd tramor modern, bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau meddwl trwy ystod o weithgareddau yn eu hiaith eu hunain neu trwy'r iaith darged. Byddan nhw'n cynllunio a dadansoddi'r hyn mae arnyn nhw angen ei wybod er mwyn gweithredu'r gweithgareddau; adeiladu ar iaith ac addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol; meddwl a defnyddio iaith yn greadigol; defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu ieithyddol; defnyddio gwybodaeth ieithyddol flaenorol i esbonio a rhagfynegi; disgrifio cysylltiadau a'r hyn sy'n debyg rhwng yr ieithoedd; adnabod patrymau a llunio rheolau; trafod y gwaith o ddysgu iaith a gwerthuso eu llwyddiant.

**Gallai gweithgareddau gynnwys:**

- adnabod elfen nad yw'n perthyn mewn cyfres (er enghraifft gwahanol rannau ymadrodd, neu eiriau neu ymadroddion unigol) ac esbonio pam
- rhoi testun mewn trefn, megis ail-drefnu disgrifiad cymysglyd o batrwm diwrnod person ifanc o wlad arall
- ymchwilio a chynllunio ar gyfer cyflwyniad fel grŵp, a gwerthuso iaith a chynnwys y cyflwyniad
- gweithio gyda thestun llafar neu ysgrifenedig, er mwyn canfod a phrofi rheol neu batrwm gramadegol, ac esbonio'r rheol neu'r patrwm i bobl eraill.

**Datblygu cyfathrebu**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn ieithoedd tramor modern, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau mewn llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach yn yr iaith darged. Byddan nhw'n gwrando'n astud, dysgu patrymau sain newydd, siarad yn hyderus, darllen ystod o destunau a chynhyrchu amrywiaeth o fathau o ysgrifennu. Byddan nhw'n ymdopi ag iaith fwy estynedig a chymhleth er mwyn datblygu fel defnyddwyr iaith annibynnol. Bydd eu sgiliau cyfathrebu mewn iaith newydd yn gymorth i ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg gan adeiladu ar y sgiliau hynny.

Bydd pob gweithgaredd mewn ieithoedd tramor modern yn datblygu sgiliau cyfathrebu'r dysgwyr. Fodd bynnag, wrth gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau cyfathrebu, dylech sicrhau bod y dysgwyr yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau er mwyn datblygu'r sgiliau hyn yn llawn, a dylech sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r sgiliau maen nhw wedi'u datblygu'n barod wrth ddysgu Cymraeg a Saesneg.

**Datblygu TGCh**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod**, **datblygu**, **creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn ieithoedd tramor modern, bydd y dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau TGCh i: gyfathrebu a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys e-bost; cyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau gan ddefnyddio prosesydd geiriau a graffeg; darganfod a datblygu gwybodaeth ar y rhyngrwyd; ategu cyflwyniadau llafar ac fel offeryn ar gyfer dysgu ac ymarfer iaith.

**Gallai gweithgareddau gynnwys:**

- darllen erthyglau neu destunau ar y rhyngrwyd am bynciau sydd o ddiddordeb, er enghraifft gwefannau sydd wedi'u hysgrifennu mewn iaith dramor ar gyfer ffilmiau poblogaidd neu raglenni teledu ac ati
- cyflwyno prosiect diwedd uned, er enghraifft taflen neu boster am agwedd ar fywyd yng ngwlad yr iaith darged, neu baratoi sioe sleidiau â TGCh i ategu cyflwyniad llafar
- creu taenlen i gyflwyno canlyniadau arolwg
- cymryd rhan mewn gemau a gweithgareddau iaith sy'n seiliedig ar TGCh.

### Datblygu rhif

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol**, **cyfrifo**, **a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn ieithoedd tramor modern, bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif trwy amrywiaeth o weithgareddau yn yr iaith darged. Gall y rhain gynnwys rhigymau rhif; dysgu'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio safle, gan gynnwys pwyntiau'r cwmpawd; trefnu rhifau; trefnu digwyddiadau o fewn cyfnod o amser; mesur amser; defnyddio rhifau mewn cyd-destunau perthnasol megis cyfnewid arian; casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys holiaduron; a chael gafael ar ddata, ei ddewis, ei gofnodi a'i gyflwyno mewn amrywiaeth o fformatau.

**Gallai gweithgareddau gynnwys:**

- cyflawni gweithgaredd siopa gan ddefnyddio'r arian tramor perthnasol a deunyddiau dilys megis catalogau sydd â chyfeirnodau, rhifau a phrisiau
- cynllunio taith i wlad yr iaith darged gan adolygu costau yn yr arian tramor, ac adolygu amserau a'r gwahaniaeth amser ac ati
- cynnal arolwg yn yr iaith darged a chyflwyno'r wybodaeth gan ddefnyddio graffiau o wahanol fathau.

## Ieithoedd tramor modern a dysgu ar draws y cwricwlwm

Mae Cwricwlwm 2008 yn darparu cyfleoedd i ddatblygu polisïau a themâu trawsgwricwlaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis y Cwricwlwm Cymreig, addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd a'r byd gwaith, sy'n cynnwys cyfle cyfartal, bwyd a ffitrwydd a datblygiad cynaliadwy.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

### Y Cwricwlwm Cymreig

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Bydd ieithoedd tramor modern yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ganiatáu i ddysgwyr werthfawrogi a chymharu eu diwylliant eu hunain, eu hiaith a'u cymuned gyda'r gwledydd a'r cymunedau yn yr iaith darged. Bydd astudio iaith newydd yn helpu datblygu sgiliau ieithyddol a all ychwanegu at ddysgu Cymraeg.

**Gallai gweithgareddau gynnwys:**

- ymchwilio i wyliau, dathliadau neu ddigwyddiadau eraill yng Nghymru a'r gwledydd neu'r cymunedau lle defnyddir yr iaith darged, ac adrodd yn ôl yn eu cylch
- llunio cofnod o strwythurau a geirfa fel dosbarth er mwyn cymharu'r iaith darged â'r Gymraeg
- cyflwyno agwedd ar Gymru i ymwelydd o dramor, er enghraifft twrist, ysgol gyfnewid, cysylltiadau busnes.

### Addysg bersonol a chymdeithasol

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; fod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes.

Bydd ieithoedd tramor modern yn cyfrannu at addysg bersonol a chymdeithasol dysgwyr trwy eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill a'u ffordd o fyw. Bydd y dysgwyr yn gweithio'n gydweithredol ac yn parchu cyfraniadau gan eraill.

**Gallai gweithgareddau gynnwys:**

- cydweithio mewn grŵp i ymchwilio i agwedd benodol ar ddiwylliant, gwlad neu gymdeithas arall sy'n gysylltiedig â'r iaith darged, a chyflwyno gwybodaeth am yr agwedd honno
- ymchwilio i ieithoedd a diwylliannau eraill sydd yn yr ardal leol neu'r ysgol, a chyflwyno cymhariaeth neu ganlyniad arolwg yn yr iaith darged
- trafod materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd neu fyw'n iach yn yr iaith darged.

### Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith.

Mewn ieithoedd tramor modern, dylai'r dysgwyr gael cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd ym myd gwaith, yr economi fyd-eang a'u gyrfaoedd yn y dyfodol. Gall y dysgwyr ddefnyddio ieithoedd mewn cyd-destunau cysylltiedig â gwaith a gall ysgolion wneud dysgwyr yn ymwybodol o rôl ieithoedd mewn ystod o swyddi drwy ymweliadau, cysylltiadau busnes lleol ac adnoddau cysylltiedig â gwaith eraill.

**Gallai gweithgareddau gynnwys:**

- ymchwilio i wahanol swyddi a'u disgrifio, gan ddweud pa rai sydd orau yn eu barn nhw a pham
- chwarae rhan rhywun sy'n gweithio, gan ddefnyddio'r iaith darged, er enghraifft chwarae rhan rhywun sy'n tywys pobl o amgylch yr ysgol neu'r dref, neu cyflwyno pobl yng nghyd-destun byd gwaith
- gwahodd pobl fusnes sy'n siarad ieithoedd tramor i'r ystafell ddosbarth i sôn am sut maen nhw'n defnyddio ieithoedd yn eu gwaith

# *Adran* 2

## Disgwyliadau a dilyniant mewn ieithoedd tramor modern

Yn gyffredinol, caiff cynnydd disgyblion wrth ddysgu iaith dramor fodern ynghyd â datblygiad eu sgiliau Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu eu nodweddu gan y canlynol:

- y ffaith eu bod yn dod yn fwyfwy cyfarwydd â seiniau, ffurf ysgrifenedig a gramadeg yr iaith darged
- yr ystod gynyddol o strwythurau a geirfa maen nhw'n eu deall ac yn gallu eu defnyddio
- eu defnydd o'r iaith darged mewn ystod gynyddol o sefyllfaoedd ac at amrywiaeth o ddibenion
- eu gallu i addasu a thrin yr iaith maen nhw wedi'i dysgu
- eu meistrolaeth a'u hyder cynyddol o safbwynt deall yr iaith darged a mynegi eu hunain ynddi
- eu gallu i ddeall a defnyddio iaith fwy cymhleth a chynhyrchu ymatebion mwy estynedig
- eu gallu i ymdopi ag iaith sy'n llai cyfarwydd a sefyllfaoedd sy'n fwy annisgwyl
- y modd y mae eu hannibyniaeth a'u creadigrwydd yn datblygu fel dysgwyr a defnyddwyr iaith.

## Llafaredd

Ar y dechrau, bydd y disgyblion yn gwrando ar iaith syml a chyfarwydd ac yn ymateb iddi trwy weithredoedd, geiriau, ymadroddion ac ymatebion byr eraill. Bydd angen ail-adrodd yr iaith a bydd angen cymorth a chiwiau gweledol arnyn nhw. Bydd eu hynganiad yn dangos eu bod nhw'n deall patrymau sain yr iaith. Bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn symud ymlaen i wrando ar ddarnau hirach o iaith o wahanol ffynonellau ac ymateb iddyn nhw. Byddan nhw'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau gan ddefnyddio iaith gyfarwydd, a bydd eu hynganiad yn gyson ar y cyfan. Wrth iddyn nhw gaffael mwy o iaith, byddan nhw'n ymateb i batrymau brawddegau mwy amrywiol o amrywiaeth ehangach o ddeunydd gwrando. Byddan nhw'n creu eu sgyrsiau a'u cyflwyniadau eu hunain, ac wrth i'w gwybodaeth am yr iaith gynyddu byddan nhw'n dechrau amrywio'r hyn maen nhw'n ei ddweud. Bydd y disgyblion yn dod i ddeall ystod fwyfwy eang o strwythurau, geirfa a chyd-destunau mewn iaith lafar, a byddan nhw'n gallu ail-ddefnyddio ychydig o'r hyn maen nhw'n ei glywed yn yr iaith maen nhw'n ei chynhyrchu. Bydd iaith lafar y disgyblion yn cynnwys iaith fwyfwy

amrywiol a chymhleth gallan nhw ei haddasu i wahanol gyd-destunau, a bydd eu hymatebion yn fwy estynedig ar adegau, yn dibynnu ar ddiben y dasg. Bydd y disgyblion yn tyfu'n fwy annibynnol ac yn ymateb yn fwy digymell o safbwynt yr hyn maen nhw'n gallu ei ddweud.

## Darllen

Bydd y disgyblion yn dechrau deall geiriau ac ymadroddion unigol. Byddan nhw'n dysgu rheolau'r iaith ynghylch cysylltiadau rhwng sain a sillafu fel y gallan nhw ynganu'n gywir wrth ddarllen yn uchel. Bydd nifer y geiriau a'r ystod o batrymau brawddegau maen nhw'n eu deall yn cynyddu. Bydd y disgyblion yn darllen ystod gynyddol o destunau sydd wedi'u hysgrifennu at wahanol ddibenion ac mewn gwahanol gyd-destunau ac yn ymateb iddyn nhw. Byddan nhw'n datblygu sgiliau ar gyfer defnyddio rhestrau geirfa, geiriaduron ac ystod fwyfwy amrywiol o adnoddau. Byddan nhw'n deall ystod gynyddol o strwythurau, geirfa a chyd-destunau. Byddan nhw'n gallu ymdopi â thestunau hirach. Byddan nhw'n datblygu eu sgiliau darllen er mwyn ymdopi ag iaith anghyfarwydd, dod o hyd i'r wybodaeth y mae arnyn nhw'i hangen, ac ailddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddarllen yn yr iaith maen nhw'n ei chynhyrchu.

## Ysgrifennu

Bydd y disgyblion yn dechrau datblygu sgiliau ysgrifennu trwy gopïo geiriau ac ymadroddion, ac yna byddan nhw'n symud ymlaen i ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau cyfarwydd yn annibynnol. Bydd angen cymorth ar y disgyblion weithiau, megis patrwm i'w ddilyn neu ffrâm ysgrifennu, ond byddan nhw'n dechrau addasu a chyfnewid geiriau ac ymadroddion i amrywio'r hyn maen nhw'n ei ysgrifennu. Bydd y disgyblion yn ysgrifennu testunau syml sy'n ymestyn o ran hyd mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau ac at wahanol ddibenion. Er eu bod yn gwneud camgymeriadau, byddan nhw'n cyfathrebu'n glir. Byddan nhw'n caffael sgiliau ar gyfer gwirio cywirdeb yr hyn maen nhw'n ei ysgrifennu, gan ddefnyddio geiriaduron a rhestrau geirfa ac ailddrafftio'u gwaith fel y bo'n briodol. Wrth i'w gwybodaeth am iaith gynyddu, byddan nhw'n amrywio patrymau eu brawddegau, yn defnyddio amrywiaeth ehangach o strwythurau, ac yn addasu'r iaith maen nhw wedi'i dysgu'n barod. Byddan nhw'n cysylltu brawddegau â'i gilydd, a byddan nhw'n ysgrifennu mewn modd mwy strwythuredig a chywir gan gynnwys iaith sy'n fwy cymhleth ar adegau.

# *Adran* 3

## Llunio barn ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3

Mae'r adran hon yn dangos sut y gellir defnyddio disgrifiadau lefel pan fyddwch yn llunio barn am y lefel sy'n cyd-fynd orau o safbwynt disgrifio perfformiad cyffredinol dysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Efallai y bydd y pwyntiau canlynol yn ddefnyddiol i chi pan fyddwch yn ystyried y proffiliau yn yr adran hon.

- Ni chaiff y proffiliau dysgwr eu cyflwyno fel model ar gyfer y modd y dylech gasglu tystiolaeth am eich dysgwyr. Er y byddwch am fedru esbonio pam yr ydych wedi dyfarnu lefel arbennig i ddysgwr ar ddiwedd y cyfnod allweddol, nid yw'n ofynnol esbonio eich barn yn y modd hwn ac nid yw'n ofynnol i'ch barn gael ei hategu gan gasgliadau manwl o dystiolaeth am bob dysgwr. Materion i athrawon sy'n gweithio o fewn polisi ysgol y cytunwyd arno yw penderfyniadau ynghylch casglu tystiolaeth a phenderfyniadau ynghylch diben y dystiolaeth honno a'r defnydd a wneir ohoni.
- Mae'r sylwadau ynghylch y darnau o waith wedi'u hysgrifennu er mwyn esbonio'r farn a luniwyd am berfformiad dysgwr. Nid bod yn enghraifft o adroddiad i rieni/warcheidwaid yw eu bwriad.
- Rhan fach yn unig o'r wybodaeth a'r profiadau sy'n perthyn i wybodaeth athrawon am bob dysgwr yw'r deunyddiau a geir ym mhob proffil dysgwr. Nid yw'r deunyddiau'n adlewyrchu'r holl wybodaeth y byddwch wedi ei chasglu am bob dysgwr dros amser ac ar draws ystod o wahanol gyd-destunau. Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth hon i lunio barn gytbwys am y lefel sy'n cyd-fynd orau â pherfformiad pob dysgwr.
- Byddwch yn llunio barn drwy ystyried cryfderau a gwendidau mewn perfformiad ar draws ystod o gyd-destunau a thros gyfnod o amser. Bydd angen rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu cyrhaeddiad ym mhob agwedd ar y disgrifiadau lefel.
- Efallai y bydd angen i rai o'ch dysgwyr ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu eraill er mwyn dangos beth maen nhw'n ei wybod, beth maen nhw'n ei ddeall a beth maen nhw'n gallu'i wneud.

Caiff y proffiliau canlynol o ddysgwyr ieithoedd tramor modern ym Mlwyddyn 9 eu cyflwyno yn ôl targedau cyrhaeddiad unigol, ac maen nhw'n ymdrin â Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

Bydd angen darllen y sylwadau ar gyfer Targed cyrhaeddiad 1: Llafaredd, ar y cyd â'r DVD ar gyfer Llafaredd sy'n cyd-fynd â'r llyfryn hwn.

# Adam | Lefel 3



Mae Adam yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Adam nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Adam ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Adam o'r farn mai Lefel 3 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Llafaredd yn Ffrangeg.

## Où est-ce qu'on se rencontre?

Yng nghyd-destun amser hamdden a mynd allan, mae Adam yn gwrando ar recordiad o dair neges ffôn er mwyn nodi'r amser, y diwrnod a'r lle y bwriedir mynd iddo. Mae'r iaith yn gyfarwydd ac yn eithaf syml. Mae Adam yn gwrando'n astud ar y negeseuon, a glywir ddwywaith, ac mae'n rhoi'r holl fanylion perthnasol yn gywir mewn grid. Mae'n gallu adrodd yn ôl ynghylch yr atebion yn Ffrangeg, ac yn dilyn y gweithgaredd hwn mae'n ymarfer y cwestiynau a'r atebion y bydd eu hangen arno er mwyn cymryd rhan mewn gwaith pâr gyda'i bartner.

1. C'est Sophie. On va au cinéma mercredi? On se rencontre à 3 heures. Au revoir!
2. Salut! C'est Jules. Tu veux aller au match de football dimanche? On se rencontre à 6 heures. Au revoir!
3. C'est Michel à l'appareil. Si on va au parc samedi? On se rencontre à 4 heures. Au revoir!

## On se rencontre (DVD)

Gan ddefnyddio'r iaith y mae wedi'i glywed a'i ymarfer yn barod, mae Adam yn paratoi deialog gyda'i bartner. Gan ddefnyddio ciwiau, mae'n cymryd rhan mewn sgwrs fer lle mae'n gwneud trefniadau i fynd allan gyda'i bartner, Liam. Mae'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau syml, ac nid yw'n petruso llawer wrth ymateb i'r hyn mae Liam yn ei ddweud. Mae'r sgwrs yn cynnwys tri neu bedwar o gwestiynau ac atebion, ac mae'n gallu cyfnewid y manylion ynghylch amser, lleoliad a gweithgaredd. Mae'n gwneud camgymeriadau, ond mae'r ystyr yn glir.

## Pour garder la forme (DVD)

Mae dosbarth Adam wedi bod yn ymarfer negyddion syml yng nghyd-destun bwyta ac yfed yn iach. Mae Adam yn ymateb yn unigol i'r cwestiynau mae'r athrawes yn gofyn. Mae'n ymateb gan ddefnyddio strwythurau a geirfa gyfarwydd i ddweud beth mae'n bwyta ac yn yfed i gadw'n iach. Mae'n rhoi atebion byr a syml wrth ymateb i gwestiynau'r athrawes, ac mae'n gallu llunio'r negyddion syml yn gywir.

## Les animaux (DVD)

Yn dilyn gwahanol weithgareddau llafar i ymarfer disgrifio yn y trydydd person gan ddefnyddio ansoddeiriau, lliwiau a berfau cyfarwydd, bu dosbarth Adam yn paratoi disgrifiadau syml o anifeiliaid er mwyn i'r disgyblion eraill geisio dyfalu pa anifail yr oedden nhw'n ei ddisgrifio. Gan ddefnyddio llun o anifail, nad yw gweddill y dosbarth yn gallu ei weld, mae Adam yn disgrifio anifail gan ddefnyddio ansoddeiriau a strwythurau byr a chyfarwydd mae wedi'u dysgu ar y cof. Ar ôl gwrando ar ddisgrifiad Adam, mae'r disgyblion eraill yn llwyddo i ddyfalu beth yw'r anifail. Yn ei ddisgrifiad, mae Adam yn dechrau amrywio'r patrymau brawddegau mae'n gallu eu defnyddio.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 2, 3 a 4 a barnwyd mai Lefel 3 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Adam yn gallu defnyddio a deall iaith gyfarwydd, â chymorth ar adegau. Mae'n deall *darnau byr, deialogau a mathau eraill syml o iaith gyfarwydd* a siaredir gan bobl eraill ac sydd wedi'u recordio (nodwedd o Lefel 3). Mae'n gallu *gofyn ac ateb cwestiynau gan ymateb yn briodol trwy ddefnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd*, gyda phartner a'i athrawes (nodwedd o Lefel 3). Mae'n dechrau cyfnewid geiriau ac ymadroddion er mwyn amrywio'i iaith yn ystod y gweithgaredd gwaith pâr a'r gwaith disgrifio anifeiliaid, ac mae'n cynnwys *gwahanol batrymau brawddegau* yn achlysurol gan ddechrau arddangos rhai nodweddion sy'n perthyn i Lefel 4. Mae ei ynganiad yn gywir ar y cyfan.

Llafaredd

# Laurent

**Lefel 5**



Mae Laurent yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Laurent nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Laurent ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Laurent o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Llafaredd yn Ffrangeg.

## Petit Chaperon Rouge

Yn rhan o uned ar adrodd storïau, bu dosbarth Laurent yn gwrando ar wahanol storïau a oedd yn cynnwys rhai storïau traddodiadol. Bu'r dosbarth yn gwrando ar ddarn allan o stori'r Hugan Fach Goch gan edrych ar luniau ar y bwrdd gwyn ar yr un pryd. Gwelir darn o destun y stori isod.

> Voilà une petite fille qui s'appellait le petit Chaperon rouge.
> Un jour sa mère lui a dit:
> – Voici une galette et une bouteille de vin. Porte-les à ta grand-mère qui est malade. Sois bien sage et ne t'écarte pas du chemin.
>
> La grand-mère habitait au plus profond de la forêt.
> A peine entrée dans la forêt le petit Chaperon rouge a rencontré le loup.
> – Bonjour, petit Chaperon rouge, a dit le loup.
> – Bonjour, loup.
> – Où vas tu ce matin?
> – Chez ma grand-mère qui est malade.
> – Et où habite-elle?
> – Plus loin dans la forêt.
>
> Tout en marchant avec le petit Chaperon rouge, le loup a pensé:
> – Je veux bien manger cette petite fille!
> – Petit Chaperon rouge, as-tu vu toutes ces jolies fleurs?
> Le petit Chaperon rouge a regardé autour d'elle et elle voyait des fleurs partout.
> – Grand-mère va être contente si je lui apporte un beau bouquet.
> Elle a commencé à cueillir des fleurs…

Sa grand-mère avait un air étrange…
Oh! Grand-mère, que vous avez de grandes oreilles!
– C'est pour mieux t'entendre mon enfant.
– Oh! Grand-mère, que vous avez de grands yeux!
– C'est pour mieux te voir mon enfant.
– Oh! Grand-mère, que vous avez de grandes dents!
– C'est pour mieux te manger mon enfant.
Et sur ses mots le loup a mangé le petit Chaperon rouge!

Ar ôl gwrando ar y stori am y tro cyntaf, bu'r dosbarth yn gwrando arni eto gan gadw cyfrif o'r berfau yn yr amser perffaith yr oedden nhw'n eu hadnabod. Cyn gwrando ar y darn am y tro olaf, rhannwyd y disgyblion yn grwpiau bach, rhoddwyd y testun wedi'i dorri'n 10 darn iddyn nhw, a gofynnwyd iddyn nhw roi trefn ar y darnau wrth wrando ar y stori. Llwyddodd Laurent i adnabod sawl enghraifft o'r amser perffaith, a llwyddodd i roi trefn ar y testun. Mae'r iaith yn y stori hon yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau, ac mae'r testun yn eithaf hir. Roedd y stori'n gyfarwydd i'r disgyblion er hynny, a llwyddodd Laurent i ymdopi'n dda â'r amrywiaeth o strwythurau.

## Boucle d'Or (DVD)

Yn rhan olaf yr uned hon o waith ar adrodd storïau, bu'r disgyblion yn ail-edrych ar ddisgrifiadau a oedd yn disgrifio cymeriadau o'r storïau yr oedden nhw wedi bod yn eu hastudio. Mae Laurent yn cyflwyno'i disgrifiad o Elen Benfelen i weddill y dosbarth er mwyn iddyn nhw geisio dyfalu pwy sy'n cael ei disgrifio. Mae'n disgrifio beth mae hi'n gwisgo, ei hymddangosiad corfforol a'r hyn mae'n ei hoffi ac yn ei gasáu, gan amrywio'r strwythurau mae'n eu defnyddio. Mae'n gwneud ambell gamgymeriad, ond yn gyffredinol mae'r disgrifiad yn un cywir ac mae hi'n dangos dealltwriaeth dda o gytundeb ansoddeiriau. Er bod y cyflwyniad yn eithaf syml, llwyddodd Laurent i'w greu ar ei phen ei hun ac mae ei hiaith yn gywir.

### Les vacances (DVD)

Mewn uned sy'n ymdrin â gwyliau, dysgodd y dosbarth sut i siarad am ble y byddan nhw'n mynd ar eu gwyliau, gan ddefnyddio ffurf syml y dyfodol a mynegi barn syml. Mae Laurent a'i phartner yn holi ei gilydd ynghylch eu cynlluniau ar gyfer gwyliau, gan ddefnyddio taflen lle ceir bylchau mewn gwybodaeth. Mae ei phartner yn gofyn y cwestiynau'n gyntaf gan ddefnyddio'r cwestiynau a awgrymir, ac mae'n nodi atebion Laurent. Mae Laurent eisoes wedi ymarfer yr iaith sydd angen arni, ac mae'n gallu ymateb i ystod o gwestiynau heb giwiau gan amrywio'i hatebion. Er ei bod yn gwneud camgymeriadau gydag amserau'r ferf tua'r diwedd, mae'n cyfathrebu'n glir.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd


Ystyriwyd Lefelau 4, 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn ystod Blwyddyn 9, roedd enghreifftiau o weithgareddau eraill y bu Laurent yn cymryd rhan ynddyn nhw o safbwynt Llafaredd yn cynnwys cyflwyniad am Gymru gan ddefnyddio TGCh. Nododd yr athro bod Laurent wedi defnyddio ystod o strwythurau, gan gynnwys barn, a'i bod hi wedi defnyddio gwahanol gyd-destunau megis y tywydd, yr ysgol a chwaraeon. Roedd hi'n gallu ail-ddefnyddio iaith gyfarwydd yn ei chyflwyniad, ac roedd yr iaith honno'n eithaf estynedig. Cymerodd ran mewn arolwg hefyd, lle bu'r disgyblion yn gweithio mewn grwpiau ac yn holi ei gilydd ynghylch beth oedden nhw'n ei wneud i gadw'n heini. Bu Laurent yn adrodd yn ôl ynghylch aelodau ei grŵp gan lunio ymateb mwy estynedig. Mae Laurent yn gallu ymateb i *wahanol fathau o ddeunydd llafar mewn cyd-destunau cyfarwydd amrywiol, yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau* (nodwedd o Lefel 5). Mae'n gallu defnyddio iaith mewn ystod o gyd-destunau cyfarwydd, ac mae'n gallu *amrywio'r gwahanol strwythurau* mae'n eu defnyddio weithiau gan gynnwys gwahanol amserau'r ferf a barn syml. Ceir *rhai camgymeriadau* yn ei hiaith a'i hynganiad, ond mae'n cyfathrebu'n glir bob amser.

Llafaredd

# Joe

**Lefel 6**



Mae Joe yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Joe nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Joe ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Joe o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Llafaredd yn Ffrangeg.

## Le weekend (DVD)

Mae'r gweithgaredd hwn yn asesiad crynodol gan gyfoedion ar ddiwedd uned sy'n ymdrin â'r amser perffaith a gweithgareddau'r penwythnos. Mae'r dosbarth yn gyfarwydd â gwrando ar berfformiadau ei gilydd a gwirio'r hyn maen nhw'n ei ddweud yn erbyn meini prawf a drafodwyd â'r athrawes. Mae gan Rachel, partner Joe, nifer o gwestiynau i'w gofyn iddo, ac mae'n sicrhau bod Joe yn rhoi atebion mwy estynedig trwy ofyn iddo am fwy nag un manylyn. Maen nhw'n cael cyfle i ymarfer cyn penderfynu a ydyn nhw'n barod i gael eu hasesu gan eu partner, ac i baratoi nodiadau byr i'w helpu. Nid yw Joe yn defnyddio'i nodiadau wrth ateb, ac mae'n ymateb yn hyderus. Mae'n defnyddio amrywiaeth eang o strwythurau ac mae'n trafod yr amser perffaith yn ddeheuig, gan gynnwys berfau atblygol. Mae'n cysylltu brawddegau â'i gilydd, ac mae ei atebion yn fanwl ac weithiau'n estynedig. Mae'n llunio brawddegau mwy cymhleth weithiau, ond mae wedi ymarfer ei atebion yn dda cyn yr asesiad. Mae'n disgrifio'r hyn y bu'n ei wneud gan ddefnyddio amser perffaith ac amser amherffaith y ferf gyda'i gilydd, ac mae'n deall y gwahaniaeth rhyngddyn nhw. Mae ei iaith yn gywir ar y cyfan, ac nid yw'r camgymeriadau mae'n eu gwneud yn ei rwystro rhag cyfathrebu'n glir.

## Le travail

Bu'r dosbarth yn gwrando ar recordiad o bobl yn disgrifio'u swyddi. Mae'r testun yn eithaf hir, ac mae'n cynnwys ystod eang o strwythurau gan gynnwys iaith gyfarwydd mewn cyd-destun llai cyfarwydd, megis iaith sy'n sôn am yr hyn y mae pobl yn ei hoffi ac yn ei gasáu. Mae'r darn hwn yn sôn am ddwy swydd – gwerthwr blodau a milfeddyg. Clywodd y dosbarth ddisgrifiadau o swyddi postman a newyddiadurwr hefyd.

Alors moi, c'est Sébastien, 29 ans, et je suis fleuriste, responsable d'un magasin de fleurs à Strasbourg. Qu'est-ce que c'est être fleuriste? C'est d'abord nettoyer, couper les fleurs fraîches pour les bouquets, entretenir et arroser plantes en pot. J'aime mon métier parce que j'adore les fleurs et les plantes. C'est important aussi que je m'intéresse aux gens – on a beaucoup de contact avec les clients dans le magasin. J'ai fait un stage d'un an pour apprendre à dresser les bouquets.

Salut, je m'appelle Jean-Claude et je suis vétérinaire. Je travaille dans un cabinet en ville donc la plupart de mes clients sont des animaux domestiques: chiens, chats, oiseaux, mais il y a aussi les animaux plutôt exotiques comme des serpents et les lézards. J'adore mon métier. J'ai fait cinq ans d'études à l'école nationale vétérinaire à Nantes. Il faut aimer les animaux bien sûr, mais il ne faut pas être trop sentimental. Les heures de travail sont longues, mais le salaire d'un vétérinaire est bon.

Ysgrifennodd Joe fanylion am bob swydd yn Ffrangeg gan ddilyn yr awgrymiadau ar y daflen ateb:

**métier...**
**que fait-on?...**
**on l'aime?...**
**pourquoi?...**
**ce qu'on n'aime pas...**
**études...**
**d'autres détails...**

Dangosodd ei fod yn deall y deunydd llafar, a nododd ystod o wybodaeth a manylion ar gyfer pob swydd a ddisgrifiwyd.

### Le travail (DVD)

Bu'r disgyblion yn paratoi cyflwyniadau byr gan ddefnyddio'r nodiadau a luniwyd yn ystod y gweithgaredd gwrando. Mae Joe yn ail-ddefnyddio ychydig o'r iaith mae wedi'i glywed er mwyn dweud pam y byddai'n hoffi bod yn filfeddyg yn hytrach nag yn werthwr blodau, ac mae'n defnyddio'i nodiadau i'w helpu'n achlysurol. Mae Joe yn addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol i'r cyd-destun newydd. Mae ei ymateb yn eithaf estynedig a manwl. Mae ei iaith yn gywir ar y cyfan, ac mae'n siarad yn hyderus yn ei gyflwyniad.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 5, 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Cymerodd Joe ran mewn ystod o weithgareddau yn ystod Blwyddyn 9, gan gynnwys cyflwyniadau â TGCh, gweithgaredd drama a gweithgaredd grŵp a oedd yn ymwneud â pheryglon ffonau symudol ac a oedd yn seiliedig ar dasg gwrando. Mae'n dangos dealltwriaeth o *amrywiaeth o ddeunydd llafar*, gan gynnwys *rhai eitemau hirach* megis y recordiad a oedd yn sôn am swyddi (nodwedd o Lefel 6), ac mae'n dechrau ail-ddefnyddio'r hyn y mae'n ei glywed ac yn ei ddarllen yn ei iaith lafar ei hun. Mae Joe yn ynganu'n dda wrth siarad, ac mae ei oslef yn dda. Mae'n gallu defnyddio *amrywiaeth ehangach o strwythurau* gan gynnwys gwahanol amserau'r ferf, ac mae'n gallu *cynhyrchu ymatebion mwy estynedig a manwl* (nodwedd o Lefel 6). Mae'n cynhyrchu *rhai brawddegau cymhleth* yn y gweithgaredd gwaith pâr, gan ddechrau arddangos nodweddion sy'n perthyn i Lefel 7. Er ei fod yn gwneud camgymeriadau, mae'n cyfathrebu'n glir iawn. Mae'n siarad â *hyder cynyddol* (nodwedd o Lefel 6) er nad yw eto'n gallu defnyddio iaith yn fwy digymell.

# Targed cyrhaeddiad 1: Llafaredd
# Almaeneg



## David | Lefel 4

Mae David yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athro'n gwybod llawer mwy am berfformiad David nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith David ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro David o'r farn mai Lefel 4 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Llafaredd yn Almaeneg.

### Finde deinen Partner (DVD)

Bu'r disgyblion yn paratoi gweithgaredd tebyg i *Blind Date* gyda rhai yn chwarae rhan y cystadleuwyr ac un yn chwarae rhan y cyflwynydd. Rhoddwyd cyfle iddyn nhw baratoi atebion i wahanol gwestiynau, ond nid oedden nhw'n gwybod yn union pa gwestiynau fyddai'n cael eu gofyn. Roedd y cwestiynau a'r atebion yn ymdrin ag iaith gyfarwydd sy'n ymwneud â disgrifiadau personol. Gwelwyd amrywiaeth o berfformiadau gan wahanol grwpiau, a oedd yn arddangos gwahanol lefelau o gyflawniad. Roedd pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig iawn ynghylch y gweithgaredd, ac roedd pob un wrth eu bodd yn defnyddio'r iaith yr oedden nhw wedi'i dysgu mewn tasg a oedd mor greadigol.

Yn y darn hwn, David yw'r cyflwynydd. Mae'n gofyn gwahanol gwestiynau, yn cyflwyno'r cystadleuwyr ac yn defnyddio iaith syml yn hyderus, er bod dylanwad ei famiaith a rhai camgymeriadau eraill yn amlwg weithiau.

### Die Schule

Mae dosbarth David yn ail-edrych ar bwnc 'Yr ysgol' yng nghyswllt dewis pa bynciau i'w hastudio a gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bu'r disgyblion yn gwrando ar recordiad lle'r oedd chwe myfyriwr ifanc o'r Almaen yn dweud beth oedd eu hoff a'u cas bynciau a pham, ac yn dweud pa yrfa bydden nhw'n hoffi ei dilyn. Dyma drawsgrifiad o'r hyn a ddywedodd un o'r myfyrwyr.

Hallo! Ich heisse Peter. Ich lerne gern Englisch. Es ist sehr interessant and ich höre gern Popmusik aus England. Ich lerne nicht gern Mathe. Es ist langweilig und sehr schwer. Ich möchte gern Englischlehrer werden.

Mae'r iaith yn seiliedig ar frawddegau syml, ond mae'n cynnwys gwahanol batrymau brawddegau. Bu'r disgyblion yn gwrando ddwywaith ar bob myfyriwr, a nododd David y rhan fwyaf o'r manylion yn gywir sef y pynciau, eu barn a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

### Schulfächer (DVD)

Yn dilyn y gweithgaredd gwrando, bu'r disgyblion yn paratoi sgyrsiau byr am y pynciau bydden nhw'n eu hastudio'r flwyddyn nesaf ar ôl iddyn nhw ddewis eu hopsiynau. Roedd rhai o'r disgyblion yn y dosbarth yn gallu defnyddio amser dyfodol y ferf yn eu sgyrsiau. Mae David yn rhoi rhesymau syml wrth ofyn ac ateb cwestiynau am ei hoff bynciau, yr hyn mae'n bwriadu ei wneud y flwyddyn nesaf, a'r hyn na fydd yn ei wneud. Mae'n ynganu'n dda, ac mae ei oslef yn gyson. Mae'n dechrau amrywio patrymau ei frawddegau a rhoi atebion sydd ychydig yn hirach. Mae'n gwneud rhai camgymeriadau, ond mae'n cyfathrebu'n glir ar y cyfan ac yn siarad yn hyderus.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 3, 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn ystod Blwyddyn 9, cymerodd David ran mewn ystod o weithgareddau gan gynnwys cyflwyniadau â TGCh am ei deulu, ei dŷ a bwyta'n iach. Nododd yr athro bod David yn gallu defnyddio iaith syml yn hyderus heb ddefnyddio nodiadau i'w helpu. Mae ei iaith *yn cynnwys gwahanol batrymau brawddegau*, ac mae'n *dechrau defnyddio'i wybodaeth o iaith i gyfnewid geiriau neu ymadroddion* wrth gyflawni'r ddau weithgaredd enghreifftiol (nodwedd o Lefel 4). Er hynny, mae'n gwneud camgymeriadau wrth geisio defnyddio iaith fwy uchelgeisiol, ac mae dylanwad ei famiaith yn amlwg weithiau. Bu'n gwrando ar amrywiaeth o iaith sydd *wedi'i ffurfio o frawddegau syml ac yn cynnwys gwahanol batrymau brawddegau*, ar dâp ac wrth ymateb i bobl eraill (nodwedd o Lefel 4). Mae'n ymateb mewn modd priodol, ac mae'n gallu tynnu gwybodaeth allan o'r hyn mae'n ei glywed.

Llafaredd

# Zoe | Lefel 6



Mae Zoe yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Zoe nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Zoe ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Zoe o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Llafaredd yn Almaeneg.

## Die Schule (DVD)


Gofynnwyd i'r dosbarth baratoi sgwrs gan ail-ddefnyddio iaith a ddysgwyd yn flaenorol a chynnwys barn. Mae Zoe yn cymryd rhan mewn gweithgaredd gwaith pâr gyda'i phartner, Alex. Maen nhw'n dewis meysydd o ddiddordeb iddyn nhw, a cheisio efelychu sgwrs naturiol gan ddefnyddio ebychiadau. Mae'r sgwrs yn ymdrin â phynciau yn yr ysgol, eu barn am athrawon, eu gwisg ysgol a'u cynlluniau ar gyfer y dydd. Maen nhw'n addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol. Roedd ganddyn nhw nodiadau i'w helpu, ond ni fuon nhw'n ysgrifennu'r sgyrsiau allan yn llawn. Mae Zoe yn gofyn ac yn ateb cwestiynau, ac mae'n ymateb i'r hyn mae ei phartner yn ei ddweud. Mae'n hyderus, mae'n cyfathrebu'n glir, ac mae ei hynganiad a'i goslef yn dda. Mae'n disgrifio'r ysgol ac yn cymharu ysgolion yn yr Almaen ag ysgolion yng Nghymru, ac mae'n defnyddio ystod o strwythurau i fynegi barn. Mae'n cynhyrchu ymatebion mwy estynedig a manwl ar adegau ac yn defnyddio brawddegau hirach. Mae ei hiaith yn gywir ar y cyfan.

## Partnerbewertung (DVD)

Mae'r gweithgaredd hwn yn asesiad crynodol gan gyfoedion ar ddiwedd uned sy'n ymdrin â'r teulu, swyddi a gweithgareddau eraill. Mae'r dosbarth yn gyfarwydd â gwrando ar berfformiadau ei gilydd a gwirio'r hyn maen nhw'n ei ddweud yn erbyn meini prawf a drafodwyd â'r athrawes. Mae gan Alex, partner Zoe, nifer o gwestiynau i'w gofyn iddi, ac mae'n gwirio'i hymatebion ar daflen asesu cyfoedion. Maen nhw'n cael cyfle i ymarfer cyn penderfynu a ydyn nhw'n barod i gael eu hasesu gan eu partner, ac maen nhw'n cael cyfle i baratoi nodiadau byr i'w helpu. Mae Zoe yn cael cip ar y nodiadau hynny'n achlysurol, ond mae'n siarad yn eithaf hyderus ac nid yw'n darllen unrhyw un o'i hymatebion. Mae'n cynhyrchu rhai ymatebion estynedig gan roi llawer o fanylion. Mae'n cynhyrchu brawddegau hirach sy'n fwy cymhleth ar adegau, ond mae'n gwneud camgymeriadau. Mae'n defnyddio ystod o strwythurau gan gynnwys gwahanol amserau'r ferf yn gywir yn gyffredinol.

## Die Arbeit

Yn dilyn yr uned o waith ar y teulu, oedd yn cynnwys agweddau’n ymwneud â byd gwaith, bu’r dosbarth yn canolbwyntio’n fanylach ar yr iaith a ddefnyddir yn y cyd-destun hwn. Roedd y gweithgareddau’n cynnwys tasg gwrando lle bu’r disgyblion yn gwrando ar recordiad o chwe pherson ifanc o’r Almaen yn disgrifio swyddi eu rhieni. Roedd y cyd-destun hwn yn llai cyfarwydd i’r disgyblion. Roedd y deunydd llafar yn eithaf hir, ac roedd y bobl yn siarad ar gyflymder naturiol. Roedd y deunydd yn cynnwys ystod eang o strwythurau, gan gynnwys brawddegau ag is-gymalau a rhai brawddegau hirach. Gwnaeth Zoe nodyn yn Almaeneg o swyddi rhieni pob person, barn y rhieni am eu swyddi, ac unrhyw fanylion eraill a glywodd. Yn ogystal, lluniodd nodiadau estynedig mewn brawddegau llawn i ddisgrifio’r swyddi y soniwyd amdanyn nhw yn y ddau ddarn cyntaf, gan ail-ddefnyddio’r iaith yr oedd hi wedi’i chlywed.


Hören

| Vater | Mutter |
|---|---|
| ① Autoschlosser<br>interessant - Autos | Bankangestellter<br>langweilig |
| ② Briefträger<br>draussen | Krankenpflegerin<br>schwer - gern mit Menschen |
| ③ Lehrerin - Kinder | Tischler tot |
| ④ Ingenieur Bier | Telefonistin gern |
| ⑤ in einem Büro | Hausfrau ? |
| ⑥ Klempner<br>Chef/Boss | Krankenhaus<br>Laborantin verdient gut |

① Er ist Autoschosser. Er findet die Arbeit interessant weil er Autos mag. Sie ist Bankangstellte. Sie findet die Arbeit langweilig.

② Er ist Briefträger. Er findet die Arbeit gut, weil er gern draußen arbeitet. Sie ist Krankenpflegerin. Sie arbeitet gern mit Menschen. Aber es ist schwer.

Yna, aeth Zoe ati i baratoi cyflwyniad ar wahanol swyddi gan ddefnyddio TGCh. Roedd y disgrifiadau'n sôn am y swydd ei hun, y nodweddion a oedd yn ofynnol ar gyfer pob swydd, a rhai manylion ychwanegol. Roedd y disgrifiadau'n ymdrin ag ystod o swyddi gwahanol ac roedd pob un yn eithaf byr, ond cyflwynodd Zoe y wybodaeth yn hyderus heb unrhyw nodiadau i'w helpu heblaw am y lluniau a'r teitlau swyddi yr oedd hi wedi'u cynnwys ar y sleidiau.










## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 5, 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn ystod Blwyddyn 9, cymerodd Zoe ran mewn ystod o weithgareddau, gan gynnwys rhai a oedd yn golygu gwrando ac edrych ar amrywiaeth o ddeunydd llafar ac ymateb i'r athrawes a disgyblion eraill mewn gweithgareddau grŵp. Fel y gwelir yn 'Die Arbeit', mae Zoe yn deall *deunydd llafar sy'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau* (nodwedd o Lefel 6), ac mae'n dechrau arddangos nodweddion sy'n perthyn i Lefel 7 gan ei bod yn deall rhai strwythurau eithaf cymhleth. Pan mae'n siarad, mae'n gallu defnyddio amrywiaeth ehangach o strwythurau ac yn gallu *addasu iaith a ddysgwyd eisoes* (nodwedd o Lefel 6). Er ei bod hi'n gwneud rhai camgymeriadau, mae'n cyfathrebu'n glir ac mae ei hynganiad a'i goslef yn dda. Weithiau, mae'n gallu *cynhyrchu ymatebion mwy estynedig a manwl* (nodwedd o Lefel 6). Er ei bod hi'n siarad yn eithaf hyderus, nid yw'n defnyddio iaith yn ddigymell hyd yn hyn, ac mae angen iddi droi at ei nodiadau neu'i hawgrymiadau weithiau i'w helpu wrth siarad.

Llafaredd

# Steph

**Lefel 7**



Mae Steph yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Steph nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Steph ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Steph o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Llafaredd yn Almaeneg.

## Schuluniform (DVD)

Yng nghyd-destun yr ysgol, gofynnwyd i ddosbarth Steph weithio mewn parau i baratoi sgwrs am agwedd ar fywyd ysgol gan gynnwys strwythurau a geirfa i fynegi barn. Bu Steph yn paratoi sgwrs gyda'i phartner am wisg ysgol. Rhoddwyd cyfle iddyn nhw ymarfer yr hyn y bydden nhw'n ei ddweud, ond aethon nhw ati i gyflwyno fersiwn terfynol o'r sgwrs heb gymorth unrhyw nodiadau, a bu'r ddau yn ceisio defnyddio iaith mewn modd mwy digymell. Mae ymatebion Steph i gwestiynau ei phartner yn rhai estynedig a manwl, ac mae'n cysylltu'r hyn mae'n ei ddweud mewn modd sy'n golygu ei bod yn cynhyrchu brawddegau eithaf cymhleth ar adegau. Nid yw'n petruso llawer wrth ymateb i gwestiynau ei phartner. Mae'n defnyddio ystod eang o strwythurau, ac mae'n rhoi rhesymau wrth fynegi safbwyntiau a hoffterau. Mae ei hynganiad a'i goslef yn dda ac mae ei hiaith yn gywir.

## Letztes Wochenende (DVD)

Ar ôl gwneud gwaith ar amser gorffennol y ferf, gofynnwyd i ddosbarth Steph baratoi cyflwyniad ar weithgareddau'r penwythnos. Gofynnwyd iddyn nhw amrywio'u hiaith, rhoi cymaint o fanylion oedd yn bosibl, a chynnwys eu barn am y penwythnos. Rhoddodd Steph a'i phartner gyflwyniad ar weithgareddau'r penwythnos diwethaf gan ddefnyddio TGCh, a phenderfynodd y ddau ar eu pen eu hunain y bydden nhw'n cynnwys y penwythnos nesaf yn eu cyflwyniad hefyd. Maen nhw'n defnyddio'r sleidiau i'w helpu ac i wella'r cyflwyniad, ond nid yw Steph yn eu darllen. Mae'n defnyddio amser gorffennol y ferf yn hyderus ac yn gywir, mae'n mynegi barn, ac mae'n gallu newid i amser dyfodol y ferf yn eithaf naturiol ar y diwedd pan mae'n sôn am yr hyn y bydd yn ei wneud y penwythnos nesaf. Mae'n defnyddio peth iaith sy'n fwy cymhleth, ac mae'n cysylltu ymadroddion â'i gilydd i greu brawddegau hirach. Mae ei hiaith yn gywir iawn, ac mae'n defnyddio ystod eang o eirfa gan ddefnyddio iaith a ddysgwyd yn flaenorol.

## Osterferien

Bu dosbarth Steph yn gwrando ar recordiad o bedwar person ifanc yn ffonio adref pan oedden nhw ar dripiau yn ystod gwyliau'r Pasg. Roedd y darnau'n eithaf hir ac yn cynnwys iaith anghyfarwydd. Roedd y darnau'n ymdrin â gwahanol gyd-destunau, ac roedd y bobl ifanc yn siarad ar gyflymder naturiol ac yn petruso weithiau. Ym mhob achos, ni chafodd lleoliad y gwyliau ei enwi, ac roedd gofyn i'r disgyblion ddod i gasgliadau eu hunain ynghylch llawer o'r wybodaeth. Mae pob un o'r bobl sy'n ffonio yn cyfeirio at weithredoedd a digwyddiadau yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol ac yn mynegi barn. Llwyddodd Steph i nodi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth yn gywir: lle'r aeth y bobl ifanc; lle'r oedden nhw'n aros; beth oedden nhw wedi bod yn gwneud; beth oedden nhw'n mynd i'w wneud; a beth oedden nhw'n ei hoffi neu'n ei gasáu ynghylch y trip. Yna, aeth ati i ymestyn ei nodiadau ac addasu'r iaith yr oedd hi wedi'i chlywed er mwyn ysgrifennu paragraffau byr yn y trydydd person i grynhoi'r sgyrsiau ffôn. Mae ei hiaith yn gywir iawn ac mae'n cynnwys yr holl fanylion a oedd yn ofynnol.

① Er ist nach London gefahren.
Er übernachtet in einem Hotel
Er ist ins Kino gegangen, wo er cats gesehen hat. Es hat Spass gemacht.

Morgen wird er Windsor park besuchen.
Er fand das Theater gut
Er findet das Essen nicht so gut.

② Sie ist nach Sylt gefahren
Sie übernachtet in einem Ferienbungalow.
Sie ist radgefahren.
Morgen wird sie reiten
Sie findet radfahren gut
Sie findet das Wetter nicht so gut, weil es regnet.

③ Er ist zum Schwarzwald gefahren.
Er übernachtet auf einem Campingplatz
Er hat Fußball und Volleyball gespielt und ist geschwommen.
Morgen wird er eine Radtour machen.
Er findet die Stimmung und das Wetter gut.
Das Essen ist zu teuer, das findet er nicht so gut.

## Crynodeb a barn gyffredinol


### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn ystod Blwyddyn 9, cymerodd Steph ran mewn ystod o weithgareddau, gan gynnwys rhai a oedd yn golygu gwrando ac edrych ar *ystod o ddeunydd llafar* yr oedd ychydig ohono'n *cynnwys rhai brawddegau cymhleth* (nodwedd o Lefel 7). Roedd hyn yn cynnwys rhai *darnau hirach*, megis y galwadau ffôn yn y dasg enghreifftiol a recordiadau eraill. Bu Steph yn gwrando ar rai cyfweliadau estynedig hefyd, ac yn dilyn hynny bu wrthi'n llunio ei chyfweliad ei hun, yn gwrando ar fyfyrwyr o'r Almaen yn siarad am fywyd ysgol. Mae'n barod i ymateb, ac weithiau mae'n ymateb *mewn modd digymell a byrfyfyr* i'w hathrawes a disgyblion eraill mewn gweithgareddau grŵp. Er hynny, mae'n dibynnu hefyd ar iaith a baratowyd ymlaen llaw wrth gyflawni rhai gweithgareddau. Pan mae Steph yn siarad, mae'n gallu defnyddio amrywiaeth eang o strwythurau ac mae'n gallu trin gwahanol amserau'r ferf yn ddeheuig ac yn hyderus. Mae ei hiaith yn gywir iawn ac mae ganddi *ynganiad a goslef da* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n gallu *defnyddio amrywiaeth o iaith a ddysgwyd eisoes a chysylltu ymadroddion i roi ymatebion mwy estynedig a manwl* mewn sgyrsiau a chyflwyniadau (nodwedd o Lefel 7). Mae'n gallu siarad heb gymorth nodiadau ysgrifenedig, ac mae'n aml yn ymateb i eraill heb betruso.

# Targed cyrhaeddiad 1: Llafaredd
## Sbaeneg

## Maya | Lefel 5



Mae Maya yn ddysgwr 13 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Maya nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Maya ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Maya o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Llafaredd yn Sbaeneg.

### Las vacaciones

Mae dosbarth Maya wedi bod yn dysgu siarad am y gorffennol gan ddefnyddio'r amser gorffennol yng nghyd-destun gwyliau. Buon nhw'n gwrando ar recordiad o dri pherson ifanc o Sbaen yn siarad am eu gwyliau yn y DU. Llwyddodd Maya i adnabod y berfau a oedd yn yr amser gorffennol, a nododd fanylion am wyliau pob person. Gwelir darn allan o ddisgrifiad un person o'i wyliau isod. Roedd y recordiad yn ymdrin â chyd-destun cyfarwydd gan gynnwys amrywiaeth o strwythurau ac roedd yn eithaf hir yn gyffredinol. Llwyddodd Maya i adnabod y berfau'n gywir, a nododd y rhan fwyaf o'r manylion yr oedd arno'u hangen.

... ¿Fuiste a Gales Maria?
– Sí fui en avión al aeropuerto de Cardiff, no me gusta viajar en coche.
– Yo prefiero el avión, es mucho mejor que viajar en coche o autocar. ¿Qué tal la comida con British Airways?
– No está mal. Comí jamón con ensalada, y de postre, fruta.
– ¿No te aburriste en el avión?
– No. Hablé con un chico gales. Me divertí mucho…

### Las vacaciones (DVD)

Bu dosbarth Maya yn ymarfer dweud i ble'r aethon nhw ar eu gwyliau, sut y teithion nhw yno, pwy welson nhw, a beth gawson nhw i'w fwyta a'i yfed. Gweithiodd y disgyblion mewn grwpiau gan ail-ddefnyddio'r iaith mewn gêm ddyfalu er mwyn ceisio darganfod i

ble'r aeth pob person ar ei wyliau. Mwynhaodd y disgyblion y gêm, ac roedd yn ffordd dda o ymarfer y strwythurau yr oedden nhw wedi'u dysgu. Roedden nhw'n gofyn ac yn ateb cwestiynau am y gwyliau nes bod rhywun yn dyfalu'r lle cywir. Yn y darn hwn, mae Maya yn defnyddio amser gorffennol gwahanol ferfau mewn brawddegau syml i ddisgrifio i ble'r aeth e ar ei wyliau, ac mae'n gwneud hynny'n gywir ar y cyfan. Mae'n ymateb i gwestiynau gan aelodau'r grŵp, ac maen nhw'n dyfalu'n gywir. Mae Maya yn petruso ar adegau, ac mae'n defnyddio brawddegau syml ond amrywiol sy'n rhan o ymatebion mwy estynedig weithiau. Er ei fod yn gwneud rhai camgymeriadau, mae'n cyfathrebu'n glir.

## La routina diario (DVD)

Mae dosbarth Maya wedi bod yn gwneud gwaith yng nghyd-destun trefn arferol y dydd, gan ganolbwyntio ar ferfau yn yr amser presennol. Mae Maya a'i bartner yn gweithio gydag athrawes y mae Sbaeneg yn iaith gyntaf iddi (nid eu hathro arferol) er mwyn cymharu trefn arferol eu diwrnod nhw â'r drefn arferol yn Sbaen. Roedd Maya a Karl wedi paratoi rhai cwestiynau'n gynharach, ac maen nhw'n gofyn y cwestiynau hynny i'r athrawes. Maen nhw'n nodi'r hyn mae hi'n gwneud ar wahanol adegau o'r dydd wrth iddi esbonio iddyn nhw ac yna'n nodi am faint o'r gloch maen nhw'n gwneud gweithgareddau tebyg. Mae'r deunydd llafar yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau, ac mae'r cyd-destun yn gyfarwydd.

> De lunes a viernes me levanto a las siete en punto de la mañana.
> Cada día, salgo de casa sobre las siete y media de la mañana, porque voy al colegio andando.
> Termino el colegio a las dos de la tarde, entonces voy a casa a comer con mi familia. Después de comer descansamos, y luego, un poco más tarde, practico la natación. Otras veces juego al baloncesto con mis amigas.
> Ceno bastante tarde…En España se cena tarde. Suelo cenar… sobre las diez de la noche.
> También me acuesto tarde… más o menos me acuesto sobre las once de la noche.

Yna, mae'r athrawes yn gofyn i Maya a Karl nodi unrhyw wahaniaethau rhwng y drefn arferol yn Sbaen a'u trefn arferol nhw, gan roi'r cyfle iddyn nhw gymharu diwylliant a ffordd o fyw Sbaen â'u diwylliant a'u ffordd o fyw nhw. Mae Maya yn rhoi ymatebion byr ond amrywiol ar y cyfan wrth gymharu'r ddwy drefn â'i gilydd, ond mae Karl yn gallu rhoi ymatebion mwy estynedig. Mae Maya yn gwneud camgymeriadau, ond mae'n cyfathrebu'n glir.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 4, 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Cymerodd Maya ran mewn ystod o weithgareddau Llafaredd, gan gynnwys rhai a oedd yn golygu gweithio mewn grŵp, cymryd rhan mewn gêmau a gweithio gyda phartner. Rhoddodd gyflwyniad ar Gaerdydd hefyd, ac er ei fod wedi defnyddio brawddegau syml, nododd ei athro ei fod yn gallu amrywio amserau'r ferf a chyflwyno llawer o wybodaeth. Dangosodd Maya ei fod *yn gallu amrywio'r gwahanol strwythurau* mae'n eu defnyddio gan *gynhyrchu ymatebion mwy estynedig* weithiau (nodwedd o Lefel 5). Mae'n dangos *dealltwriaeth o wahanol fathau o ddeunydd llafar mewn cyd-destunau cyfarwydd*, wrth wrando ar recordiadau neu ymateb i'w athrawon a disgyblion eraill (nodwedd o Lefel 5). Mae Maya yn petruso weithiau wrth siarad, ond mae'n gallu cyfathrebu'n eithaf clir ac mae ei ynganiad a'i oslef yn gyson. Mae'n gwneud camgymeriadau ond mae'n gallu defnyddio amrywiaeth o strwythurau gan gynnwys amserau gwahanol y ferf, er bod ei frawddegau'n eithaf syml.

Llafaredd

# Laura

**Lefel 6**



Mae Laura yn ddysgwr 13 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Laura nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Laura ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Laura o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Llafaredd yn Sbaeneg.

## Mi ciudad (DVD)

Mae dosbarth Laura wedi bod yn gweithio ar sut i ddisgrifio eu tref, er mwyn ymarfer iaith ddisgrifiadol ac addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol i gyd-destun newydd. Bu Laura yn paratoi sgwrs gyda'i phartner er mwyn cyfnewid gwybodaeth am Gaerdydd. Buon nhw'n paratoi cardiau awgrymiadau ar gyfer y cwestiynau a nodiadau cryno a oedd yn cynnwys peth o'r wybodaeth, gan fod y sgwrs yn un estynedig a manwl. Mae'n defnyddio'r cardiau awgrymiadau, ond nid yw'n darllen ei hymatebion ac mae'n gwrando'n astud ar ei phartner. Mae Laura yn defnyddio amrywiaeth eang o strwythurau, er bod rhai o'r rheiny'n eithaf syml. Er hynny, mae'n ymateb yn hyderus gan gynhyrchu iaith fwy estynedig sy'n llawn manylion ac sy'n cynnwys ystod eang o eirfa o wahanol gyd-destunau.

## Las vacaciones (DVD)

Mae dosbarth Laura wedi bod yn dysgu siarad am y gorffennol gan ddefnyddio'r amser gorffennol yng nghyd-destun gwyliau. Tua diwedd yr uned, bu'r disgyblion yn gweithio mewn parau gan ddefnyddio TGCh i baratoi cyflwyniad ar eu gwyliau nhw. Mae Laura yn rhoi cyflwyniad ar ei gwyliau hi yn Fflorida. Mae'r cyflwyniad yn un manwl, ac er bod peth o'r hyn mae hi'n ei ddweud wedi'i nodi ar y sleidiau, nid yw'n eu darllen. Yn hytrach, mae'n ymateb i giwiau gan ei phartner. Mae'r cyflwyniad yn ymdrin ag ystod o gyd-destunau gan gynnwys gweithgareddau, bwyd a diod, a disgrifiad o'r lle gwyliau a'r atyniadau a geir yno. Mae'n defnyddio amrywiaeth eang o strwythurau, ac mae'n gallu trin amser gorffennol ystod o ferfau'n ddeheuig ac yn hyderus, er ei bod yn gwneud rhai camgymeriadau.

Er bod y cyflwyniad yn cynnwys ymatebion estynedig a manwl, mae'r brawddegau'n eithaf syml, prin yw'r achosion lle mae'n cysylltu ymadroddion â'i gilydd, ac nid yw'n defnyddio llawer o iaith sy'n fwy cymhleth.

## La comida Española

Wrth weithio yng nghyd-destun trefn arferol y dydd, bu dosbarth Laura yn cymharu prydau bwyd a bwydydd yn y DU â phrydau bwyd a bwydydd yn Sbaen. Bu'r disgyblion yn gwrando ar athro sy'n frodor o Sbaen yn siarad am brydau bwyd nodweddiadol a'r drefn arferol yn Sbaen. Llwyddodd Laura i nodi amserau'r prydau bwyd, yr hyn mae Sbaenwyr yn ei fwyta fel rheol, ac unrhyw fanylion eraill a glywodd. Mae'r testun yn eithaf hir ac mae'n cynnwys ystod o strwythurau. Mae iaith bwyd yn gyfarwydd, ond mae'r cyd-destun yn llai cyfarwydd iddyn nhw.

España tiene una gran diversidad gastronómica. Los españoles prefieren la comida mediterránea: los cocidos y los asados.

A los españoles no les gusta nada desayunar fuerte, como a los británicos. Aquí se come, huevos, alubias… para desayunar pero en España no. Para desayunar, toman un café bebido con pan con mantequilla y mermelada, zumo de naranja, etc.

A los españoles les gusta comer tarde. En España se come, más o menos de dos a tres de la tarde. La comida en Espana se divide en tres platos: primer plato, segundo plato y postre.

El primer plato está reservado para las sopas y las verduras. Se come, por ejemplo, espaguetis con tomate, ensaladilla, coctel de gambas…

De segundo plato se come carne o pescado, como por ejemplo los asados, o filetes con patatas fritas.

De postre, en España, se come fruta, normalmente: manzanas, naranjas, peras, melocotones, etc. En ocasiones especiales, también se puede tomar helado, pasteles o tarta.

La cena es ligera, porque se cena bastante tarde. Asi que los españoles cenan poco, por ejemplo, puede que tomen una tortilla de patata o unos huevos fritos con pimientos del piquillo; también se puede tomar sopa o ensalada y embutidos, como chorizo, jamón, queso…

Yna, aeth Laura ati i gymharu arferion bwyta yn Sbaen ag arferion bwyta yn y DU mewn darn o waith ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r hyn oedd hi wedi'i glywed yn ei gwaith ysgrifenedig ei hun.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 5, 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Laura yn *dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o ddeunydd llafar sy'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau, gan gynnwys iaith gyfarwydd mewn cyd-destunau llai cyfarwydd*, megis yn y gweithgaredd ar arferion bwyta yn Sbaen (nodwedd o Lefel 6). Mae'n ymateb i ddeunydd sydd wedi'i recordio a sgyrsiau ag athrawon a disgyblion eraill. Mae'n ail-ddefnyddio ychydig o'r hyn mae'n ei chlywed yn ei hiaith lafar a'i gwaith ysgrifenedig ei hun. Pan mae'n siarad, mae Laura yn *defnyddio amrywiaeth ehangach o strwythurau*, gan gynnwys gwahanol amserau'r ferf, ac mae'n gallu *addasu iaith a ddysgwyd eisoes* (nodwedd o Lefel 6). Mae ei hymatebion mewn sgyrsiau ac yn ei chyflwyniadau'n *estynedig a manwl*, ond mae hi'n dal i ddefnyddio iaith eithaf sylfaenol ar adegau ac nid yw'n ceisio cynhyrchu iaith fwy uchelgeisiol hyd yn hyn. Mae'n siarad â *hyder cynyddol*, ac mae bob amser yn sicrhau bod pawb yn ei deall trwy ynganu'n dda.

Llafaredd

# Luke

**Lefel 7**



Mae Luke yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Luke nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Luke ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Luke o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Llafaredd yn Sbaeneg.

## El medio ambiente (DVD)

Ar ddiwedd uned sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd, mae'r disgyblion yn nosbarth Luke yn defnyddio TGCh i baratoi cyflwyniadau i weddill y dosbarth. Bu Luke yn paratoi cyflwyniad manwl a deniadol gan ddefnyddio'r iaith yr oedd wedi'i dysgu yn ystod yr uned yn ogystal ag amrywiaeth o strwythurau yr oedd wedi'u dysgu'n flaenorol. Er bod y sleidiau'n cynnwys y rhan fwyaf o'r hyn mae am ddweud, nid yw'n eu darllen ond mae'n defnyddio cardiau â phwyntiau bwled i'w helpu. Mae'n defnyddio ystod eang o iaith gan gynnwys peth iaith sy'n fwy cymhleth, ac mae'n hyderus wrth ddefnyddio rhai geiriau arbenigol. Mae ei ynganiad a'i oslef yn dda ac mae ei iaith yn gywir. Wrth i bob disgybl roi ei gyflwyniad, mae gweddill y dosbarth yn cymryd rhan mewn gweithgaredd asesu cyfoedion, ac maen nhw'n nodi ansawdd yr hyn maen nhw'n ei ddweud ar daflen asesu cyfoedion a grëwyd gan yr athrawes.

## Últimas noticias (DVD)

Mae dosbarth Luke wedi bod yn ail-ddefnyddio'r iaith maen nhw wedi'i dysgu i greu a sgriptio golygfeydd ar gyfer opera sebon, ac maen nhw wedi bod yn actio'r golygfeydd hynny. Bu pob grŵp yn actio teulu gwahanol, ac roedd gan bob teulu gyfrinach fawr. Yn yr olygfa hon, mae Luke yn actio cymeriad sydd wedi darganfod corff, ac mae'n cael ei gyfweld ar y teledu. Caiff yr olygfa ei chyflwyno ar ffurf adroddiad newyddion, a bu'r disgyblion yn ffilmio'r adroddiad yn rhan o'u gwaith. Mae Luke yn chwarae ei ran mewn modd eithaf digymell, ac mae'n cysylltu ymadroddion â'i gilydd i lunio sgwrs sy'n swnio'n naturiol mewn cyd-destun mwy creadigol ac annibynnol.

## La excepción de la semana (DVD)

Yng nghyd-destun trefn arferol y dydd ac amser hamdden, bu'r dosbarth yn gwrando ar recordiad o wraig ifanc o Sbaen yn siarad am ddiwrnod a oedd yn wahanol i'r cyffredin. Wrth i'r disgyblion wrando arni, gofynnwyd iddyn nhw adnabod berfau a oedd yn yr amser gorffennol, yr amser presennol a'r dyfodol, neu'r amser amodol. Yn ogystal, buon nhw'n nodi ymadroddion amser a chysyllteiriau. Wrth wrando ar y darn am y tro olaf, buon nhw'n cwblhau brawddegau yn Sbaeneg â'r wybodaeth gywir am ddiwrnod y wraig ifanc. Mae'r testun yn eithaf hir ac mae'n cynnwys rhai brawddegau cymhleth a pheth iaith anghyfarwydd.

> Normalmente me levanto a las siete de la mañana porque trabajo en una oficina de ocho a cinco. Sin embargo, ayer me levanté a las nueve.
> Había un partido de tenis entre Nadal y Ferrero en mi ciudad. No es normal que vengan jugadores profesionales a Murcia así que compré entradas y pedí el día libre.
> Fue un partido genial (ganó Nadal tres sets a dos).
> Cuando acabó el partido fuimos a comer paella a la tasca. Sin embargo no me gustó, quizás porque el cocinero era nuevo. Me tomé también una copa de vino tinto.
> Por la tarde, fui a casa de unos amigos a ver una peli. Cené allí ya que se hizo tarde.
> Finalmente, volví a mi casa y me acosté, muy cansada, debido al día tan excitante que había tenido.
> Mañana voy a ir al trabajo pero me gustaría tener otro día libre y volver al tenis.

Yn dilyn y dasg gwrando, bu'r disgyblion yn paratoi gwybodaeth am eu diwrnod anarferol nhw gan weithio mewn parau a gweithio gyda'u hathrawes. Mae Luke yn sôn am ei ddiwrnod anarferol wrth ei athrawes. Mae'n ymateb i ystod o gwestiynau ar y pryd gan ail-ddefnyddio peth o iaith y dasg gwrando a pheth iaith a ddysgwyd yn flaenorol wrth siarad. Mae'n ateb mewn modd digymell ac mae ei ymatebion yn fanwl. Mae'n mynegi barn ac yn defnyddio gwahanol amserau'r ferf. Er hynny, mae Luke yn gwneud rhai camgymeriadau sylfaenol oherwydd natur fyrfyfyr y dasg.

## Un viaje a México

Ar ôl bod yn gwneud gwaith ar wyliau, bu dosbarth Luke yn astudio agweddau ar wahanol wledydd lle siaredir Sbaeneg, a gwrando ar y cynorthwy-ydd o Sbaen yn disgrifio'i gwyliau ym Mecsico. Llwyddodd Luke i ddod o hyd i'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd yn ofynnol o'r hyn a glywodd. Roedd y testun yn cynnwys ychydig o iaith anghyfarwydd a brawddegau cymhleth. Yna, defnyddiodd Luke ei waith ymchwil ei hun a'r wybodaeth a glywodd i ysgrifennu disgrifiad o daith ddychmygol i wlad arall.

**Año 9: Actividad de escuchar**

**Instrucciones: escucha a María hablando sobre su viaje a México y rellena los blancos**

Hola, recientemente fui de vacaciones a México con mi novio que se llama Luís. Fuimos en avión desde Londres y el viaje duró unas ocho horas.

Bueno, pasamos quince días en la Ciudad de México, que para mí ha sizo la ciudad más alucinante pero más ruidosa que nunca he visitado.

Nuestro hotel estaba al lado de Zócalo, una de las ? más grandes del mundo. Está construida sobre la plaza historica de la ciudad azteca de Tenochitlán. Ciudad de México es una ciudad moderna pero hay muchas ruinas aztecas. Por ejemplo, enfrente del Zócalo han excavado las ruinas de un pueblo y en una estación de metro hay las ruinas de una pirámide.

El hotel estaba bien, pero como estaba en el centro había mucho ruido y dormía mal. Además, aunque la contaminación no me afectaba, no era agradable.

El último día visitamos las dos catedrales de Nuestra Señora de Guadalupe, la patrona de los mexicanos. La catedral nueva era alucinante, y estaba llena de gente.

En fin: ¡unas vacaciones inolvidables!

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Llafaredd

Ystyriwyd Lefelau 6, 7 ac 8 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Luke yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ystod o ddeunydd llafar, gan gynnwys deunydd sydd wedi'i recordio neu'r hyn a ddywedir gan ei athrawes a disgyblion eraill. Mae'n ymdopi'n dda â thestunau hirach ac mae'n gallu canfod ystyr *brawddegau cymhleth ac iaith anghyfarwydd* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n ymateb *mewn modd digymell a byrfyfyr* i gwestiynau ar y pryd, megis y rheiny a ofynnwyd iddo gan ei athrawes am ei ddiwrnod anarferol (nodwedd o Lefel 7). Mae'n gallu ail-ddefnyddio ychydig o'r iaith y mae wedi'i chlywed yn ei iaith lafar a'i waith ysgrifenedig ei hun. Mae Luke yn hyderus wrth siarad, ac mae'n gallu ymdopi â sefyllfaoedd annisgwyl ar adegau, sy'n golygu ei fod yn dechrau arddangos nodweddion sy'n perthyn i Lefel 8. Er hynny, mae'n gwneud mwy o gamgymeriadau mewn sefyllfaoedd o'r fath. Pan mae Luke yn siarad Sbaeneg mewn cyd-destunau sydd wedi'u paratoi'n fwy helaeth, mae'n siarad yn rhugl ac yn hyderus ac nid yw'n gwneud llawer o gamgymeriadau, hyd yn oed wrth ddefnyddio iaith sy'n fwy cymhleth. Yn ei gyflwyniad ac yn ystod y gweithgaredd drama, mae'n *defnyddio amrywiaeth o iaith a ddysgwyd eisoes*, ac mae'n gallu *cysylltu ymadroddion i roi ymatebion mwy estynedig a manwl* (nodwedd o Lefel 7).

# Targed cyrhaeddiad 2: Darllen
## Ffrangeg

### Andrew | Lefel 3

Mae Andrew yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Andrew nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Andrew ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Andrew o'r farn mai Lefel 3 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Darllen yn Ffrangeg.


### Une invitation

Mae dosbarth Andrew wedi bod yn dysgu sut i wneud trefniadau i fynd allan, yng nghyd-destun amser hamdden. Mae Andrew wedi bod yn gweithio gyda phartner ar ddeialogau byr lle maen nhw'n trefnu cyfarfod â'i gilydd, ac yn cynnwys manylion am amserau, diwrnodau a gweithgareddau. Mae Andrew yn cwblhau gweithgaredd darllen a fydd yn sail ar gyfer deialog lle bydd yn trefnu mynd i barti, ac yna mae'n defnyddio'r gweithgaredd i ysgrifennu ei wahoddiad ei hun. Mae Andrew yn darllen gwahoddiad byr i barti pen-blwydd ac mae'n ei ddeall. Er bod y testun wedi'i seilio ar ymadroddion a geiriau unigol, mae'n rhaid iddo gategoreiddio ystod o wybodaeth gan ddefnyddio'r awgrymiadau sydd yn Ffrangeg. Mae Andrew yn gallu adnabod gwybodaeth allweddol sy'n gyfarwydd iddo, megis gwybodaeth am amserau, diwrnodau, bwyd, diod a gweithgareddau.

**Invitation**

L'anniversaire de Michel

Viens à ma fête à la Maison des Jeunes
le vendredi 20 avril
19 heures à 22 heures



RSVP
51 rue des Cerisiers
Tél : 02 35 67 81 23

Crêpes, jus de pomme, discothèque, musique

***Note les détails***

**fête de qui ?** Michel ✓

**jour ?** vendredi ✓

**commence à?** 19 heures ✓

**finit à ?** 22 heures ✓

**à manger ?** crêpes ✓

**à boire ?** jus d'orange ✓

**activités ?** discoteque h musique ✓

## Le weekend

Gan barhau i weithio yng nghyd-destun gweithgareddau amser hamdden, mae dosbarth Andrew wedi bod yn dysgu ffurf syml yr amser dyfodol er mwyn sôn am eu cynlluniau. Yn dilyn llawer o ymarferion llafar gyda'u hathro fel dosbarth, a gweithgaredd gwaith pâr lle'r oedd gofyn llenwi bylchau mewn gwybodaeth, mae Andrew yn cwblhau gweithgaredd darllen. Mae'r testun yn syml ac yn cynnwys yr iaith gyfarwydd mae wedi bod yn ei hymarfer, er bod y brawddegau'n amrywio ychydig.

Bu'r athro'n esbonio'n ofalus beth oedd angen i'r dosbarth wneud, a rhoddodd rai enghreifftiau iddyn nhw ar lafar cyn dechrau ar y gweithgaredd. Mae Andrew yn llwyddo i adnabod y berfau sydd yn yr amser dyfodol syml, ond nid yw'n tanlinellu'r unig enghraifft a geir o ferf yn y trydydd person lluosog. Mae'n deall y rhan fwyaf o'r manylion sy'n ymwneud ag amser y gwahanol weithgareddau, ac erbyn diwedd y gweithgaredd, ag ychydig o gymorth, mae'n gallu ail-ddefnyddio'r iaith i ysgrifennu rhai brawddegau am ei gynlluniau ei hun ar gyfer y penwythnos. Gwiriodd yr athro'r gwaith yn y dosbarth, a darllenodd Andrew ei frawddegau'n uchel i weddill y dysgwyr.


**Qu'est-ce que Jules va faire ce weekend?**

Samedi à neuf heures et demie je vais jouer au basket au collège.
L'après-midi je vais aller au cinéma avec Serge. On se rencontre à quinze heures.
Le soir je vais rester à la maison. Je vais regarder la télé.

Dimanche matin je vais prendre le petit déjeuner à neuf heures, puis à dix heures je vais jouer au foot avec mes copains.
L'après-midi je vais faire mes devoirs.
Le soir je vais dîner en famille et puis nous allons jouer aux cartes.

1 **Underline all the verbs that say what Jules is *going* to do**

2 **When does Jules do what?**



*samedi soir*
samedi l'apres midi
dimanche matin
dimanche 10 heures
samedi
dimanche soir

3 **Qu'est-ce que tu vas faire ce weekend?**

Samedi
Je vais jouer au foot
Je vais regarder la tele
Je vais mes devoirs
Je vais jouer au rugby
Dimanche
Je vais rester à la maison.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 2, 3 a 4 a barnwyd mai Lefel 3 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Andrew yn meddu ar ddealltwriaeth o batrymau sain yr iaith Ffrangeg, ac mae'n gallu darllen *iaith gyfarwydd* yn uchel, fel y gwnaeth wrth ddisgrifio'i benwythnos. Mae'n gallu defnyddio'r rhestr eirfa sydd yn ei werslyfr i chwilio am ystyr geiriau newydd hefyd. Mae'n gallu darllen *testunau syml . . . a ffynonellau eraill o iaith gyfarwydd* er mwyn chwilio am fanylion (nodwedd o Lefel 3). Yn ogystal, mae'n gallu ailddefnyddio rhai brawddegau cyfarwydd o'r hyn mae wedi'i ddarllen yn ei waith ysgrifenedig a'i iaith lafar ei hun. Mae'n dechrau deall testunau sy'n cynnwys rhai *gwahanol batrymau brawddegau*, sy'n nodweddiadol o Lefel 4, ond mae angen llawer o gymorth arno i wneud hynny.

Darllen

# Nicole

**Lefel 5**

Mae Nicole yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Nicole nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Nicole ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Nicole o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Darllen yn Ffrangeg.

## L'argent de poche

Roedd dosbarth Nicole newydd ddechrau uned ar arian poced pan gwblhawyd y gweithgaredd darllen hwn. Roedd yn gyfle i ail-edrych ar gyd-destunau a astudiwyd yn flaenorol megis dillad, siopa, helpu o gwmpas y tŷ, a swyddi rhan amser. Darllenodd Nicole dri chyfweliad mewn cylchgrawn lle'r oedd pobl ifanc yn siarad am arian poced ac yn dweud sut oedden nhw'n ei ennill a beth oedden nhw'n ei wneud ag e. Mae un o'r cyfweliadau wedi'i gynnwys ynghyd ag ymateb Nicole iddo. Mae'r testun yn ymdrin â chyd-destun cyfarwydd ac mae'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau. Defnyddiodd Nicole eiriadur i chwilio am ystyr unrhyw eiriau anghyfarwydd, ac roedd hi'n gallu llithr ddarllen y testun er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth oedd angen arni. Deallodd yr wybodaeth a roddodd pob person ifanc ynghylch faint o arian oedden nhw'n ei gael, beth oedden nhw'n gwario'r arian arno, os oedden nhw'n gweithio ac os oedden nhw'n cynilo ai peidio. Roedd y gweithgaredd darllen hwn yn fan cychwyn ar gyfer gwaith darllen pellach am arian poced, ffasiwn ac agweddau pobl ifanc. Yna, aeth Nicole ati i greu ei darn ei hun o destun ysgrifenedig hirach gan addasu'r hyn a ddarllenodd i gynhyrchu ei hiaith ei hun.

**L'argent de poche**

*Interview avec Nathalie, 17 ans*

-Tu as combien d'argent de poche, Nathalie?
-Je reçois dix euros par semaine.
-Tu travailles à la maison pour avoir ton argent de poche?
-Normalement, mes parents me donnent automatiquement dix euros tous les samedis. Mais j'aide beaucoup à la maison aussi. Je passe l'aspirateur, je garde mon petit frère, je lave la voiture....
-Qu'est-ce que tu fais avec ton argent de poche?
-J'achète des magazines et des CD. Parfois, je vais au cinéma.
-Et pour les autres dépenses?
-Mes parents m'achètent les vêtements et paient pour les transports et quelquefois les concerts.
-Et tu travailles pendant les vacances?
-Oui. Ici on est près de la mer et l'été, il y a toujours de petits jobs pour les étudiants. L'année dernière, j'ai eu un petit job dans un restaurant de fast-food – c'était bien. Comme ça, je peux économiser un peu pour des vacances ou pour acheter quelque chose de plus cher.

| | Nathalie | Cécile | Jean-Paul |
|---|---|---|---|
| Combien? | 10 euros | 20 euros | 15 euros |
| Dépenses | CDs, magazines | cinéma vêtements | jeux d'ordinateur |
| Travail à la maison | Oui | Non | Oui |
| Petit job | Restaurant de fast food | garder les enfants | Non |
| Faire des economies | Oui | Non | Non |

## Un prof branché

Mae dosbarth Nicole wedi bod yn gweithio ar ddisgrifiadau mwy estynedig. Bu'r disgyblion yn adolygu'r iaith yn ymwneud â dillad yr oedden nhw wedi'i dysgu'n flaenorol, a buon nhw'n ehangu eu hystod o ansoddeiriau er mwyn gwneud eu hiaith yn fwy diddorol ac er mwyn cynnwys mwy o fanylion. Buon nhw'n canolbwyntio ar gywirdeb a chytundeb ansoddeiriau hefyd. Yn y gweithgaredd hwn, mae Nicole yn darllen testun sy'n disgrifio athrawes. Mae'n rhaid iddi adnabod yr iaith a ddefnyddir i ddisgrifio ei hymddangosiad, ei dillad a'i phersonoliaeth. Mae'r testun yn ymdrin â chyd-destun cyfarwydd ac mae'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau. Mae Nicole yn nodi ystod eang o iaith ddisgrifiadol ac mae'n ysgrifennu ei hymatebion yn gywir dan y tri phennawd. Yna, mae'n ail-ddefnyddio'r iaith a geir yn y testun i ddisgrifio athro gwahanol.

***Un prof branché***

*Mlle. Lebrun est notre prof de français et elle est ma prof préférée. Elle est assez grande mais pas grosse. Elle a les cheveux longs et raides et elle porte des lunettes. Elle a de beaux yeux verts.*

*Elle est très sportive aussi – elle aime bien faire de la gymnastique et jouer au tennis. Elle est plus jeune que les autres profs de langues. Mlle. Lebrun est plus branchée que tous les autres profs de notre collège. Elle porte quelquefois un pantalon chic et quelquefois une jupe courte. Elle ne porte jamais de vêtements démodés. Hier elle a porté une chemise très élégante.*

*Tout le monde aime bien Mlle. Lebrun parce qu'elle n'est jamais sévère. Elle est gentille et patiente et ses cours sont intéressants. Elle est drôle et elle aide tout le monde quand on a des problèmes.*

**Physique**

assez grande
pas grosse
cheveux longs et raides
yeux verts
elle porte des lunettes ✓

**Vêtements**

pantalon chic
jupe courte
chemise très élégante
Elle ne porte jamais de vêtements démodés ✓

**Caractère**

sportive
jeune
branchée
jamais sévère
gentille
patiente ✓
drôle
elle aide tout le monde

Madame Evans est notre prof de gallois. Elle est mince et joli. Elle a les cheveux courts noirs et les yeux marron. Elle est jeune. Elle porte quelquefois un pantaloon noir et une chemise blance. Elle porte un vêtement à la mode. Elle est strict mais gentille. Quelquefois elle est drôle. Elle est ma prof préférée!

## Une lettre à Luc

Mae dosbarth Nicole wedi bod yn dysgu sut i ddefnyddio'r amser perffaith yng nghyd-destun bwyd a diod, gan ymdrin ag agweddau ar ddealltwriaeth ryngddiwylliannol. Darllenodd Nicole lythyr ynghylch arferion bwyta yn Ffrainc, ac ymatebodd i'r llythyr yn Ffrangeg. Mae'r llythyr wedi'i ysgrifennu yn yr amser perffaith ar y cyfan, ond mae'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau. Mae Nicole yn dod o hyd i'r wybodaeth mae arni ei hangen ac mae'n cofnodi'r wybodaeth honno'n gywir, ond nid yw'n newid 'mes' i 'ses' yn ei hymateb olaf. Bu'n darllen ychydig o ddeunydd dilys ynghylch prydau bwyd yn Ffrainc hefyd, a llwyddodd i dynnu rhai manylion allan o'r deunydd hwnnw a dod o hyd i rai hysbysebion tai bwyta. Llwyddodd i ganfod ystyr rhai geiriau newydd gan ddefnyddio'r cyd-destun, a defnyddiodd eiriadur i chwilio am eiriau nad oedd yn eu deall.



4. Une lettre à Luc
Lis la lettre suivante puis réponds aux questions.

**HIER**

Lannion, le 18 avril

Cher Paul,

Dans ta lettre tu m'as demandé de parler des repas qu'on mange en France. Eh bien, voilà.

Chez moi,le repas le plus important est le dîner. Hier, c'était mon anniversaire et je suis allé au restaurant avec ma famille. J'ai mangé un steak-frites -c'était délicieux! J'ai bu une limonade mais mes parents ont bu du vin-je n'aime pas ça-c'est dégoûtant! Pour dessert j'ai mangé une glace au chocolat.

Ce matin,au petit déjeuner j'ai mangé des céréales avec du lait mais le samedi j'aime manger des croissants.

Au collège je mange à la cantine. Normalement, je mange du poulet avec des frites mais quelquefois je mange des pâtes.

Ce soir, je vais manger chez mes grand-parents parce que mes parents vont au cinéma.

Et toi, quel est ton repas préféré ?

Amitiés,

Luc.



1. Quel est le repas le plus important chez Luc?
   le diner
2. Il est allé où hier?
   au restaurant
3. Ses parents ont bu quelle boisson?
   du vin
4. Qu'est-ce qu'il a mangé comme dessert?
   glace au chocolat
5. Quand est-ce qu'il aime manger des croissants?
   le samedi
6. Où est-ce qu'il a mangé au collège?
   à la cantine
7. Où est-ce qu'il va manger ce soir?
   chez mes grandparents

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 4, 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Nicole yn *dangos dealltwriaeth o wahanol fathau o destunau mewn cyd-destunau cyfarwydd amrywiol*, gan gynnwys deialogau, llythyrau, erthyglau a ffynonellau dilys (nodwedd o Lefel 5). Mae'r testunau a ddarllenodd ac yr ymatebodd iddyn nhw *yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau*, gan gynnwys gwahanol amserau'r ferf. Mae Nicole yn gallu llithr ddarllen testunau er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth y mae arni ei hangen, mae'n gallu ymateb yn fanylach ac mae'n defnyddio deunyddiau cyfeirio i ddod o hyd i ystyr geiriau newydd. Weithiau, mae'n gallu deall peth deunydd dilys a deunydd sydd ychydig yn hirach, sy'n golygu ei bod yn dechrau arddangos nodweddion sy'n perthyn i Lefel 6. Yn achlysurol, mae'n defnyddio'r iaith mae wedi'i darllen wrth gynhyrchu ei hiaith ei hun, fel y gwnaeth yn 'Un prof branché'.

Darllen

# Sarah

**Lefel 6**

Mae Sarah yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Sarah nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Sarah ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Sarah o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Darllen yn Ffrangeg.

## La vie saine

Yng nghyd-destun uned o waith ar ffyrdd iach o fyw, darllenodd Sarah destun a oedd yn cynghori menyw ifanc ynghylch ei harferion bwyta, ymarfer corff a materion eraill megis ysmygu. Roedd y testun yn eithaf byr ond roedd yn cynnwys ystod o strwythurau ac ychydig o iaith anghyfarwydd, ac roedd y cyd-destun yn llai cyfarwydd. Roedd bylchau yn y testun, a thasg gyntaf Sarah oedd llenwi'r bylchau hynny trwy ddewis y geiriau cywir allan o focs. Dangosodd ei bod yn deall y testun trwy gopïo'r geiriau'n gywir a'u rhoi yn y mannau cywir. Y dasg nesaf oedd categoreiddio'r argymhellion yn Ffrangeg dan y tri phennawd. Roedd hi'n gallu dod o hyd i'r wybodaeth oedd ei hangen arni a'i mynegi'n gywir yn ei hymateb, ac roedd hi'n gallu rhoi rhai o'r brawddegau yn ei geiriau ei hun. Yna, aeth ati i ysgrifennu rhai argymhellion ar ei chyfer ei hun ar sail y testun, gan addasu'r hyn yr oedd wedi'i ddarllen i'w gwaith ysgrifenedig ei hun, sy'n nodweddiadol o Lefel 6.

Recommendations

Exercice physique - Les deux heures par semaine à l'école ne sont pas suffisantes ! Il faut prends assez d'exercice physique par jour. La recommendations est soixantes minutes d'activité physique par jour.

Alimentation - Ne mange pas si tu n'as pas faim. Évite de manger entre les repas de la journée : le petit déjeuner, et le dejeune et le dîner. Aussi, mange un yaourt ou un fruit pour le goûter. En plus, il faut manger moins de sucrés comme les barres chocalatées et les glaces.

**Recommendations**

Alimentation

Il faut manger moins du chocolat parce ~~qu'il~~ que trop de sucre est mauvais pour la peau ! Aussi, comme végétarienne n'est pas un problème si tu manges d'autres aliments riches en protéines.

Exercice physique

Il faut prends assez d'exercice physique. La recommendations sont soixante minutes d'activité physique par jour pour rester en forme.

Autres problèmes

Fument est très mauvais pour la santé et il y a une grande risque en Cancer. C'est très sérieux et il faut arrêter pour rester en forme.

## Une carte de Bretagne

Mae gan ysgol Sarah gysylltiadau ag ysgol yn Llydaw, ac yn y cyd-destun hwn bu'r disgyblion yn dysgu am yr ardal honno gan seilio ychydig o'u gwaith ar wyliau. Yn y gweithgaredd hwn, darllenodd Sarah lythyr oddi wrth Sophie a oedd yn sôn am wyliau yn Lannion. Mae'r llythyr yn destun hirach sy'n defnyddio ystod o strwythurau, gan gynnwys amrywiaeth o amserau'r ferf. Er bod y cyd-destun yn gyfarwydd, ceir ychydig o iaith anghyfarwydd a pheth gwybodaeth newydd am Lydaw, sy'n hybu dealltwriaeth ryngddiwylliannol Sarah. Mae'r dasg yn ymwneud â darganfod pwy ddywedodd beth a gan fod y brawddegau'n wahanol i'r rheiny a geir yn y llythyr, mae Sarah'n gorfod deall y strwythurau a rhai geiriau anghyfarwydd. Mae'n defnyddio geiriadur i wirio ystyr rhai geiriau anghyfarwydd a cliwiau gramadegol, a llwyddodd i adnabod pob gosodiad yn gywir. Aeth dosbarth Sarah ati wedyn i ysgrifennu eu llythyrau eu hunain am wyliau dychmygol yn Llydaw.

**Une Carte de Bretagne**

*Cher Paul,*

*Me voici enfin à Lannion en vacances. Nous restons dans un camping de cinq étoiles près de la plage. Il y a beaucoup à faire, mais ce qui me plaît surtout est la grande piscine chauffée. Cependant ma mère n'est pas contente parce que notre emplacement est près des poubelles.*

*Hier, nous avons visité "la maison des Johnnies" à Roscoff – c'est un musée qui explique l'histoire des marchands d'oignons en Bretagne. La visite était super mais un peu long! Après nous avons mangé dans un petit restaurant à Saint Pol de Léon – à mon avis, le repas était délicieux! J'ai pris des escargots et mon frère David a choisi une pizza parce qu'il est végétarien!*

*Nous sommes rentrés au camping l'après midi et je me suis reposée un peu en lisant et puis j'ai fait une promenade à la plage avec mes parents. David est resté au camping – il est tellement paresseux. Ce soir nous allons faire un pique-nique et peut-être un barbecue. Ma mère adore manger en plein air.*

*S'il fait chaud demain, nous avons l'intention d'aller à la plage ou à Morlaix. Il y a un grand viaduct dans cette ville.*

*A bientôt,*

*Sophie*

***Qui dit quoi? Sophie, la mère de Sophie, David ou personne?***

1. Le musée était super ___Sophie___
2. Je n'aime pas ce camping ___la mère de Sophie___
3. Je ne mange pas de viande ___David___
4. J'ai adoré le repas ___Sophie___
5. Le camping est loin de la plage ___personne___
6. J'ai lu ___Sophie___
7. Je n'aime pas faire les promenades ___David___
8. J'aime manger dehors ___la mère de Sophie___
9. Morlaix a un pont ___Sophie___
10. S'il fait chaud on reste au camping ___personne___

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 5, 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Sarah yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau. Mae hi wedi darllen deialogau a rhai testunau dilys yn ogystal â llythyrau a'r math o destunau a geir mewn cylchgronau. Mae hi'n mynd i'r afael â *thestunau hirach*, ac mae wedi defnyddio gwahanol adnoddau i ddod o hyd i wybodaeth. Mae'r testunau'n *cynnwys ystod o strwythurau gan gynnwys iaith gyfarwydd mewn cyd-destunau llai cyfarwydd* (nodwedd o Lefel 6), ac maen nhw'n cynnwys ystod o amserau'r ferf mewn rhai achosion, fel yn 'Une carte de Bretagne'. Fel dangosodd Sarah gyda'r testun ynghylch byw'n iach, mae'n gallu deall a dod o hyd i wybodaeth, ac mae'n gallu ail-ddefnyddio iaith mae wedi'i darllen yn ei hiaith lafar a'i gwaith ysgrifenedig ei hun. Mae'n defnyddio deunyddiau cyfeirio'n briodol ac mae'n gallu defnyddio cliwiau gramadegol i ganfod ystyr iaith anghyfarwydd, fel y gwnaeth yn rhai o'i hymatebion yn 'Une carte de Bretagne'.

# Targed cyrhaeddiad 2: Darllen
## Almaeneg

## Elizabeth | Lefel 4

Mae Elizabeth yn ddysgwr 13 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Elizabeth nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Elizabeth ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Elizabeth o'r farn mai Lefel 4 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Darllen yn Almaeneg.

### Meine Schule

Yng nghyd-destun yr ysgol a phynciau ysgol adeg gwneud dewisiadau, gosododd athrawes Elizabeth gweithgaredd darllen a fyddai'n datblygu sgiliau'r disgyblion ar gyfer darllen testun hirach ac adnabod barn. Erthygl ddychmygol yw'r testun, a ysgrifennwyd gan fyfyriwr yng Nghymru ar gyfer cylchgrawn ysgol Almaeneg. Mae'r testun mewn cyd-destun cyfarwydd iawn, ac roedd y disgyblion yn gyfarwydd â'r rhan fwyaf o'r iaith yn barod. Mae Elizabeth yn llwyddo i adnabod y rhan fwyaf o'r wybodaeth yn gywir yn y dasg 'gwir neu gau', mae'n gallu dod o hyd i farn am bob pwnc, ond nid yw'n gallu trosi 'ich liebe' i'r trydydd person. Yna, mae'n defnyddio'r iaith sydd yn y testun i ysgrifennu paragraff byr am ei hysgol hi. Mae'n atgynhyrchu rhai o'r brawddegau'n union fel y maen nhw, a hynny'n gywir ar y cyfan, ac mae'n addasu rhai brawddegau eraill. Ceir rhai strwythurau nad yw'n eu deall yn llwyr, ac nid yw'n gallu eu haddasu i'r hyn mae hi am ei ysgrifennu.

## MEINE SCHULE

Hallo! Ich heiße David Evans und ich bin 14 Jahre alt.
Meine Schule heißt Cardiff Academy. Es ist eine Gesamtschule in Südwales. Die Gebäude sind nicht schön - sie sind ziemlich alt aber es gibt ein neues Gebäude für Naturwissenschaft und Technik.

**Die Schuluniform**

Wir müssen auch eine Schuluniform tragen:
ein dunkelblaues Polohemd, einen schwarzen Pulli und eine schwarze Hose. Die Uniform gefällt mir nicht.

**Der Schultag**

Der Schultag beginnt um halb neun und endet um drei Uhr fünf.
Die Mittagspause dauert nur vierzig Minuten.

**Mein Stundenplan**

Ich lerne neun Fächer. Mein Lieblingsfach ist Informatik, weil der Lehrer lustig ist.
Ich mag auch Walisisch, weil es interessant ist. Mathe finde ich schwer. Englisch finde ich langweilig.
Mein Lieblingstag ist Mittwoch, weil wir Informatik, Sport, Kunst und Deutsch haben. Deutsch ist interessant und ich liebe Sport.

**Richtig (√) oder falsch (X)?**

1. Die Schule ist in Nordwales X
2. Die Schule ist ziemlich alt ✓
3. Es gibt ein neues Gebäude für Technik ✓
4. David mag nicht seine Schuluniform ✓
5. Das Polohemd ist schwarz X
6. Die Mittagspause ist lang ✓
7. Die Schule ist um drei Uhr aus X

**Wie findet David....**

| | |
|---|---|
| **Informatik?** | Lieblingsfach |
| **Mathe?** | Schwer |
| **Englisch** | Langweilig |
| **Deutsch?** | Interessant |
| **Sport?** | Ich liebe |
| **Walisisch?** | Interessant |

**Wie findest du deine Schule?-**

Ich heisse Elizabeth. Meine Schule ist Gesamtschule in ~~Schule~~ Sudwäles. Sie sind ziemlich alt. Der Schultag beginnt um halb neun und endet um drei Uhr. Mein Lieblingsfach ist Englisch. Ich mag Sport.

## Zu Hause mit Karl

Bu dosbarth Elizabeth yn ail-edrych ar gyd-destun bwyd gan ganolbwyntio ar fwyd, prydau bwyd ac arferion bwyta yn yr Almaen er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ryngddiwylliannol. Fel cyflwyniad i'r uned, bu'r disgyblion yn gweithio ar y testun byr hwn sy'n sôn am beth mae Karl fel arfer yn ei fwyta, a phryd. Gofynnwyd i'r disgyblion ddarllen y testun ddwywaith neu dair. Tanlinellodd Elizabeth y pum gair oedd yn anghyfarwydd iddi, a chwiliodd amdanyn nhw yn y geiriadur. Mae'n ateb rhai cwestiynau syml yn gywir yn Almaeneg, ac mae'n nodi'r amserau mae Karl yn bwyta ei brydau bwyd. Yn olaf, mae'n rhestru pob gair ar gyfer bwyd yn y testun, a bydd yn defnyddio'r geiriau hynny yn ei hiaith lafar a'i gwaith ysgrifenedig ei hun maes o law. Mae'r testun yn cynnwys iaith gyfarwydd mae Elizabeth yn ei deall ac yn barod iawn i ymateb iddi, ac roedd hi'n gallu defnyddio geiriadur i ddod o hyd i ystyr geiriau anghyfarwydd.

## Zu Hause mit Karl

Ich wohne in Berlin. Ich wohne in einer Wohnung im ersten Stock.
Zum Frühstück esse ich Brot mit Käse und Schinken. Meistens trinke ich Tee oder Orangensaft. In der Woche frühstücke ich um sieben Uhr.
Um Mittagessen essen wir um ein Uhr zu Hause. Ich esse mit meiner Familie, weil meine Mutter halbtags in einem Laden arbeitet . Mein Vater arbeitet zu Hause. Oft essen wir einen Salat mit Wurst und Nudeln.
Abends essen wir um acht Uhr. Das ist ziemlich spät. Wir essen Fleisch, Kartoffeln und Gemüse. Mein Lieblingskuchen ist Käsekuchen mit viel Sahne!

A) Finde das Englisch für 5 Wörter, die du nicht verstehst.

1. Stock = floor
2. Halbtags = halfday
3. Ziemlich = quite
4. Fleisch = meat
5. Sahne = cream

B) Antworte auf Deutsch!

1) Wo wohnt Karl? ....In Berlin..............................
2) Was trinkt Karl zum Frühstück?...Tee..........................
3) Wo arbeitet seine Mutter?...in einem Laden...
4) Wo arbeitet sein Vater?..Zu hause...................
5) Was ist sein Lieblingsessen?.Käse kuchen.............

C) Um wieviel Uhr isst Karl.....

das Frühstück?...7 uhr
das Mittagessen?..1 uhr
das Abendessen?..8 uhr

D) Auf Deutsch finde Wörter für das Essen!

Beispiel: *Brot*

Käse
Schinken
Nudeln
Wurst
Salat
Kartoffeln
Gemüse
Fleisch

## München – das Stadtzentrum

Mae dosbarth Elizabeth wedi bod yn dysgu sut i ddisgrifio trefi a chymharu trefi yng Nghymru a’r Almaen er mwyn datblygu eu dealltwriaeth ryngddiwylliannol. Fel cyflwyniad i’r uned, edrychodd y dosbarth ar wefan Munich ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol, a thynnodd eu hathrawes eu sylw at safleoedd ac adeiladau enwog gan eu disgrifio’n Almaeneg a gofyn cwestiynau syml i’r disgyblion. Buon nhw’n edrych ar wefan Caerdydd yn Almaeneg hefyd, a llwyddon nhw i adnabod y geiriau Almaeneg ar gyfer rhai o’r prif atyniadau. Bu’r disgyblion yn darllen y daflen hon oedd wedi’i symleiddio am Munich.

Mae’r daflen yn cynnwys iaith gyfarwydd a gwahanol batrymau brawddegau, ac mae’n darparu gwybodaeth am ganol y ddinas. Daeth Elizabeth o hyd i rai manylion trwy gyfrwng y dasg ‘gwir neu gau’. Roedd y dasg nesaf ar sail y testun yn canolbwyntio ar strwythurau berfau yn y testun, y byddai yn eu defnyddio i ysgrifennu’n annibynnol maes o law. Yn y diwedd, mae Elizabeth yn defnyddio'r testun i ysgrifennu ychydig o frawddegau am ei thref ei hun, gan ail-ddefnyddio strwythurau o’r testun.


MÜNCHEN
DAS STADTZENTRUM

München liegt im Südosten von Deutschland. Im Stadtzentrum gibt es viel zu tun.

Es gibt viele interessante Boutiquen, Cafés, Kinos und Kaufhäuser. Glücklicherweise gibt es keine Autos, weil es eine Fußgängerzone gibt. Es ist besser mit dem Bus oder der U-Bahn zu fahren.

Im Winter findet man hier den Weihnachtsmarkt. Der Marktplatz ist besonders hübsch im Schnee und man kann Glühwein und Lebkuchen kaufen.

Im Sommer ist die Atmosphäre auch toll. Man kann spazieren gehen, Musik hören und ein gutes Münchener Bier trinken!



**Richtig (√) oder falsch (X)?**

1. München ist in der Schweiz. X √
2. Man kann in einen Film gehen. √
3. Es gibt viele Läden. √
4. Es gibt viele Autos im Stadtzentrum. √
5. Im Sommer gibt es den Weihnachtsmarkt. X √
6. Im Dezember kann man Lebkuchen kaufen. √

**Fülle die Lücken aus!**

1. Es gibt viel zu tun.
2. Glücklicherweise gibt es keine Autos.
3. Es ist besser mit dem Bus zu fahren.
4. Der Marktplatz ist hübsch.
5. Man kann Lebkuchen kaufen.
6. Man kann Musik hören.

**Wo wohnst du?**

Ich wohne In Cardiff

Im Stadtzentrum gibt es ein Schloss, viele Kaufhauser und ein Markt.

Man kann spazieren gehen und Welshkuchen kaufen

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystriwyd Lefelau 3, 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Elizabeth yn dangos dealltwriaeth glir o wahanol destunau sy'n cynnwys *iaith gyfarwydd a gwahanol batrymau brawddegau* (nodwedd o Lefel 4). Mewn samplau o waith, gwelir ei bod yn ymateb yn dda i iaith gyfarwydd yng nghyd-destun yr ysgol, bwyd a disgrifio dinasoedd. Mae'n dechrau edrych ar ddeunydd mwy dilys ar wefannau, ond mae angen cymorth arni i wneud hynny. Mae'n dechrau darllen testunau hirach hefyd, ond mae'r testunau hynny'n dal i fod yn gyfarwydd iawn. Mae'r testunau mae'n eu deall yn cynnwys gwahanol batrymau brawddegau, ac mae'r iaith yn eithaf amrywiol mewn rhai achosion. Mae'n gallu ymateb i wahanol batrymau brawddegau, fel y dangosodd yn ei hymatebion i'r cwestiynau Almaeneg am drefn arferol Karl. Mae'n gallu adnabod geiriau anghyfarwydd a chwilio amdanyn nhw mewn geiriadur. Weithiau, mae'n defnyddio'r hyn mae'n ei ddarllen i *ddatblygu ei hiaith gynhyrchiol ei hun* (nodwedd o Lefel 4).

Darllen

# Lucy

**Lefel 6**

Mae Lucy yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Lucy nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Lucy ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Lucy o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Darllen yn Almaeneg.

## Lieber Oliver

Mae dosbarth Lucy wedi bod yn ymchwilio i ardal arbennig yn yr Almaen ar gyfer prosiect diwedd uned sy'n canolbwyntio ar ddealltwriaeth ryngddiwylliannol. Roedd hynny'n cynnwys gwneud ychydig o waith ymchwil dan arweiniad ar y rhyngrwyd ac adolygu rhai deunyddiau dilys megis taflenni, llyfrynnau a hysbysebion. Cyflawnodd y dosbarth ystod o weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r thema, a gofynnwyd iddyn nhw gwblhau'r dasg darllen hon yn rhan o'u gwaith cartref. Darllenodd Lucy y llythyr a ysgrifennodd Paul at ei ffrind llythyru yn yr Almaen yn disgrifio'i wyliau yn y Goedwig Ddu. Mae'r testun yn eithaf hir ac mae'n cynnwys ystod o strwythurau a rhai cyd-destunau llai cyfarwydd. Mae'r disgrifiad o'r gwyliau yn eithaf cyfarwydd, ond mae'r wybodaeth am y tad-cu yn llai cyfarwydd. Mae'r gweithgaredd 'gwir neu gau' yn cynnwys rhai cwestiynau sy'n dibynnu ar wybodaeth am iaith a defnydd o gliwiau gramadegol, megis Cwestiwn 5 lle mae Lucy yn deall nad yw Paul wedi bod yn siopa eto ond ei fod yn bwriadu mynd i siopa. Mae Cwestiwn 7 yn gofyn iddi ddod i'r casgliad na all y tad-cu fynd i gerdded. Mae'n ymateb yn gywir i'r cwestiynau yn Almaeneg, ac mae'n adnabod yr wybodaeth mae arni ei hangen ac yn dangos gallu i drin iaith o'r testun yn ddeheuig. Fel gweithgaredd dilynol, defnyddiodd Lucy y testun i ysgrifennu llythyr a oedd yn disgrifio gwyliau dychmygol mewn ardal o'i dewis hi yn yr Almaen.

Lieber Oliver

Ich bin hier auf Urlaub mit meiner Familie im Schwarzwald in der Nähe von Freiburg. Es ist sehr schön hier und es hat nur einmal geregnet. Wir bleiben hier zwei Wochen. Am Samstag fahren wir mit dem ICE-Zug nach Brüssel und mit dem Eurostar nach London wieder nach Hause.
Wir haben ein grosses Apartment im Wald vermietet, weil mein Groβvater mitgekommen ist. Er ist 78 Jahre alt und ist im Rollstuhl. Der Fahrt mit dem Zug war praktischer für ihn.
Wir haben schon einige Ausflüge auf das Land gemacht. Gestern bin ich mit meinem Vater und meinem Bruder im Schwarzwald spazieren gegangen. Es machte mir viel Spaβ, aber nachher war ich sehr müde. Morgens werde ich mit meiner Mutter und meinem Groβvater in Freiburg einkaufen gehen. Mein Groβvater möchte einen Steinkrug als Souvenir kaufen.
Hier gibt es viel zu tun. Das Apartment befindet sich auf einem Komplex. Es gibt ein Jugendzentrum wo man Sport spielen kann und ein Schwimmbad. Am letzten Tag gibt es einen Fussballwettbewerb und ich möchte teilnehmen. Das wäre toll!

Dein Brieffreund

Paul

**Richtig (√) oder falsch (X)?**

1. Paul ist auf Urlaub mit seinen Groβeltern. X
2. Er bleibt vierzehn Tage im Schwarzwald. √
3. Die Familie bleibt in einem Hotel. X
4. Sie werden mit dem Auto zurückfahren X
5. Paul ist schon einkaufen gegangen. X
6. Auf dem Komplex kann man schwimmen. √
7. Der Groβvater kann nicht spazieren gehen. √

**Beantworte diese Fragen**

1) Wohin fahren die Züge ?
2) Warum hat die Familie ein grosses Apartment vermietet?
3) Warum möchte der Groβvater einkaufen gehen?
4) Was für Sport hat Paul gern?

1. Die Züge fahren nach Brüssel und nach London
2. Weil sein Groβvater mitgekommen ist und er im Rollstuhl ist.
3. Er möchte einen Steinkrug als Souvenir kaufen.
4. Er hat spazierengehen, schwimmen und Fussball gern.

## Rauchen und andere Probleme

Fel rhan o uned o waith ar ffyrdd iach o fyw, darllenodd dosbarth Lucy y darnau hyn allan o gylchgrawn sy'n sôn am agwedd pobl ifanc at ysmygu. Mae'r deunydd hefyd yn cynnwys darn ar wahân am broblemau bachgen â'i rieni. Mae'r testunau'n cynnwys ystod eang o strwythurau a gwahanol safbwyntiau. Roedd yn rhaid i Lucy adnabod pa berson oedd yn gysylltiedig â pha gwestiwn, ac mae'n dod o hyd i'r wybodaeth mae arni ei hangen i gyflawni'r dasg yn gywir. Yn dilyn y gweithgaredd darllen hwn, gweithiodd Lucy mewn grŵp gan ddefnyddio TGCh i baratoi cyflwyniad llafar ar beryglon ysmygu.

Ich rauche sehr oft in der Woche! Meine Eltern haben auch gemerkt, daβ ich geraucht habe. Sie waren nicht zufrieden. Das erste Mal war in der Schule. Ich habe mit meiner Freundin in der Toiletten geraucht. Ich finde es jetzt ganz normal. Wenn jemanden das Rauchen beruhigt, ist es OK.

**Charlotte 18 Jahre alt**

Ich mache viel Sport, darum kann ich es mir nicht erlauben zu rauchen.
In der Fussballmannschaft raucht niemand. Der Fussballmanager ist dagegen und Rauchen ist bestimmt nicht gesund.Ich finde Rauchen doof! Es stinkt und man hustet. Hoffentlich werde ich nie rauchen.

**Christian 16 Jahre alt**

Seit 2 Monaten gehe ich mit einem schönes Mädchen aus. Wir haben uns sehr lieb, aber meine Eltern können sie einfach nicht leiden. Sie ist nett und immer höflich. Ich finde es nervend, daβ ich um neun Uhr zu Hause sein muβ.

**David 14 Jahre alt**

Als ich elf Jahre alt war, hat mir ein Schulfreund eine Zigarette angeboten. Zum Glück habe ich sie nicht geraucht, und ich bin stolz daran. Ich habe noch nie geraucht, und ich glaube, ich bin der einzige in unserer Klasse. Ich hasse Rauchen. Die Kleider stinken immer. Ich bin wirklich froh, daβ es in vielen Orten jetzt verboten ist.

**Ralf 15 Jahre alt**

**Beantworte diese Fragen**

1. Wer hat nie geraucht? Ralph
2. Wer raucht? Charlotte
3. Wer will nicht rauchen, weil er sportlich ist? Christian
4. Wer spricht von etwas anders? David
5. Wer hat Probleme mit seinen Eltern? David
6. Wer findet Rauchen kein Problem? Charlotte

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Lucy yn *dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau sy'n cynnwys ystod o strwythurau gan gynnwys iaith gyfarwydd mewn cyd-destunau llai cyfarwydd* (nodwedd o Lefel 6). Mae'n ymateb i lythyrau ac erthyglau ac mae'n gallu dod o hyd i wybodaeth mewn rhai deunyddiau dilys, gan gynnwys gwneud gwaith ymchwil dan arweiniad ar y rhyngrwyd. Mae'n ymdopi'n dda â *thestunau hirach* ac weithiau *â brawddegau cymhleth*, megis yn y gwaith ar ysmygu, gan ddechrau arddangos nodweddion sy'n perthyn i Lefel 7. Mae'n canfod ystyr gan ddefnyddio *cyd-destun a chliwiau gramadegol*, fel y dangosodd yn rhai o'i hymatebion i lythyr Paul at ei ffrind llythyru (nodwedd o Lefel 6). Mae'n gallu defnyddio'r hyn mae'n ei ddarllen *i ddatblygu ei hiaith gynhyrchiol ei hun* mewn tasgau megis cyflwyniadau ac ystod o weithgareddau ysgrifennu.

# Targed cyrhaeddiad 2: Darllen
## Sbaeneg

### Sam | Lefel 5

Mae Sam yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.


Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Sam nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Sam ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Sam o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Darllen yn Sbaeneg.

### El sabado perfecto

Mae dosbarth Sam wedi bod yn gweithio ar yr amser presennol a'r defnydd o gysyllteiriau yng nghyd-destun trefn arferol y dydd. Er mwyn paratoi'r disgyblion ar gyfer ysgrifennu disgrifiad o'u dydd Sadwrn perffaith, gofynnodd yr athrawes iddyn nhw ddarllen am ddydd Sadwrn perffaith y pêl-droediwr o Sbaen, Raúl. Mae'r testun yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau ac ystod o gysyllteiriau. Tasg gyntaf Sam ar ôl iddo ddarllen y testun oedd chwilio am ystyr rhai geiriau anghyfarwydd yn y geiriadur (geiriau a ddewiswyd gan yr athrawes i helpu'r disgyblion i ddeall) a dod o hyd i'r Sbaeneg ar gyfer rhai ymadroddion allweddol a roddwyd yn Saesneg. Sicrhaodd hynny bod Sam yn datblygu'r sgìl o lithr ddarllen testun er mwyn dod o hyd i'r geiriau yr oedd arno'u hangen. Yna, ymatebodd i gwestiynau yn Sbaeneg gan ddod o hyd i'r wybodaeth gywir a dangos ei fod yn gallu darllen yn fanwl. Nid yw bob amser yn trosi ei ymatebion yn gywir i'r trydydd person fodd bynnag. Yn dilyn y gweithgaredd darllen, ail-ddefnyddiodd Sam yr adrannau hynny o'r testun a oedd wedi'u tanlinellu ac a oedd yn pwysleisio'r cysyllteiriau er mwyn llunio'i ddisgrifiad ei hun.

***¡El sabado perfecto de Raul!***



- **Lee la carta de Raúl –**

*¡Hola amigos!*

*¿Qué tal estáis? Estoy fatal porque tengo problemas con mi pie y estoy en el hospital. No puedo salir este sábado - ¡qué pena!*

*Bueno, voy a describir mi sábado perfecto........*

*Normalmente me despierto a las once. Tomo el desayuno en cama: tomo fruta con yogur y café con leche. Entonces, me levanto y me ducho. Me visto en vaqueros y una camiseta.*

*Voy al estadio a las dos y me preparo para el partido. Hago ejercicios y un poco de yoga – ¡es muy útil! Juego en el partido a las tres y marco 10 goles - ¡genial!*

*Después del partido, me ducho y voy al restaurante italiano con mis amigos. Como mucha pizza, muchos espaguetis y un montón de helado. También, bebo champán y agua mineral.*

*Entonces, vamos al cine para ver una película de comedia o una película de acción. Mi actor preferido es Adam Sandler.*

*Más tarde, vamos a la discoteca hasta las tres de la madrugada y vuelvo a casa muy cansado! ¡Qué día más perfecto!*

- **Responde a estas preguntas:**

**EJEMPLO**

1. ¿Dónde está Raúl? Está en el hospital.
2. ¿A qué hora se despierta? a las once
3. ¿Qué ropa lleva? vaqueros y una camiseta
4. ¿Adónde va a las dos? al estadio
5. ¿Qué hace como preparación para el partido? ejercicio y hago yoga
6. ¿Cuántos goles marca? 10 goles
7. ¿Qué come en el restaurante italiano? como pizza, muchos espagetis y un montón
8. ¿Qué le gusta beber? bebo champán y agua de helado
9. ¿Adónde van después? al cine
10. ¿A qué hora vuelve a casa? las tres de la madrugada

- **Usa el modelo para describir *tu* sábado perfecto y entonces el sábado perfecto de tu héroe -**

## ¿Cómo es Cardiff?

Roedd dosbarth Sam yn gweithio ar ddisgrifio trefi a'r ardal maen nhw'n byw ynddi. Defnyddiodd yr athrawes y llythyr hwn am Gaerdydd i ail-edrych ar wahanol gyfnodau amser a chanolbwyntio ar ansoddeiriau. Y dasg gyntaf oedd llithr ddarllen y testun a rhoi llinell werdd dan bob ansoddair, a llwyddodd Sam i wneud hynny'n gywir. Yna, mae'n rhoi cylch o gwmpas yr holl leoedd y gellir ymweld â nhw yng Nghaerdydd, ac mae'n tynnu llinell igam-ogam dan yr holl wahanol fathau o drafnidiaeth a nodir. Roedd y tasgau llithr ddarllen a chip ddarllen cychwynnol hyn yn paratoi'r disgyblion ar gyfer ymateb yn fanylach i'r testun. Cyn dechrau ar y tasgau hyn, bu athrawes Sam yn adolygu ar lafar gyda'r dosbarth y gwahanol eiriau ar gyfer gofyn cwestiwn. Mae Sam yn ateb y cwestiynau'n gywir yn Sbaeneg ac mae'n dod o hyd i'r holl fanylion mae arno'u hangen.

¡Hola! ¿Qué tal?

Por aquí todo bien, Cardiff es muy bonito pero hace mucho frío y llueve. Cardiff es la capital de Gales, es una ciudad importante por eso tiene un estadio enorme donde se organizan conciertos y partidos de rugby.

También hay una bahía preciosa donde hay un teatro, muchos restaurantes y bares. Para ir allí puedes coger el tren, el autobús o incluso puedes ir en barco.


Vivo en una casa con jardín cerca del centro, a unos 20 minutos a pie. Comparto casa con una chica italiana y un chico francés, ellos también son estudiantes. Como todos tenemos bicicletas, ayer fuimos de excursión con ellas. Primero fuimos al castillo y luego al museo de historia. ¡Había dinosaurios enormes!

¿Cuándo vas a venir a visitarme? Espero verte pronto. Escribe pronto y dale recuerdos a tu familia.

Besos

Elena.

1. **¿Cómo es Cardiff?**____________________ (1)
2. **¿Qué tiempo hace en Cardiff?**____________________ (2)
3. **¿Dónde se puede ver conciertos y partidos de rugby?** ____________________ (1)
4. **¿Qué hay en la bahía?**____________________ (3)
5. **¿Cómo puedes viajar a la bahía?** ____________________ (3)
6. **¿Dónde está la casa de Elena?**____________________ (1)
7. **¿Con quién vive Elena?**____________________ (2)
8. **¿Cuándo fueron de excursión?**____________________ (1)
9. **¿Adónde fueron de excursión?**____________________ (2)
10. **¿Qué había en el museo de historia?**____________________ (1)




## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 4, 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Sam yn *dangos dealltwriaeth o wahanol fathau o destunau*, gan gynnwys llythyrau ac erthyglau, fel y gwelir yn y gwaith enghreifftiol, a deialogau a cherddi syml (nodwedd o Lefel 5). Mae'r testunau wedi'u seilio mewn *cyd-destunau cyfarwydd amrywiol*, megis disgrifiadau o'r ardal mae'n byw ynddi, pobl enwog, y drefn arferol, a bwyd a diod (nodwedd o Lefel 5). Mae Sam wedi datblygu ei ddealltwriaeth ryngddiwylliannol hefyd trwy gymharu rhai o'r agweddau hyn ar ei fywyd ei hun ag agweddau tebyg yn Sbaen a gwledydd eraill lle siaredir Sbaeneg. Mae'r testunau mae Sam yn gallu eu darllen a'u deall yn cynnwys *amrywiaeth o strwythurau* (nodwedd o Lefel 5), ac mae'r testunau weithiau'n cynnwys gwahanol amserau'r ferf, megis yn y llythyr am Gaerdydd. Mae'n dechrau datblygu gwahanol dechnegau darllen hefyd megis *technegau cip ddarllen, llithr ddarllen a darllen manwl* (nodwedd o Lefel 5). Nid yw'n hyderus wrth geisio canfod ystyr iaith anghyfarwydd ar ei ben ei hun eto, ac mae angen cymorth arno i wneud hynny. Er hynny, mae'n defnyddio'r hyn mae'n ei ddarllen wrth gynhyrchu ei iaith ei hun, fel y gwnaeth yn y gweithgaredd a ddilynodd y dasg darllen am y dydd Sadwrn perffaith.

Darllen

# Tanya

**Lefel 6**

Mae Tanya yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Tanya nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Tanya ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Tanya o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Darllen yn Sbaeneg.

## El gran futbolista Raúl

Mewn uned o waith yng nghyd-destun chwaraeon, rhoddwyd erthygl i ddosbarth Tanya oedd yn sôn am y pêl-droediwr o Sbaen, Raúl. Roedd y ffocws o ran iaith ar ddefnyddio amserau gorffennol y ferf a dod o hyd i eiriau cytras, a defnyddio'r testun fel patrwm ar gyfer ysgrifennu am eu hoff berson ym maes chwaraeon. Mae'r testun yn cynnwys ystod o strwythurau ac ychydig o iaith anghyfarwydd. Y dasg gyntaf oedd llithr ddarllen y testun a thanlinellu gwahanol amserau'r ferf: y presennol, y gorffennol, y perffaith a'r amherffaith. Mae Tanya wedi arfer defnyddio gwahanol liwiau i dynnu sylw at eiriau, a dyna a wnaeth i dynnu sylw at y pedwar gwahanol amser a ddefnyddiwyd. Yna, lluniodd restr o eiriau cytras gan ddewis y geiriau canlynol: 'idolo'; 'fútbol'; 'junio'; 'oportunidad'; 'Liga'; 'momento'; 'goles'; 'nacional'. Mae mwy na hyn o eiriau cytras i'w cael, a thynnodd yr athro'i sylw hi at hynny. Aeth Tanya yn ei blaen i ddod o hyd i ystyr pum gair ac ymadrodd anghyfarwydd gan ddefnyddio'r cyd-destun i ganfod eu hystyr. Trafododd y dosbarth yr atebion, ac roedd Tanya'n gallu cyflwyno'i hymatebion a darllen darnau o'r testun yn uchel yn hyderus. Defnyddiodd y disgyblion adnoddau TGCh i ysgrifennu drafft o'u herthygl eu hunain ar sail y testun. Rhoddodd yr athro sylwadau ar y drafft cyntaf, a thrafododd bethau y dylai Tanya eu gwirio, megis acenion, trefn geiriau a chytundeb ansoddeiriau, er mwyn gwella'i gwaith. Mae'n cynhyrchu drafft terfynol gan gymryd y sylwadau hyn i ystyriaeth. Mae'n dilyn y patrwm yn agos, ac ychydig o gamgymeriadau a geir yn y drafft terfynol.

**ACTIVIDADES DE LEER – EL GRAN FUTBOLISTA "RAÚL"**

Lee este artículo sobre Raúl



El gran futbolista Raúl es un ídolo del fútbol en España, con buena razón.

Raúl González Blanco nació el 27 de junio de 1977 en el barrio de San Cristóbal de los Ángeles y cuando tenía seis años, aprendió a jugar al fútbol en serio. Poco después, empezó a jugar en el equipo infantil de su barrio.


En 1989, con sólo doce años, comenzó a jugar para el equipo juvenil del Atlético de Madrid pero cuatro años más tarde, fue al Real Madrid. A los diecisiete años, llegó la oportunidad de debutar en la Liga para el Real – Raúl jugó fantásticamente. Desde ese momento ha jugado como delantero ha marcado muchísimos goles para el Real y también para la selección nacional.

Es un hombre modesto y simpático: le encanta estar con su mujer, Marien y sus dos hijos, en casa o en el campo.

**Un perfil de mi deportista favorita**

**Sally Gunnell**







El gran atleta Sally Gunnell es un ídolo del atletismo en Gran Bretaña.

Sally nació el 29 de julio de 1966 en el barrio de Chigwell en Essex. Cuando tenía en el colegio aprendió a correr en serio. En 1980 llegó la oportunidad hacer atletismo en serio y ganó muchos títulos juveniles.

Se convertio en la número uno vallista del Reino Unido y en 1986 ganó el oro en los Juegos de Commonwealth.

En los Juegos Olímpicos en Barcelona fue capitán del equipo femenino británico, hacer las vallas 400m y ganó el oro.

Desde ese momento, ha ganado muchos mas trofeos para la selección nacional.

Es una mujer modesta y simpatica: le encanta estar con su marido y sus tres hijos, en casa o en la playa.

## Las fiestas

Ar ddiwedd uned o waith ar wahanol wyliau a geir yn Sbaen – a oedd yn cynnwys diwrnodau seintiau, y Nadolig, ffiestas, a gwyliau nad ydyn nhw'n rhai Cristnogol – rhoddwyd tasg darllen eithaf hir i'r disgyblion. Mae'r llythyr yn disgrifio gŵyl arbennig yn Valencia a dathliadau'r Nadolig. Mae'r llythyr yn cynnwys ystod o strwythurau mae'r disgyblion wedi'u dysgu er mwyn disgrifio gwyliau, a cheir rhai enghreifftiau o iaith sy'n llai cyfarwydd. Darllenodd yr athro trwy'r testun gyda'r dosbarth gan atgoffa'r disgyblion o'r eirfa, y strwythurau a'r gwahanol wyliau y buon nhw'n eu hastudio yn ystod yr uned.

LAS FIESTAS

Valencia, 22 de Diciembre.

Querida Shannon;

¿Qué tal estás? Por aquí todo bien. Mi familia y yo nos estamos preparando para la Navidad.

Todos hemos hecho nuestras compras de útima hora y tenemos todos los regalos preparados. El 24 de diciembre toda la familia iremos a casa de mi abuela a cenar.
Allí estarán mis primos, mis tíos y mis abuelos. Cenaremos mucho marisco y pescado al horno, y de postre un pastel de queso. ¡Esta buenísimo!

Después nos desearemos ¡Feliz Navidad!, nos daremos los regalos y comeremos turrón. El turrón es un dulce típico de Navidad. Está hecho de caramelo, almendra o chocolate. Como todos los años mi abuela empezará a cantar y mi primo y yo tocaremos la pandareta y la zambomba, (unos instrumentos típicos navideños).

Sin embargo no todos los años son iguales. El año pasado fuimos a Sierra Nevada a esquiar. Nos lo pasamos muy bien. Fuimos toda la familia y mi hermana y yo recibimos lecciones porque no habíamos esquiado nunca. Al principio resultó difícil pero luego le cogimos el truco. Además visitamos la Alhambra de Granada y comimos muchas tapas.

¿Cuándo vas a venir a visitarnos? ¿Por qué no vienes en marzo y así conoces las Fallas? Las fallas son las fiestas de Valencia y son del 15 al 19 de marzo. Los artistas falleros (que en Valencia es una profesión como otra cualquiera), construyen unos monumentos de madera y de cartón, normalmente figuras de famosos y políticos. El 19 de marzo se quema el monumento y con ello los valencianos queman todo aquello que quieren cambiar .


Espero verte pronto. ¡ Feliz Navidad y Próspero Año Nuevo!

Dale recuerdos a tu familia y escribe pronto.

Un beso y un abrazo,

Tu amiga

Yna, cwblhaodd y disgyblion amryw o wahanol ymarferion cip ddarllen a llithr ddarllen er mwyn canolbwyntio ar y strwythurau, gan gynnwys gwahanol amserau'r ferf. Roedd yr ymarferion hynny'n cynnwys ymarfer 'dod o hyd i'r Sbaeneg' lle'r oedd gofyn i'r disgyblion ddod o hyd i'r Sbaeneg ar gyfer naw brawddeg megis 'Rydym yn paratoi ar gyfer y Nadolig' a 'Buon nhw'n adeiladu cerfluniau o bren a chardbord'. Daeth Tanya o hyd i'r brawddegau cywir, gan ddefnyddio'i gwybodaeth am y strwythurau a'r eirfa a ddysgodd yn ystod yr uned a defnyddio'r cyd-destun a chliwiau gramadegol. Mae'n cwblhau'r dasg 'gwir neu gau' ac mae'n cywiro'r brawddegau anghywir yn gywir. Defnyddiwyd y testun eto nes ymlaen i helpu'r disgyblion wrth iddyn nhw ysgrifennu am eu dathliadau eu hunain.


¿Verdad o mentira?

1. El 24 de diciembre toda la familia se reune en la casa de su madre. X M
2. A su abuela le gusta cantar. ✓ V
3. La pandareta y la zambomba son postres. X M
4. El año pasado pasaron las vacaciones de navidad en la costa. X M
5. Fue la primera vez que Elena había esquiado. ✓ V
6. Las fallas tienen lugar en el verano. X M
7. Ser artista fallero es una profesión en Valencia. ✓ V
8. Normalmente hacen figuras de animales. X M

Corrige las frases falsas.

1. Toda la familia se reune en la casa de su abuela
3 La pandareta y la zambamba son instrumentos
4 El año pasado pasaran las vacaciones de navidad a Sierra Nevada
6 Las fallas tienen lugar en marzo
8 Normalmente hacen figuras de famosos y politicos.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 5, 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Tanya *yn dangos dealltwriaeth o amrywiaeth o destunau sy'n cynnwys ystod o strwythurau*, gan gynnwys llythyrau, erthyglau ac ychydig o ddeunydd dilys sy'n rhan o'r uned ar wyliau (nodwedd o Lefel 6). Mae wedi datblygu technegau cip ddarllen a llithr ddarllen, ac mae'n dangos y sgiliau hynny yn y ddwy dasg enghreifftiol. Mae'n gallu defnyddio *cyd-destun, cliwiau gramadegol a chytrasau* i'w helpu i ganfod *ystyr iaith anghyfarwydd* (nodwedd o Lefel 6). Mae'r llythyr sy'n sôn am wyliau yn hir, ac mae'n cynnwys rhai *brawddegau cymhleth*. Mae Tanya yn ymdopi'n dda â hyn, ac mae'n dechrau arddangos rhai nodweddion sy'n perthyn i Lefel 7 yn y dasg hon. Mae'n gallu *defnyddio deunyddiau cyfeirio*, ac mae'n defnyddio'r testunau mae'n eu darllen i *ddatblygu ei hiaith gynhyrchiol ei hun* (nodwedd o Lefel 6).

Darllen

# Tom | Lefel 7

Mae Tom yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Tom nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Tom ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Tom o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Darllen yn Sbaeneg.

## La moda

Mewn uned o waith ar ffasiwn a cherddoriaeth, cwblhaodd dosbarth Tom y gweithgaredd darllen hwn. Roedden nhw eisoes wedi darllen erthyglau ar y pynciau hyn, a dynnwyd allan o gylchgronau Sbaeneg ar gyfer pobl ifanc. Roedd y gweithgaredd hwn yn canolbwyntio ar yr amser amherffaith ac yn canolbwyntio ar gymharu'r gorffennol â'r presennol. Mae'r testun yn eithaf hir ac mae'n cynnwys rhai brawddegau mwy cymhleth a geirfa anghyfarwydd. Cwblhaodd Tom y dasg mewn ystafell TGCh, a defnyddiodd adnoddau prosesu geiriau i nodi ei ymatebion. Cwblhaodd dasg 'dod o hyd i'r Sbaeneg' gan ddefnyddio cliwiau gramadegol a chyd-destun, a bu'n categoreiddio nifer o frawddegau gan adnabod dau o wahanol amserau'r ferf. Gan ddefnyddio'r testun fel patrwm, aeth Tom ati gyda phartner i ddefnyddio'r amser amherffaith i lunio cwestiynau yn Sbaeneg ar gyfer arolwg, er mwyn gofyn i'r disgyblion eraill yn y dosbarth beth oedden nhw'n arfer gwisgo a'i gwneud pan oedden nhw'n iau. Mae'n ysgrifennu ei erthygl ei hun ar sail y canlyniadau.

# La moda ¿Ha cambiado mucho en los últimos cuarenta años?

La moda de los años setenta trajo muchos cambios en las formas de vestir y vivir. Incluso se produjo un cambio muy importante en la música. En los años setenta por un parte las mujeres llevaban muchos vestidos cortos multicolores y los 'hotpants'. Por otra parte los hombres llevaban pantalones de campana, camisas multicolores con cuellos largos y los primeros botones del cuello desabrochado. También llevaban corbatas largas de colores vivos.
El maquillaje en los años setenta era muy pronunciado, con colores muy fuertes - como el azúl, el verde, el amarillo, el anaranjado, etc.
A finales de los años setenta había nacido la imagen del punk. Llevaban camisetas rasgadas y chaquetas de cuero. Fue un movimiento londinense con diseñadores como Malcolm McLaren y Vivienne Westwood.

Hoy en día se encuentra una variedad de ropa muy amplia en las tiendas. Para las mujeres hay muchos vestidos cortos multicolores que se llevan con pantalones ceñidos o leggings. Para los hombres hay pantalones mi-cortos que se pueden llevar con una camiseta y zapatillas de deporte. Para dar una imagen más formal se llevan trajes con camisetas y corbatas. No obstante, no se llevan mucho las corbatas hoy en día, ellos prefieren la ropa informal.

1 un cambio muy importante
2 por un parte
3 por otra parte
4 con cuellas largos
5 colores vivos
6 A finales de los años setenta
7 Hoy en día
8 la ropa informal

EN LOS AÑOS SESENTA
Llegaron a las tiendas muchos vestidos multicolores por primera vez
Se llevaba maqillaje de colores muy vivos
Se empezaron a llevar botas de cuero
Los hombres llevaban camisas de colores vivos
Se llevaban camisas con cuellos grandes

HOY EN DÍA
Se puede encontrar una gran variedad de ropa en las tiendas
Llevan ropa más informal
Llevan vestidos con panatalones

## El medio ambiente

Mae dosbarth Tom wedi bod yn astudio agweddau ar yr amgylchedd. Rhoddodd yr athrawes y testun darllen hwn ar goedwigoedd glaw trofannol i grŵp bach ohonyn nhw, er mwyn eu galluogi i gynnwys gwybodaeth am goedwigoedd glaw trofannol yn eu cyflwyniad ar ddiwedd yr uned. Mae'r testun yn cynnwys brawddegau cymhleth a rhai geiriau anghyfarwydd, ond mae nifer o'r geiriau newydd hyn yn eiriau cytras. Y dasg gyntaf felly oedd dod o hyd i'r geiriau cytras, a gwnaeth Tom hynny'n drwyadl. Yna, mae'n dod o hyd i strwythurau y bydd modd iddo'u hail-ddefnyddio ac yn nodi'r geiriau mae angen iddo chwilio am eu hystyr. Dan arweiniad yr athrawes, aeth Tom ati gyda phartner i archwilio rhai testunau dilys ar y rhyngrwyd er mwyn dod o hyd i fwy o wybodaeth. Aeth Tom yn ei flaen i ail-ddefnyddio llawer o'r wybodaeth hon yn ei gyflwyniad ar ystod o faterion amgylcheddol a astudiwyd yn yr uned hon o waith.

**Año 9: el Medio Ambiente**

**Instrucciones: lee el artículo sobre las selvas tropicales y entonces haz las actividades abajo.**

*Las selvas tropicales se encuentran en tres partes del mundo: en Asia, África y en América Latina. Más de la mitad se sitúan en América Central o América del sur. Se hallan principalmente en Brasil seguido por Colombia, Ecuador y Méjico.*

***¿Por qué son tan importantes las selvas tropicales?***

*Porque muchos animales, plantas y árboles tienen su hábitat natural allí, además de los tribus de indios indígenas que viven allí. Es más, muchas drogas y medicamentos provienen de las selvas y los "micro sistemas" de las selvas tienen un efecto importantísimo en el clima regional y probablemente en el clima global.*

***¿Por qué se están desapareciendo las selvas tropicales?***

*Pues, hay una gama de razones. Primero, la población se ha aumentado y sigue aumentándose – por eso la gente necesita más tierra y alimentos. Segundo, se ha tapado muchos arboles por su madera, que se puede vender para los muebles. Además, la tierra de las selvas contiene mucha riqueza natural (petróleo, minerales...) y! a los propietarios de empresas les interesa más el dinero que el medio ambiente!*

**¡ Las selvas tropicales y los que viven allí están en peligro!**

**Actividad 1**

**Identifica por lo menos 15 palabras que parecen al inglés ("cognates")**

- Partes

- Central
- Principalmente
- animales
- Plantas
- hábitat
- natural
- importantísimo
- probablemente
- efecto
- clima
- necesita
- minerales
- propietarios.

**Actividad 2**

**Identifica 3 formas de decir " is/ are found" :**

- Se hallan
- Se encuentran.
- Se sitúan

**Actividad 3**

**Identifica entre 5 y 7 palabras que NECESITAS buscar en el diccionario. ¿ Cuánto te ayuda?**

- Provienen
- mitad
- gama
- aumentado
- riqueza
- alimentos

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Darllen

Ystyriwyd Lefelau 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Tom wedi dangos *dealltwriaeth o ystod o ddeunyddiau, gan gynnwys testunau hirach* (nodwedd o Lefel 7). Yn ogystal â'r testunau mae'n eu darllen yn y dosbarth ac yn rhan o'i waith cartref, mae wedi darllen deunydd dilys ar y rhyngrwyd am yr amgylchedd ac wedi darllen erthyglau mewn cylchgronau am gerddoriaeth a ffasiwn. Mewn uned wahanol am bobl ifanc yn Sbaen a'u perthynas â'u rhieni, bu'n gweithio ar ddeialogau ysgrifenedig am agweddau at fynd allan, ac roedd y deialogau hynny'n cynnwys iaith fwy llafar. Mae'n gallu deall testunau sy'n *cynnwys brawddegau cymhleth ac iaith anghyfarwydd* yn ogystal ag iaith sy'n fwy syml. Mae'n defnyddio amrywiaeth o *strategaethau i adnabod yn gywir y syniadau a'r wybodaeth* mae arno'u hangen, megis dod o hyd i eiriau cytras a *defnyddio deunyddiau cyfeirio* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n hyderus iawn wrth geisio canfod ystyr iaith anghyfarwydd. Mae'n defnyddio'r hyn mae'n ei ddarllen *fel man cychwyn ar gyfer cynhyrchu'n greadigol* yn rheolaidd (nodwedd o Lefel 7).

# Targed cyrhaeddiad 3: Ysgrifennu
## Ffrangeg

## Jordan | Lefel 5

Mae Jordan yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Jordan nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Jordan ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Jordan o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Ysgrifennu yn Ffrangeg.

### Londres

**Londres**

Le weekend je suis allé à Londres avec ma famille.

J'ai voyagé en train de Holyhead à Londres.

A Londres j'ai mangé dans les restaurants et j'ai mangé un steak frites. J'ai visité le Tour du London et le musée. C'était intéressant.

J'ai fait du shopping dans les grands magasins et j'ai acheté un jean et des souvenirs.

Ensuite je suis monté la 'London Eye'. La vue était splendide.

J'ai retourné à Holyhead en train Virgin. Je suis arrivé à ma maison à dix heures. C'était fatigant.

Mae dosbarth Jordan wedi bod yn gweithio ar ddisgrifio digwyddiadau yn y gorffennol a defnyddio'r amser perffaith. Ar gyfer gwaith cartref, gofynnwyd iddyn nhw ddisgrifio trip neu ymweliad yr oedden nhw wedi'i fwynhau, gan ddefnyddio cynifer o wahanol ferfau ag y gallen nhw. Roedden nhw eisoes wedi dysgu rhai ymadroddion a strwythurau penodol ar gyfer rhoi eu barn am ddigwyddiadau yn y gorffennol, ac roedden nhw hefyd wedi bod yn gweithio ar gysyllteiriau er mwyn gwneud eu gwaith ysgrifenedig yn fwy diddorol. Dewisodd Jordan ysgrifennu am drip i Lundain. Mae'n ysgrifennu testun byr mewn cyd-destun cyfarwydd, ond mae'n gallu amrywio'i iaith. Mae'n dechrau defnyddio rhai geiriau a ddefnyddir yn aml er mwyn cysylltu rhai o'i frawddegau, ac mae wedi cynnwys peth barn a rhai disgrifiadau. Ceir camgymeriadau yn rhai o'r berfau ac mae dylanwad ei famiaith yn amlwg weithiau yn y testun pan nad yw'n gwybod rhyw air penodol, ond mae'n cyfleu'r ystyr yn glir iawn yn gyffredinol.

## Martine aime faire le sport

Mae dosbarth Jordan wedi bod yn gweithio ar nodi'r chwaraeon maen nhw'n cymryd rhan ynddyn nhw a mynegi barn. Yn y cyd-destun hwn, buon nhw'n gwrando ar gyflwyniad ar wahanol chwaraeon gan y cynorthwy-ydd Ffrangeg – pa rai yr oedd hi'n cymryd rhan ynddyn nhw a'i barn amdanyn nhw. Rhoddodd hyn gyfle ardderchog i'r disgyblion ymgysylltu â siaradwr Ffrangeg brodorol. I ddechrau, bu'r disgyblion yn gwneud nodiadau dan y penawdau canlynol: 'Sport', 'Opinion', 'Autres détails'. Gofynnwyd iddyn nhw grynhoi barn y cynorthwy-ydd am rai o'r chwaraeon. Mae Jordan wedi llwyddo i ysgrifennu am Martine yn y trydydd person. Mae wedi ceisio defnyddio gwahanol fframiau amser, yn aflwyddiannus weithiau, ac mae'n amrywio'i iaith. Mae'r brawddegau'n fyr ond mae'n ymdrechu i'w cysylltu weithiau, ac mae'n cyfleu ystod eang o wybodaeth am chwaraeon. Ceir camgymeriadau yn rhai o'r strwythurau, ond mae ei sillafu cyffredinol yn gywir ar y cyfan ac mae'n cyfathrebu'n glir.

**Martine aime faire le sport**

Elle aime jouer au rugby le samedi. Elle a joué avec l'équipe. Elle fait beaucoup de points samedi dernier. Elle adore le rugby.
Elle adore jouer au basket avec son frère. Elle va jouer avec son frère.
Elle adore tennis. Elle va jouer tennis à vacance. C'est sa passion.
Elle n'aime pas badminton.  A son avis, c'est très ennuyeux et trop fatigant Sa soeur super à badminton.
Elle n'aime pas cricket parce que le sport anglais. A son avis c'est difficile.
Elle fait du jogging. Elle a fait après college. Elle est super au jogging. C'est bien pour son corps.
Elle déteste au gymnastique.  A son avis, le gymnastique nul.
Aussi, elle fait du karaté. Elle fait karaté avec ses amis. Elles font karaté le soir. Martine est ceinture noir.
Finalement, le conseil de Martine, faire du sport, bien manger, bien travailler.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 4, 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Jordan wedi cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ysgrifennu ym Mlwyddyn 9. Mae'n gallu amrywio'i iaith, sy'n nodweddiadol o Lefel 5, ac mae'n gallu defnyddio amserau eraill y ferf fel y gwelwyd yn ei adroddiad am ei drip i Lundain, ond mae wedi gwneud rhai camgymeriadau. Mae Jordan yn dechrau defnyddio gwahanol *eiriau neu ymadroddion i'w helpu i adeiladu . . . brawddegau* (nodwedd o Lefel 5), ac mae'n dechrau cynhyrchu *mwy o ysgrifennu estynedig* (nodwedd o Lefel 6). Er hynny, mae ei frawddegau'n syml fel rheol, ac er ei fod yn *sillafu ac atalnodi iaith gyfarwydd yn gywir yn gyffredinol* (nodwedd o Lefel 5), mae'n gwneud camgymeriadau mewn strwythurau llafar a strwythurau eraill wrth geisio mynegi'i hun yn fanylach. Er hynny, *bydd yr ystyr fel arfer yn eglur* yn holl waith ysgrifenedig Jordan.

Ysgrifennu

# Josephine

**Lefel 6**

Mae Josephine yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Josephine nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Josephine ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Josephine o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Ysgrifennu yn Ffrangeg.

## Je présente mon pays

Bu dosbarth Josephine yn paratoi cyflwyniadau ac yn ysgrifennu erthyglau am yr ardal maen nhw'n byw ynddi, er mwyn rhoi gwybodaeth i ymwelwyr ifanc o Ffrainc a chymharu agweddau ar eu diwylliant a'u hardaloedd eu hunain â'r rhai hynny yn Ffrainc. Buon nhw'n darllen llyfrynnau a thaflenni am Gymru ac yn edrych ar wefan Croeso Cymru yn Ffrangeg. Yna, medrodd y disgyblion ail-ddefnyddio ychydig o'r hyn yr oedden nhw wedi'i ddarllen i gynhyrchu eu hiaith eu hunain. Fel dosbarth, buon nhw'n trafod y mathau o wybodaeth a oedd yn bwysig yn eu barn nhw, a buon nhw'n awgrymu strwythurau a geirfa ar gyfer meysydd megis iaith, arian, crefydd, chwaraeon a'r ysgol. Ysgrifennodd Josephine ei herthygl am Gymru gan ddefnyddio TGCh, er mwyn gwneud yr erthygl yn fwy deniadol a'i helpu i ddrafftio a gwirio'i gwaith cyn cyflwyno'r fersiwn terfynol. Yn ei herthygl, mae Josephine yn defnyddio amrywiaeth o strwythurau ac mae'n addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol, megis iaith ar gyfer disgrifio'r tywydd a rhoi barn. Yn y paragraff olaf yn enwedig, mae Josephine yn dechrau defnyddio peth iaith sy'n fwy cymhleth ac mae'n ysgrifennu brawddegau hirach. Ar y cyfan, mae'r erthygl yn ddarn cywir o waith ysgrifenedig mwy estynedig, ac mae Josephine yn cyfleu llawer o wybodaeth yn glir iawn.



**Je présente mon pays**



J'habite Machen dans le sud-est du pays de Galles et c'est près de Caerffili. La capitale du pays de Galles s'appelle Caerdydd. Caerdydd c'est une très grande ville animée mais le pays de Galles ce n'est pas un grand pays. Il y a aussi beaucoup de montagnes et moutons, surtout dans le sud-est ! Dans mon pays on parle gallois et anglais. Il y a aussi beaucoup de différentes nationalités.

En hiver, dans mon pays il pleut souvent et en été il fait beau et quelquefois il fait chaud aussi. A mon avis,je préfère l'été parce que on peut aller à la plage et nager dans la mer.

La monnaie du pays de galles s'appelle la livre sterling. L'hymne national est "Hen wlad fy nhadau" – c'est un hymne excellent et on le chante aux matchs de rugby en hiver. Un sport gallois typique est le rugby mais on joue aussi au foot. La religion principale dans mon pays est le christianisme mais aujourd'hui on a des religions différentes aussi, par exemple, les musulmans et les Sikhs à Caerdydd. Au pays de Galles on commence l'école primaire à l'âge de trois/quatre ans.

## Bienvenue à Paris

Mae dosbarth Josephine wedi bod yn dysgu am Baris gyda'u hathro a'r cynorthwy-ydd Ffrangeg, yn rhan o uned o waith sydd wedi'i seilio ar drip y bu'r ddau ohonyn nhw arno gyda myfyrwyr Safon Uwch. Roedd yr uned hon o waith yn canolbwyntio hefyd ar adolygu'r amser perffaith, gan ddefnyddio ystod o ferfau ac ysgrifennu yn y trydydd person. I ddechrau, bu'r disgyblion yn edrych ar gardiau post, mapiau o'r metro a ffotograffau gan nodi peth geirfa allweddol. Bu eu hathrawes yn siarad yn anffurfiol â nhw yn Ffrangeg am yr hyn yr oedd y grŵp o fyfyrwyr wedi'i weld a'i wneud. Yna, bu'r disgyblion yn gwrando ar gyflwyniad gan y cynorthwy-ydd Ffrangeg, a oedd yn cynnwys deunyddiau gweledol, a buon nhw'n gwneud rhai nodiadau am y trip dan benawdau a ddarparwyd gan yr athrawes. Roedd hwn yn gyfle ardderchog i'r disgyblion ryngweithio â siaradwr brodorol a dysgu am brifddinas Ffrainc. Gan ddefnyddio'u nodiadau, ysgrifennodd y disgyblion adroddiad am y trip yn y trydydd person. Mae Josephine wedi darparu ystod o wybodaeth, ac mae wedi llwyddo i addasu'r hyn a glywodd er mwyn cyflwyno darn cydlynol o waith ysgrifenedig. Mae wedi ceisio defnyddio paragraffau, ac mae wedi addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol ac wedi defnyddio amrywiaeth o strwythurau. Er ei bod hi wedi defnyddio rhai cysyllteiriau, mae'r iaith a ddefnyddir yn ei hadroddiad yn dal i fod yn eithaf syml ac mae'r brawddegau'n eithaf byr ar y cyfan. Mae camgymeriadau i'w gweld yn ei defnydd o'r ansoddair meddiannol gan nad yw wedi'i addasu'n gywir i'r trydydd person. Er hynny, mae'n cyfleu'r ystyr yn glir iawn yn gyffredinol.

Bienvenue à Paris

D'abord elle a voyagé en car et en bateau, en plus elle a pris le métro.
Elle a visité la tour eiffel. Elle est montée au sommet. C'était effrayant, la vue etait magnifique. Elle a visité la Cathédrale de Notre Dame. Il y avait les grandes fenêtres.
Le lundi elle a été au Martin Rouge. C'est un restaurant et un bar aussi elle a mangé et apres elle a dansé. Elle a été au sacré coeur, c'est uné église. Elle a acheté les cartes póstales. Elle a visité le louvre avec mon prof. C'était ennuyeux, elle a vu la joconde. Elle a visité Disneyland donc elle a vu minnie Mouse puis elle est allée aux magasin. Elle a acheté un T-Shirt pour mon frère. Elle a parlé en français. Elle a été au café avec Madame Feely elle a bu café. C'était tres relaxant au parc, ensuite elle a mangé un pique-nique avec mes amis.

## L’alcool

Mewn uned o waith sy’n gysylltiedig ag addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), bu dosbarth Josephine yn addasu iaith a strwythurau yr oedden nhw’n eu gwybod er mwyn trafod y problemau mae cyffuriau, alcohol ac ysmygu’n eu hachosi i bobl ifanc. Buon nhw’n darllen testunau er mwyn ymchwilio i beth geirfa a rhai strwythurau allweddol y byddai modd iddyn nhw’u hail-ddefnyddio yn eu hiaith lafar a’u gwaith ysgrifenedig eu hunain. Trwy wneud gwaith llafar paratoadol ar y materion dan sylw, medrodd y disgyblion fel dosbarth ddatblygu rhestr o resymau a oedd yn egluro pam mae pobl ifanc yn cymryd cyffuriau, yn yfed alcohol ac yn ysmygu. Yn ogystal, buon nhw’n awgrymu ffyrdd o ddweud beth allai’r atebion fod a beth oedd eu barn am y materion dan sylw. Ar gyfer gwaith cartref, gallai’r disgyblion ddewis canolbwyntio ar un o’r materion dan sylw, a gofynnwyd iddyn nhw lunio paragraff ar gyfer erthygl mewn cylchgrawn. Buon nhw’n cyfeirio at eu nodiadau a’u gwaith dosbarth yn ogystal â geiriadur wrth baratoi eu paragraff. Dewisodd Josephine ysgrifennu am broblemau’n ymwneud ag alcohol. Mae wedi ysgrifennu paragraff sydd wedi’i strwythuro’n dda, mae wedi addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol, ac mae wedi defnyddio amrywiaeth o strwythurau. Mae wedi llwyddo i ail-ddefnyddio rhai o’r strwythurau a pheth o’r eirfa allweddol, ac mae wedi strwythuro’i syniadau. Mae ei gwaith ysgrifenedig yn gywir.

**Ecrivez un paragraphe sur les problèmes de l'alcool**

L'alcool est un grand problème pour les jeunes au pays de Galles. On ne peut pas boire de l'alcool avant l'âge de 18 ans mais beaucoup de jeunes aiment boire de l'alcool- surtout, de la bière.
Moi, je ne bois pas de l'alcool mais mes amis aiment boire le week-end et le soir après l'école. Mes amis aiment boire parce qu'il n'y a pas beaucoup de choses a faire. Dans ma ville il n'y a pas de cinéma et il n'y a pas club de jeunes. Aussi. je pense que mes amis aiment boire parçe qu'ils sont stressé. On peut acheter de l'alcool dans des magasins et des garages – ils ne sont pas assez stricts! A mon avis, le gouverrnement devrait aider les jeunes, par exemple, on peut punir les propriétaires des magasins. Il faut avoir plus de choses à faire – plus de clubs de jeunes et de cybercafés! L'alcool peut provoquer des maladies aussi et il faut aider les jeunes qui boivent trop!



## Crynodeb a barn gyffredinol

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 5, 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Josephine wedi cymryd rhan mewn ystod o dasgau ysgrifennu ym Mlwyddyn 9. Mae wedi cynhyrchu *gwahanol fathau o destunau gan gynnwys mwy o ysgrifennu estynedig*, ac mae *weithiau'n defnyddio paragraffau i strwythuro'r hyn y mae'n ei ysgrifennu* (nodwedd o Lefel 6). Ym mhob enghraifft o'i gwaith, mae'n gallu *addasu iaith a ddysgwyd eisoes a defnyddio amrywiaeth o strwythurau* (nodwedd o Lefel 6). Mae'n gallu defnyddio gwahanol amserau'r ferf a chyfleu ystod eang o wybodaeth. Er bod rhai camgymeriadau i'w gweld, mae'n cyfleu'r ystyr yn glir bob amser. Yn y paragraff ar alcohol a phobl ifanc, mae nodweddion Lefel 7 yn dechrau dod i'r amlwg yn y modd mae Josephine yn gallu *strwythuro'i syniadau* ac yn y modd mae wedi dechrau defnyddio peth *iaith fwy cymhleth*.

# Penny

Lefel 4

Mae Penny yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Penny nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Penny ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Penny o'r farn mai Lefel 4 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Ysgrifennu yn Almaeneg.

## Beschreibungen

Bu dosbarth Penny yn ail-edrych ar ddisgrifiadau personol yng nghyd-destun pobl enwog a'r mannau lle maen nhw'n byw. Bu Penny yn paratoi disgrifiad byr yn y dosbarth o'r man lle mae'n byw gan ddilyn patrwm. Yna, gofynnwyd i'r dosbarth ddod o hyd i wybodaeth am berson enwog ac ysgrifennu darn tebyg gan ddychmygu mai nhw oedd y person enwog. Yn ystod y wers, bu'r disgyblion yn darllen eu disgrifiadau'n uchel er mwyn i'r lleill ddyfalu pwy oedd yn cael ei ddisgrifio. Yna, buon nhw'n defnyddio TGCh i deipio'u disgrifiadau, chwilio am unrhyw gamgymeriadau a'u cywiro. Mae Penny wedi cynhyrchu dau ddarn byr o destun. Mae wedi defnyddio iaith gyfarwydd, ac mae wedi addasu brawddegau o'r patrwm a ddarparwyd ar ei chyfer gan gyfnewid geiriau ac ymadroddion. Mae'n dechrau amrywio'i hiaith, ac er bod camgymeriadau i'w gweld mae'n cyfleu'r ystyr yn glir.

**Ich**

**Ich heisse Penny. Ich bin 14 Jahre alt. Ich wohne in Cardiff. Cardiff ist eine grosse Stadt in Südwales. Ich wohne in einem Dopplehaus seit funf Jahre. Ich wohne in einem Vorort. Mein Haus ist ziemlich modern und gross.**

**Wayne**

**Ich bin 20 Jahre alt. Ich bin Englisch und ich bin in Cardiff geboren. Meine Eltern heisse Mr Rooney und Mrs Rooney. Ich habe 16 Jahre lang in Everton gewohnt. Ich wohne seit funf Jahre in Manchester.**

## Caerdydd

Yn rhan o uned ar ddisgrifio Caerdydd, bu Penny yn gweithio mewn grŵp i gynhyrchu taflen. Roedd yn rhaid i bob aelod o’r grŵp ysgrifennu adran, ac ysgrifennodd Penny baragraff a oedd yn disgrifio beth sydd ar gael i bobl ifanc ei wneud. Y daflen hon oedd cynnyrch terfynol uned o waith a oedd yn canolbwyntio ar ddisgrifio lleoedd, ac roedd y disgyblion yn gallu defnyddio’u llyfrau ymarfer, eu gwerslyfrau a geiriadur. Mae Penny wedi ysgrifennu testun byr, ac mae’n dechrau amrywio’i hiaith â chymorth. Er ei bod yn gwneud llawer o gamgymeriadau wrth sillafu a defnyddio priflythrennau, mae’n gallu cyfathrebu’n glir ar y cyfan.

Was Können Teenager in Cardiff machen?
Es gibt viele dinge in Cardiff zu machen.
~~Mit dem~~ Man Kann eine Busreise um die
stadt ~~sehen~~ mache. In der stadmitte gibt es ein
schloss. Cardiff hat auch einem Markt,
Techniquest, millenium Stadium und dem
museum. Mann Kann heir sehr gut
einkaufen und Es gibt viele Geschaft. Mann
Kann ins Kino gehen. Cardiff ist fantastich.
Ich wohne gern hier!

## Fit bleiben

Mae dosbarth Penny wedi bod yn astudio uned yn Almaeneg ar fyw'n iach, sy'n cysylltu ag ABCh. Roedd y gwaith dysgu iaith yn canolbwyntio ar ymadroddion amser, ymarfer cymalau 'weil' ac ymestyn yr ystod o ferfau y gallai'r disgyblion eu defnyddio. Ar gyfer gwaith cartref, gofynnwyd i'r dosbarth lunio poster a oedd yn disgrifio beth oedden nhw'n ei wneud i gadw'n heini. Defnyddiodd Penny adnoddau TGCh i wella'i gwaith ysgrifenedig, a darparodd wybodaeth am yr hyn yr oedd hi'n ei fwyta a'r gweithgareddau yr oedd hi'n cymryd rhan ynddyn nhw. Mae wedi addasu'r brawddegau'n gywir gan ddefnyddio 'weil', ac mae wedi cynnwys gwahanol ferfau yn ei phoster. Mae camgymeriadau i'w gweld, ond mae'r iaith yn glir ac mae'n llwyddo i gyfleu ei neges.



## Crynodeb a barn gyffredinol

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 3, 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Penny wedi cynhyrchu ystod o wahanol fathau o *destunau byr syml* sy'n cynnwys *iaith gyfarwydd*, sy'n nodweddiadol o Lefel 4. Mewn nifer o achosion (megis yn y disgrifiad a luniwyd o Gaerdydd a'r poster ffitrwydd) mae'n gallu defnyddio'i *gwybodaeth o iaith i addasu model trwy gyfnewid geiriau ac ymadroddion* (nodwedd o Lefel 4). Mae'n dechrau *amrywio'i hiaith* (nodwedd o Lefel 5), ond mae angen llawer o gymorth arni i wneud hynny ac mae'n gwneud nifer o gamgymeriadau sillafu ac atalnodi. Yn gyffredinol er hynny, mae ei gwaith ysgrifenedig yn cyfleu ystyr yn glir.

Ysgrifennu

# Hazel

**Lefel 6**

Mae Hazel yn ddysgwr 13 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Hazel nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Hazel ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Hazel o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Ysgrifennu yn Almaeneg.

## Interview mit Heidi Klum

Bu dosbarth Hazel yn gweithio mewn parau i gynhyrchu cyfweliadau â phobl enwog o'r Almaen ar gyfer cylchgrawn. Cyn y cyfweliadau, roedd yn rhaid i'r disgyblion ddod o hyd i ychydig o wybodaeth am y person yr oedden nhw wedi'i ddewis, a dewisodd Hazel Heidi Klum. Bu'r disgyblion yn paratoi cwestiynau i'w gofyn i'w partner ynghylch ystod o gyd-destunau, ac ar gyfer gwaith cartref gofynnwyd iddyn nhw ysgrifennu cyfweliad. Mae'r cyfweliad yn eithaf estynedig, ac mae Hazel wedi defnyddio amrywiaeth o strwythurau gan gynnwys is-gymalau a gwahanol amserau'r ferf. Mae Hazel wedi addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol o ystod o gyd-destunau (gan gynnwys yr amgylchedd, bwyd a diddordebau) er mwyn llunio cyfweliad diddorol. Weithiau, mae'n llunio brawddegau hirach ac yn defnyddio iaith sy'n fwy cymhleth.

**Interview mit Heidi Klum**

Ich mache ein Interview mit Heidi Klum. Im April 1992 hat sie den Modelwettbewerb in Deutschland gewonnen. Sie ist sehr bekannt.

**Guten Tag Heidi. Ich habe einige Fragen**
- Guten Tag Hazel!

**Was für eine Person sind Sie?**
- Ich bin freundlich und glücklich.

**Was sind deine Hobbys?**
- Meine Hobbys sind Fussball und Fernsehen. Ich sehe oft fern und gehe gern ins Kino. Mein Lieblingsfilm heisst Shrek, weil es lustig ist.

**Was ist dein Lieblingsessen?**
- Normaleweise esse ich gern Salat und Hähnchen, aber ich liebe Schokolade! Gestern habe ich Schokoladekuchen gegessen. Lecker!


**Wohin würden Sie gern verreisen?**
- Ich würde gern nach Wales fahren, weil man viel unternehmen kann und es schön ist. Die Haupstadt heisst Cardiff. Sie ist eine historische Universitätstadt.

**Sind Sie umweltfreundlich?**
- Ich bin sehr umweltfreundlich. Jeden Tag dusche ich mich um Wasser zu sparen. Ich recycle Glas, Papier und Plastik.

**Danke schön Heidi. Das war sehr interessant.**

## Meine Schule

Yng nghyd-destun yr ysgol, cwblhaodd dosbarth Hazel gweithgaredd gwrando gan nodi manylion am y diwrnod ysgol yn yr Almaen ynghyd â gwybodaeth arall a ddarparwyd gan fyfyrwyr ifanc mewn ysgolion yn yr Almaen. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, cymerodd y disgyblion ran mewn gwaith llafar gan drafod rhai o'r prif wahaniaethau rhwng eu hysgol nhw a'r system yn yr Almaen. Yna, gofynnwyd iddyn nhw ysgrifennu disgrifiad manwl o'u hysgol gan ddefnyddio iaith a ddysgwyd yn flaenorol, a llunio cymariaethau syml ag ysgolion yn yr Almaen. Mae Hazel wedi cynhyrchu darn estynedig o waith ysgrifenedig sy'n cynnwys amrywiaeth o strwythurau ac ystod eang o safbwyntiau. Er bod y rhan fwyaf o'r brawddegau'n eithaf byr, mae'n defnyddio rhai is-gymalau. Ceir rhai camgymeriadau, ond mae Hazel yn cyfleu'r ystyr yn glir ac yn cyfleu llawer o wybodaeth fanwl. Mae'r gymhariaeth ag ysgolion yn yr Almaen yn gwella'i gwybodaeth am yr Almaen a bywydau pobl ifanc yn yr Almaen.


Klasserarbeit den 20 November

Meine Schule

Ich gehe auf eine Gesamtschule und es gibt tausendsiebenhundert Schülr im Alter von elf bis achtzehn Jahren. Die Schule beginnt um fünf vor neun. Ich fahre mit dem Bus zur Schule. Die Schule ist um halb vier aus. Für die Schule tragen wir eine weißes Hemd, eine Schwarze Hose, einen roten und schwarzen schlips und einen schwarzen Polli. Ich trage nicht gern die Uniform weil es altmodisch ist. Mein Lieblingsfach ist Deutsch, weil es toll ist. Ich mache Geschichte nicht gern, weil ich es nicht leiden kann. Ich komme nicht gern Schule, weil wir zu viele Hausaufgaben haben.

Die Mittagspause ist um halb eins. Ich esse in der Kantine. Um eins uhr spiele ich fußball mit meinem freundin. Es macht spass! Ich finde das deutsche Schulsystem besser. In Deutschland tragen sie keine Uniform. Das finde ich toll, weil ich mode liebe. Die deutsche Schule beginnt um 8 uhr und ist viertal nach eins aus. Der Schultag ist kürzer als in Wales. Ich finde das besser.

## Mein Tagebuch

Yn ystod ac ar ôl ymweliad â'r Almaen, cwblhaodd y disgyblion waith ysgrifenedig ar ffurf dyddiadur. Mae'r dyddiadur yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r amser perffaith ac addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol, megis iaith yn ymwneud â'r tywydd a mynegi barn. Yna, yn ystod gwers yn yr ystafell gyfrifiaduron, bu'r disgyblion yn ail-ddrafftio'r gwaith yr oedden nhw wedi'i gynhyrchu yn ystod y daith er mwyn gwella'i gywirdeb a chreu fersiwn terfynol ohono i'w ddefnyddio mewn arddangosfa am y daith. Mae Hazel wedi cynhyrchu darn estynedig o waith ysgrifenedig yn yr amser gorffennol. Mae'n mynegi barn ac yn defnyddio amrywiaeth o strwythurau, er bod y rhan fwyaf o'r brawddegau'n eithaf byr. Mae wedi defnyddio paragraffau'n effeithiol i strwythuro'r dyddiadur. Ni cheir llawer o gamgymeriadau, mae'r ystyr yn glir ac mae'n cyfleu ystod eang o wybodaeth am ei thaith.


Mein Tagebuch

Letzte Woche bin ich mit meiner Schule nach Deutschland gefahren. wir sind mit dem Buse gefahren. Ich habe Musik gehört. Es war langweilig.

Wir haben in einem Hotel in Cochem gewohnt. Es war klein.

Am Montag habe ich mit meinem Freund einen Stadtbummel gemacht. Ich habe Andenken gekauft. Um 2 Uhr habe ich in Mcdonalds gegessen. Ich habe Cola getrunken und Pommes gegessen. Am Abend bin ich geschwommen. Es hat Spaß gemacht!

Am Dienstag bin ich mit meiner Klasse nach Köln gefahren. Ich habe den Dom gesehen. Es war sehr sehr groß und schön.
Später habe ich das Schokolademuseum besucht. Es war sehr interessant. Ich habe Schokolade gekauft. Es war billig.

Am Mittwoch sind wir nach Phantasialand gefahren, Es war fantastisch. Ich bin mit der Achtenbahn gereist. Das Wetter war sonnig.
Mein Besuch nach Deutschland war echt toll!!!

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 5, 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Hazel wedi cynhyrchu *gwahanol fathau o destunau gan gynnwys mwy o ysgrifennu estynedig*. Mae wedi ysgrifennu erthyglau a deialogau yn yr enghreifftiau a geir o'i gwaith, ac mae wedi defnyddio *amrywiaeth o strwythurau* gan gynnwys gwahanol amserau'r ferf. Mae wedi datblygu ei dealltwriaeth ryngddiwylliannol trwy gyfrwng y tasgau, ac mae wedi cyfleu ystod o wybodaeth am yr Almaen. Yn ei dyddiadur a'r dasg ar yr ysgol, mae'n dechrau *defnyddio paragraffau i strwythuro'r hyn y mae'n ei ysgrifennu*, ac ym mhob un o'r tair tasg mae'n *addasu iaith a ddysgwyd eisoes* o amrywiaeth o gyd-destunau (nodwedd o Lefel 6). Yn y dasg llunio dyddiadur, mae'n gallu *ail-ddrafftio'i gwaith ysgrifennu i wella'r cywirdeb*. Er ei bod hi'n defnyddio iaith fwy cymhleth weithiau, mae ei brawddegau'n syml ar y cyfan ac yn cynnwys iaith gyfarwydd. Mae Hazel yn ysgrifennu'n gywir, ac mae'n cyfathrebu'n glir iawn bob amser.

Ysgrifennu

# Alex

Lefel 7

Mae Alex yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Alex nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Alex ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Alex o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Ysgrifennu yn Almaeneg.

## Wie hilfst du im Haushalt?

Ehangodd dosbarth Alex gyd-destun y teulu er mwyn trafod pwy oedd yn gwneud beth o gwmpas y tŷ ac i ba raddau yr oedden nhw'n helpu. Aeth y disgyblion ati i gynnal arolwg er mwyn darganfod pwy oedd yn gwneud beth ac er mwyn ymarfer y strwythurau allweddol. Yna, bu'r disgyblion yn ysgrifennu'n fwy manwl am yr hyn roedden nhw a'u teulu'n gwneud. Yn ei ddisgrifiad, mae Alex wedi strwythuro'i syniadau, mae wedi defnyddio peth iaith sy'n fwy cymhleth ac mae wedi cynnwys amrywiaeth eang o strwythurau. Mae wedi gwneud defnydd da o'r geiriadur i wirio'i waith a chwilio am eirfa sy'n llai cyffredin. Mae ei waith ysgrifenedig yn gywir ar y cyfan, ond ceir rhai mân gamgymeriadau.

**Wie hilfst du im Haushalt?**

Ich helfe oft im Haushalt. Ich finde das unfair. Ich muss jeden Tag mein Bett machen. Es ist blöd. Immer wasche ich das Auto und arbeite im Garten. Wenn das Wetter schrecklich ist, denn ist es furchtbar. Meine Schwester und mein Bruder sitzen im Wohnzimmer und sehen fern!

Ab und zu saugt mein Vater staub. Er findet das blöd. Jeden Tag deckt meine Mutter die Tisch im Esszimmer und kocht. Manchmal macht mein Bruder sein Bett aber er findet das schwierig! Immer macht meine Schwester das Badezimmer sauber. Sie macht die moderne Badewanne und die leistungsfähige Dusche sauber.

Ich mag gern einkaufen, aber Mutti mag auch gern einkaufen. Wir kaufen bei Tesco ein, weil es im Stadtzentrum und praktisch ist.

Letzte Woche habe ich viel im Haushalt geholfen! Sonntag habe ich das Auto gewaschen, weil es schmutzig war. Letzen Montag habe ich mein Zimmer aufgeräumt, weil meine Eltern gearbeitet haben. Mittwoch habe ich abgewaschen und abgetrocknet und letzten Sonntag habe ich im Garten gearbeitet. Es war blöd, weil es windig war und geregnet hat.

Alles im allem helfe ich aber gern und meine Mutter ist dankbar, weil ich sie helfe.

## Meine Stadt und Cochem, Deutschland

Tua diwedd Blwyddyn 9, rhoddwyd cyfle i ddosbarth Alex ddewis pwnc neu gyfuniad o gyd-destunau yr oedden nhw wedi bod yn eu hastudio, er mwyn paratoi cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig estynedig. Penderfynodd Alex ddefnyddio TGCh i lunio cyflwyniad ysgrifenedig ar ei dref ei hun a thref Cochem lle bu ar daith yn ystod y flwyddyn flaenorol. Lluniodd ddrafft o'r cyflwyniad yn gyntaf, ac aeth ati wedyn i greu'r sleidiau ac ychwanegu darluniau. Mae'n cynhyrchu darn hir o waith ysgrifenedig sy'n cynnwys ystod eang iawn o wybodaeth, gan ddefnyddio gwahanol gyd-destunau. Mae ei ddisgrifiadau'n cynnwys peth iaith gymhleth sy'n cynnwys brawddegau hirach, defnydd amrywiol o is-gymalau a gwahanol amserau'r ferf. Mae ei waith ysgrifenedig yn gywir ac wedi'i strwythuro'n dda, ac mae wedi'i olygu er mwyn gwella'i gywirdeb a'i strwythur.



Meine Stadt


Cilcain
Ich wohne in Cilcain in Nordostwales. Ich wohne hier seit acht Jahren.
Es ist ein schönes altes und kleines Dorf.


Cilcain
In Cilcain gibt es eine kleine Kirche, einen neuen Park, eine alte Kneipe,eine Grundschule und eine beliebte Post.



Cilcain
In Cilcain gibt es viele Sportmöglichkeiten. Man kann radfahren, joggen,Fussball spielen und reiten.Letztes Wochenende bin ich mit meinem Vater radgefahren. Es hat geregnet, aber es hat mir sehr gut gefallen


Cilcain
Ich wohne hier sehr gern, weil es ziemlich ruhig und sehr schön ist.


Mold
Cilcain liegt in der Nähe von Mold. Sie ist eine alte Marktstadt.


Mold
In Mold gibt es viele Geschäfte, eine walisische Gesamtchule, eine englische Gesamtschule, ein kleines Kino, ein berühmtes Theater und eine alte Kirche, die St Mary's Kirche heißt.


Mold
Man kann tanzen, in der Bibliothek lesen oder mit dem Computer arbeiten, und einkaufen. Wir haben ein großes modernes Freizeitszentrum, wo man schwimmen und Sport treiben kann.


Mold
Letzten Samstag habe ich mit meinem Bruder geschwommen. Es war Klasse.


Cochem
Deutschland


Cochem
Letztes Jahr bin ich mit meiner Schule nach Deutschland gefahren. Wir sind in einem Hotel in Cochem geblieben. Cochem liegt in Nordwestdeutschland.Sie ist eine Touristenstadt.


Cochem
In Cochem gibt es einen schönen Marktplatz, ein tolles Schwimmbad, ein altes Schloß, ein Museum und viele Cafés. Es gibt einen Fluss, der die Mosel heißt.


Cochem
Am ersten Tag bin ich Schwimmen gegangen. Es ist mein Lieblingssport. Ich habe das Schloß besucht und bin mit der Sesselbahn gefahren. Es war spannend.


Cochem
Am zweiten Tag habe ich einen Stadtbummmel gemacht. Ich habe einen Kuli für meine Schwester gekauft.Es war sonnig. Später haben wir eine Bootsfahrt gemacht. Es war klasse!


Deutschland
Nächstes Jahr werde ich noch einmal Deutschland besuchen. Ich werde Berlin besuchen, weil die Sehenswürdigkeiten wunderbar sind. In Berlin kann man viel unternehemen!! Ich liebe Deutschland!!

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Alex yn gallu *cynhyrchu testunau ar gyfer dibenion gwahanol*, gan gynnwys erthyglau a chyflwyniadau, fel y dangosir yn yr enghreifftiau a geir o'i waith (nodwedd o Lefel 7). Yn ogystal, mae wedi cynhyrchu deialogau, cyfweliadau a llythyrau. Mae ei waith ysgrifenedig *weithiau yn cynnwys iaith fwy cymhleth* sy'n cynnwys brawddegau hirach, is-gymalau a gwahanol amserau'r ferf a fframiau amser (nodwedd o Lefel 7). Yn ei gyflwyniad diwedd blwyddyn ar ei dref a'i daith i'r Almaen, mae wedi defnyddio *iaith a strwythurau a ddysgwyd eisoes i amrywio ei ysgrifennu*. Mae'n gallu *strwythuro'i syniadau* mewn paragraffau neu sleidiau ar gyfer y cyflwyniad, ac mae'n gallu *addasu ei iaith i'w defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau*.

# Targed cyrhaeddiad 3: Ysgrifennu
## Sbaeneg

## Karl | Lefel 5

Mae Karl yn ddysgwr 13 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Karl nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Karl ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Karl o'r farn mai Lefel 5 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Ysgrifennu yn Sbaeneg.

### La Navidad


La Navidad

Normalmente Celebro la Navidad con mis amigos y con mi familia es i ¡fantástico!
Enviamos tarjetas al fin de Noviembre y al principio de diciembre. Él 15 diciembre compramos muchos regalos, también adornamos un pino y la casa, nos gusta adornar.
Adornamos un pino es-divertido. A veces montamos un belén es divertido. El día de navidad, a veces voy a misa con mis amigos y a veces con mi familia y entonces dimos regalos. Después comemos. Me gusta mucho el chocolate y pudín de navidad.

La navidad pasado celebre la navidad con mis amigos y mi familia ~~es muy~~ fue ¡fantastico! Enviamos tarjetas al fin de noviembre y al principio de diciembre. El 15 diciembre compramos muchos regalos, también adornamos un pino y la casa, nos gusta adornar. Montamos un belén y canté, fue divertido.
El día de navidad, fuimos a misa con mis amigos y con mi familia. Recibí muchos regalos. Después comimos mucho. Me gustó pudín de navidad.

Yng nghyd-destun uned o waith ar wahanol wyliau a dathliadau yn Sbaen, ysgrifennodd dosbarth Karl adroddiad ar sut maen nhw'n dathlu gwahanol achlysuron gartref. Dewisodd Karl ysgrifennu am y Nadolig. Mae'n ysgrifennu am yr hyn mae'n arfer gwneud gyda'i deulu bob blwyddyn, ac yna mae'n ysgrifennu am yr hyn a wnaeth y llynedd. Cafodd y patrwm a oedd yn cynnwys yr amser presennol ac yna'r amser gorffennol ei ddarparu gan yr athrawes, a thrafododd y dosbarth beth gallen nhw gynnwys yn eu hadroddiad. Mae'r cyd-destun yn gyfarwydd, ac mae Karl yn darparu llawer o wybodaeth a manylion. Mae'n defnyddio rhai cysyllteiriau i drefnu ei waith ysgrifenedig, ac mae'n amrywio'r strwythurau mae'n eu defnyddio. Mae'n defnyddio paragraffau yn y testun hirach hwn er mwyn strwythuro'i waith ysgrifenedig. Yn yr ail baragraff, mae'n gwneud rhai camgymeriadau wrth ddefnyddio'r berfau, ac mae'r athrawes wedi cywiro'r rhain. Mae'r sillafu a'r atalnodi'n gywir yn gyffredinol.

## La routina diario

Ar ddiwedd uned sy'n ymwneud â threfn arferol y dydd ac arferion bwyta yn y DU a Sbaen, lluniodd Karl destun byr amdano'i hun dan amodau prawf. Mae'n mynegi barn am fwyd a chwaraeon ac yn disgrifio'r hyn mae'n ei fwyta a phryd. Yn ogystal, mae'n gallu llunio cymhariaeth rhwng yr hyn mae e'n ei fwyta a'r hyn mae pobl yn ei fwyta yn Sbaen. Mae Karl yn amrywio'i iaith, ond mae'r brawddegau'n fyr ac yn eithaf syml. Mae camgymeriadau i'w gweld, ond mae'r sillafu'n gywir ar y cyfan.

;Vivo en una casa en el sur de Cardiff en Gales .Vivo con mis Padres y mi hermano Jonathan. Me gusta mucho jugar al futbol y me gusta hacer la baloncesto los fines de semana. Odio el tenis.Me gusta mucho el salon por ejamplo el chile con corne. No me gustan los pescado y marisco. Normalmente desayuno a las siete y media en el salon.Desayuno pan y cereales. A mediodia como en instituto con mis amigos. Como un chocolate y pattas frittas. Meriendo en mi casa a las cinco y media y ceno con mi familia a las nuevede la tarde. Pienso que en espana se come mas fruta que en Gran Brittana.

## La poesia

Er mwyn annog y disgyblion i arbrofi ag iaith a defnyddio iaith yn greadigol, treuliodd dosbarth Karl ddwy wers yn ymdrin â'r thema 'La poesia'. Maen nhw'n ail-edrych ar gyd-destun gweithgareddau amser hamdden a phobl ifanc, ac addasodd y disgyblion yr iaith yr oedden nhw wedi'i dysgu er mwyn creu cerddi acrostig. Maen nhw'n drafftio'r cerddi gan ddefnyddio iaith a ddysgwyd yn flaenorol, ac yn eu hail-ysgrifennu er mwyn eu harddangos. Mae Karl yn ysgrifennu cerdd sy'n cynnwys un ar bymtheg o linellau ac sy'n tynnu sylw at y geiriau 'la cultura juvenil'. Mae'n cyflwyno ystod o wybodaeth yn y gerdd, ac mae wedi amrywio'r berfau a ddefnyddir ynddi. Mae'r sillafu a'r atalnodi yn y gerdd yn gywir yn gyffredinol. Mae wedi defnyddio'r iaith mae'n ei gwybod mewn modd creadigol ac at ddiben gwahanol.


EL atlehsmo es feromenal
Juego al Voleibol en la playa
Me enCanta escuchar música
En el verano, voy al parqUe juega al fútbol.
Los fines de 6amana salgo con mis amigos.
Normalmente bailo los Sábados.
Me gUsta mandar mensajes.
Voy de compRas con mi hermana.
arreglo mi dormitorio
Juega al baloncesto
Hago sUrfing
Voy al instituto
Hago dEporte
MoNto en bicicleta
Voy a un parque tematIco
Nunca Barro eL patio.

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 4, 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Karl wedi cynhyrchu gwahanol *destunau syml, creadigol a ffeithiol, mewn cyd-destunau cyfarwydd*, gan gynnwys erthyglau, llythyrau, deialogau a cherddi (nodwedd o Lefel 5). Mae'n amrywio'i iaith, ac mae'n gallu disgrifio digwyddiadau yn y gorffennol a'r presennol a defnyddio iaith yn greadigol. Er bod *camgymeriadau* i'w gweld, mae'n *sillafu ac atalnodi iaith gyfarwydd yn gywir yn gyffredinol* (nodwedd o Lefel 5) ac nid yw'n gwneud llawer o gamgymeriadau yn y tasgau enghreifftiol. Yn ei ddisgrifiad o'i Nadolig, mae'n dechrau defnyddio *geiriau . . . a ddefnyddir yn aml i'w helpu i adeiladu brawddegau*, mae'n defnyddio paragraffau, ac mae'n dechrau cysylltu brawddegau â'i gilydd er mwyn trefnu ei waith ysgrifenedig.

Ysgrifennu

# Chelsea

**Lefel 6**

Mae Chelsea yn ddysgwr 13 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei hathro'n gwybod llawer mwy am berfformiad Chelsea nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Chelsea ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athro Chelsea o'r farn mai Lefel 6 yw'r disgrifiad gorau o'i pherfformiad o safbwynt Ysgrifennu yn Sbaeneg.

## Kylie ¿Qué hiciste el fin de semana pasada?

Tua diwedd uned a oedd yn canolbwyntio ar yr amser gorffennol, gofynnwyd i ddisgyblion yn nosbarth Chelsea ddychmygu eu bod nhw'n bobl enwog ac ysgrifennu erthygl ar gyfer cylchgrawn am yr hyn yr oedden nhw wedi'i wneud y penwythnos diwethaf. Maen nhw'n defnyddio'u llyfrau ymarfer a geiriaduron i'w helpu i lunio'r darn mwy creadigol hwn o waith ysgrifenedig. Dewisodd Chelsea fod yn Kylie, ac mae hi wedi cynhyrchu erthygl eithaf estynedig am yr hyn buodd hi'n ei fwyta, yr hyn buodd hi'n gwneud, a'r bobl y treuliodd hi'r penwythnos yn eu cwmni. Mae'r erthygl wedi'i strwythuro'n dda, ac mae'n defnyddio paragraffau'n effeithiol. Mae'r erthygl yn cynnwys amser gorffennol ystod o ferfau a phersonau yn ogystal ag amrywiaeth o strwythurau eraill. Mae'n cysylltu brawddegau ag ymadroddion amser, ac weithiau mae'n ysgrifennu brawddegau hirach sy'n fwy cymhleth. Mae camgymeriadau i'w gweld, ond mae'r ystyr yn glir iawn yn gyffredinol.

## Kylie, ¿Qué hiciste el fin de semana pasado?

Vamos a ver... el viernes por la noche comí [cené] en un resteraunte chino y la comida fue deliciosa y el servicio fue genial. Volví a casa a eso de las diez y me acosté a las once.

El sábado por la mañana me levanté a las once y media y miré mi programa favorito en la televisión, 'CD:UK'. Es un programa de música moderna. Después, a las dos, comí el almuerzo con mi hermana, Danii y charlamos mucho porque me llevo super bien con ella. A las cuatro, fuimos de compras en el centro de Londres. A las cinco compré pantalones nuevos y bebí un café con leche en una cafetería. Me lo pasé fenomenal.

Más tarde, es decir, después, a las ocho, volví a casa y cené un plato de pollo con ensalada. Tomamos un vaso de naranjada y como [de] postre, tomé un poco de tarta de frambuesa, porque es mi fruta favorita. ¡Fue deliciosa! Me acosté a las once porque estube muy cansada.

El domingo por la mañana, Tuve que levantame temprano para practicar mi nueva canción con mi grupo musical. Luego jugué al tenis con mi amigo, Elton. El partido fue muy divertido porque [él] es muy gracioso y no juega muy bien.


## Los zoos

Ar gyfer gwaith cartref, cwblhaodd dosbarth Chelsea weithgaredd darllen am sŵau, a oedd wedi'i addasu o erthygl ddilys mewn cylchgrawn. Yn rhan o'u gwaith cartref, gofynnwyd i'r disgyblion gynhyrchu eu testun byr eu hunain ar sail yr erthygl. Lluniodd Chelsea ddrafft bras o'i thestun, ac yna teipiodd y fersiwn terfynol yn yr ystafell gyfrifiaduron. Mae wedi addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol ac wedi defnyddio geiriadur i gynhyrchu'r darn byr hwn o waith ysgrifenedig. Mae'n llwyddo i gyfleu manteision ac anfanteision sŵau yn ogystal â'i phrofiad hi ei hun. Mae'n defnyddio amrywiaeth o strwythurau, ac er bod camgymeriadau i'w gweld mae'n cyfathrebu'n glir.

¡Hola!
Me llamo Chelsea.
En contra de los zoos, no me gustan los zoos porque los animals son como los esclavos . No me gustan los zoos donde los animals viven en condiciones malas, pero no todos los zoos tienen animales en condiciones malas. Los zoos no pueden ser divertisos para los animales y los animales no estan aquí en la tierra para divertirnos.
Sin embargo mucho gente no puede visitar a otros paises para ver a los animales en su habitat natural. No todos los zoos son males porque siempre tienen mucho espacio propio.
Fui al zoo la semana pasada . Fui en coche con mi familia y mis amigos. Ví a muchos animales. Me gustó sobre todo los leones.

## Si pudiera

Dangoswyd y gystrawen newydd 'Si tuviera el dinero…/Si pudiera…' i'r disgyblion ynghyd â rhestr o ferfau yn eu ffurfiau amodol. Maen nhw'n gweithio mewn grwpiau i ganfod y rheol iaith a'r defnydd a wneir ohoni, gan ddefnyddio'u gwybodaeth flaenorol am iaith a geirfa. Gan ddefnyddio geiriaduron ac iaith o gyd-destun 'la cultura juvenil', lluniodd y disgyblion gerddi a oedd yn cynnwys y strwythur newydd. Drafftiodd y disgyblion eu cerddi, a mynd ati wedyn i gynhyrchu fersiynau terfynol i'w harddangos. Mae Chelsea yn defnyddio iaith yn greadigol i ysgrifennu'r gerdd, ac er bod y strwythurau'n llai amrywiol oherwydd natur y dasg, mae'n addasu iaith a ddysgwyd yn flaenorol i'r cyd-destun creadigol hwn. Mae camgymeriadau i'w gweld, ond mae'r hyn mae am ddweud yn glir. Ar ôl cwblhau eu cerddi, mae'r dosbarth yn darllen cerddi ei gilydd ac yn trafod eu cryfderau a'r hyn y gellid ei wella ynddyn nhw.


Si Pudiera

Si Pudiera Compraría la todo el
Mundo...
Y si pudiera, compraría
una casa granda,
Y si pudiera me relajaría
debayo, de las estrellas, y
comeña un helado
de chocolate en la pisina
en la noche ...
Si pudiera compraría
una vaca, una certificado,
y una vaquero
regordete...
Si pudiera inventiva "Chelsea Land"

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 5, 6 a 7 a barnwyd mai Lefel 6 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Chelsea wedi cynhyrchu *gwahanol fathau o destunau gan gynnwys mwy o ysgrifennu estynedig* (nodwedd o Lefel 6). Mae'r testunau'n cynnwys erthyglau, llythyrau, cerddi a deialogau. Mae gwaith ysgrifenedig Chelsea yn ymdrin â gwahanol gyd-destunau ac yn cynnwys *amrywiaeth o strwythurau*. Er ei bod hi'n llunio brawddegau hirach weithiau, nid yw ei gwaith ysgrifenedig eto'n cynnwys nifer o enghreifftiau o iaith fwy cymhleth. Mae'n llwyddo i ddefnyddio *paragraffau i strwythuro'r* hyn mae'n ysgrifennu, ac mae'n gallu *addasu iaith a ddysgwyd eisoes* (nodwedd o Lefel 6). Yn ei cherdd, mae Chelsea wedi defnyddio iaith yn greadigol ac yn annibynnol. Er ei bod yn gwneud camgymeriadau pan fo'r tasgau'n llai strwythuredig, mae'r *ystyr yn eglur fel arfer*. Mae'n gallu *gwerthuso ac weithiau ail-ddrafftio* yr hyn mae'n ysgrifennu er mwyn *gwella'i gywirdeb* (nodwedd o Lefel 6).

# Huw

**Lefel 7**

Mae Huw yn ddysgwr 14 oed yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ei athrawes yn gwybod llawer mwy am berfformiad Huw nag y gellir ei gynnwys yma. Er hynny, mae'r proffil hwn wedi'i ddewis er mwyn dangos nodweddion gwaith Huw ar draws ystod o weithgareddau. Mae pob enghraifft yn cynnwys sylwebaeth fer sy'n rhoi cyd-destun i'r gwaith ac sy'n dynodi unrhyw briodweddau arbennig.

Mae athrawes Huw o'r farn mai Lefel 7 yw'r disgrifiad gorau o'i berfformiad o safbwynt Ysgrifennu yn Sbaeneg.

## Debate sobre el deporte

Yng nghyd-destun byw'n iach, ar ddiwedd uned, gofynnwyd i'r disgyblion yn nosbarth Huw ddewis agwedd yr hoffen nhw ysgrifennu erthygl yn ei chylch, a gofynnwyd iddyn nhw gynnwys eu safbwyntiau ar y materion oedd dan sylw. Dewisodd Huw chwaraeon am nad yw'n rhywbeth mae'n ei fwynhau, er ei fod yn cydnabod y manteision sy'n gysylltiedig â chwaraeon. Cafodd drafodaeth â'i athro ynghylch yr hyn gallai ei gynnwys yn yr erthygl a sut gallai strwythuro'i waith ysgrifenedig. Mae Huw yn cynhyrchu darn o waith ysgrifenedig sy'n trin a thrafod y pwnc dan sylw, gan fynegi gwahanol safbwyntiau ac ail-ddefnyddio'r iaith mae wedi'i dysgu yn yr uned hon. Cynhyrchodd y gwaith ysgrifenedig yn annibynnol gan ddefnyddio'i waith blaenorol a geiriadur. Mae Huw wedi mynegi'i syniadau'n glir, ac mae'n defnyddio peth iaith sy'n fwy cymhleth, gan gynnwys ystod o ymadroddion i'w helpu i strwythuro'r hyn mae am ei ddweud. Mae ei waith ysgrifenedig yn gywir yn gyffredinol, ond mae rhai camgymeriadau i'w gweld.

**Debate sobre el deporte**

**¿Es una pérdida del tiempo?**

En mi opinion, el deorte es aburrido sin embargo en muy bien para la salud. El deporte a la vez bueno y malo. En el ano 10, tengo que continuar con el deporte porque es obligatorio.

Primero, el deporte es sociable y competitivo. Para mucha gente es divertido y muy facil pero ¡ no para mi! Tambien, los deportes de equipo son entretenido para alguno gente. Te dan más confianza y te mantiennen en forma porque es ejercicio cardiovascular. Gracias el deorte se puede hacer amigos.

Sin embargo en mi opinion es se toma demasiado en serio algunos los deportes de equipo . Pueden ser violentos y peligrosos y pueden rsulten en accidentes, heridos y peleas. ¡Ademas el deporte es cansado!

Odio casi todos los deportes excepto el tenis pero no hay canchas de tenis en mi colegio, por eso en el ano 10 no voy a tener la oprtunidad jugar al tenis

A mi modo de ver el tenis es genial y emocionante pero ¡no me gusta nada el futbo porque es aburrido y dificil!

## ¿Dónde te gustaria vivir si pudierse?

Mewn uned o waith a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r amser amodol, bu grŵp o ddisgyblion yn nosbarth Huw yn ymchwilio i ddinas yn Sbaen er mwyn disgrifio ym mhle'r hoffen nhw fyw. Yn ogystal, cwblhaodd y disgyblion gweithgaredd gwrando lle'r oedd menyw ifanc o Sbaen yn siarad am ei lle delfrydol i fyw, a nododd y disgyblion beth o'r iaith gallen nhw ei hail-ddefnyddio yn eu gwaith eu hunain. Dewisodd Huw Barcelona, a gwnaeth nodiadau am y ddinas trwy ddarllen deunydd dilys megis taflenni a llyfrynnau a gwneud ychydig o waith ymchwil ar y rhyngrwyd. Mae'n llwyddo i strwythuro'r darn o waith ysgrifenedig sy'n disgrifio ble'r hoffai fyw, gan ddefnyddio rhai o'r strwythurau a glywodd yn ystod y gweithgaredd gwrando. Yn ogystal, mae'n disgrifio nodweddion Barcelona y dysgodd amdanyn nhw trwy ddarllen. Mae'n defnyddio ystod o eirfa a strwythurau gan gynnwys iaith gymhleth. Mae'n strwythuro'i syniadau, ac mae'n addasu peth iaith ddisgrifiadol a ddysgwyd yn flaenorol i gyd-destun gwahanol. Mae ei waith ysgrifenedig yn cynnwys nifer o gamgymeriadau mae ei athrawes wedi tynnu sylw atyn nhw, ond mae'n cyfleu ei syniadau'n glir iawn.

**¿Dónde te gustaria vivir si pudieras?**

*Si pudiera, viviria en Barcelona porque me encanta - es animada y bonita. Está en la costa en el noroeste de España y cerca de Francia. Tiene mucha que hacer para los jovenes, por ejemplo el estadio Olimpico, muchas playas, una monton de bares y cines. Tiene una vida nocturna genial i pero puede ser demasiado ruidoso a veces!*

*En mi ciudad ideal habria una gran gama de tiendas y restaurantes, porque me encanta comer e ir de compras. Barcelona tiene una gastronomia fenomenal. Ademas, mi ciudad ideal ofreceria mucho cultura y en Barcelona hay muchos museos, galerias de arte y barrios bonitos por ejemplo el barrio Gotico y tiene la Catedral "la Sagrada Familia" tambien.*

*Barcelona es ideal porque en verano se puede hacer surfing o jugar al voleibol en las playa y en invierno podría esquiar en las montanas.*

*En mi ciudad no se debería tirar basura porque se debe proteger el medio ambiente y Barcelona es una ciudad muy limpia - ¡así creo que a mi juicio es perfecto!*

## Crynodeb a barn gyffredinol

### Ysgrifennu

Ystyriwyd Lefelau 6, 7 ac 8 a barnwyd mai Lefel 7 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn y samplau o waith, gwelir bod Huw wedi cynhyrchu dau ddarn o destun sy'n *cynnwys iaith fwy cymhleth* (nodwedd o Lefel 7). Yn ystod Blwyddyn 9, mae Huw hefyd wedi ysgrifennu cyflwyniad ar yr amgylchedd gan ddefnyddio TGCh, mae wedi sgriptio gweithgareddau drama, ac mae wedi cynhyrchu peth gwaith ysgrifenedig creadigol gan gynnwys cerddi a chaneuon. Mae'n defnyddio amrywiaeth *o iaith a strwythurau a ddysgwyd eisoes i amrywio'i ysgrifennu* (nodwedd o Lefel 7). Mae'n gallu strwythuro'i syniadau â pheth cymorth gan ei athrawes, ac mae'n gallu gwneud hynny hefyd mewn darnau sy'n trin a thrafod. Mae ei *ystod o eirfa a strwythurau* yn dechrau arddangos nodweddion sy'n perthyn i Lefel 8, ond mae'n gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg sylfaenol weithiau.

# Adran 4

## Defnyddio'r fframwaith anstatudol yng Nghyfnod Allweddol 2

# Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar sut y gellir cyflwyno'r fframwaith anstatudol ar gyfer ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r arweiniad a'r deunydd enghreifftio'n dangos ystod o gyd-destunau a gweithgareddau y gall dysgwyr eu defnyddio i ddatblygu eu sgiliau iaith yng Nghyfnod Allweddol 2. Yn ogystal, maen nhw'n dangos sut y gall dysgu iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2 hybu sgiliau a gwaith dysgu ar draws y cwricwlwm.

## Nodweddion allweddol y fframwaith

- Mae'r fframwaith yn hyblyg, ac mae'n helpu ysgolion sydd eisoes yn cyflwyno iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ogystal â'r rheiny sy'n bwriadu gwneud hynny.
- Nid yw'r fframwaith yn hawlio cyfran o amser y cwricwlwm, a gellir ei ddefnyddio gydag unrhyw grwpiau blwyddyn.
- Mae'r fframwaith yn adlewyrchu'r sgiliau sy'n perthyn i ddysgu Cymraeg a Saesneg, ac mae'n hybu llafaredd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm yn ogystal â sgiliau dysgu iaith.
- Ceir ystod o gyfleoedd i gysylltu ieithoedd tramor modern â meysydd eraill y cwricwlwm.
- Mae'r Sgiliau (Llafaredd, Darllen ac Ysgrifennu) a'r Ystod (dealltwriaeth ryngddiwylliannol, strategaethau dysgu iaith, a gweithgareddau a chyd-destunau) yr un fath â'r rhai ar gyfer Cyfnod Allweddol 3, ac maen nhw'n helpu'r broses bontio ac yn gosod y sylfaen ar gyfer dysgu ieithoedd yn y dyfodol.

## Datblygu sgiliau iaith dysgwyr

### Llafaredd

Mae'n debyg y bydd ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 yn canolbwyntio'n bennaf ar lafaredd, a gall eich gwaith cynllunio chi sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i siarad yr iaith newydd a gwrando arni mewn ystod o gyd-destunau a gweithgareddau difyr. Gallan nhw ddysgu'n gyflym i siarad gan ynganu a goslefu'n dda trwy gyfathrebu â chi a dysgwyr eraill. Gellir sicrhau eu bod nhw'n gwneud hynny trwy ail-adrodd strwythurau allweddol mewn ffordd hwyliog gan ddefnyddio gêmau, caneuon a rhigymau. Bydd dysgwyr yn tyfu'n fwy hyderus, a byddan nhw'n gallu defnyddio strwythurau ac iaith newydd yn fwy annibynnol gan

gymryd rhan mewn sgyrsiau, gweithgareddau drama a deialogau syml. Bydd rhoi cyfleoedd iddyn nhw wrando ar storïau ac ymateb iddyn nhw'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau gwrando, ac yn hybu eu hiaith lafar hefyd. Bydd cyflwyno symudiadau a gweithgareddau corfforol i hybu eu sgiliau llafaredd yn helpu i atgyfnerthu iaith newydd a gwneud dysgu iaith yn hwyl.

### Darllen

Mae cynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ddarllen geiriau a strwythurau y maen nhw wedi'u clywed a'u defnyddio ar lafar yn gallu atgyfnerthu'r broses o gaffael iaith. Mae'n hanfodol eu bod yn dysgu sut i greu'r cysylltiad rhwng yr hyn y maen nhw'n ei weld a'r hyn y maen nhw'n ei glywed. Gall dysgu patrymau ynganu, dysgu cysylltiadau rhwng sain a sillafu, a dysgu'r wyddor mewn iaith newydd fod yn hwyl, a gall sicrhau bod dysgwyr yn ynganu iaith newydd ac iaith y maen nhw wedi'i dysgu'n gywir. Yn ogystal, mae'n galluogi dysgwyr i ddarllen iaith gyfarwydd mewn testunau byr a'u hiaith ysgrifenedig eu hunain yn uchel. Gall gweithgareddau perthnasol gynnwys darllen iaith ysgrifenedig ac ymateb iddi; (er enghraifft, cysylltu lluniau â geiriau, ymadroddion a brawddegau) a dangos dealltwriaeth o destunau a storïau byr a chyfarwydd. Gellir datblygu sgiliau darllen trwy gyfrwng gweithgareddau dosbarth cyfan. Gall gweithgareddau o'r fath gynnwys: darllen llyfr mawr ar y cyd; darllen testun ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol ac ymateb iddo; a dilyn geiriau cân ar y cyd. Yn ogystal â defnyddio testun i brofi dealltwriaeth a darllen yn uchel, gall dysgwyr ddefnyddio testun i adnabod nodweddion iaith megis cenedl geiriau, rhagenwau, berfau, a geiriau neu nodweddion sy'n debyg i Gymraeg a Saesneg. Yn ogystal, mae dysgu sut i ddefnyddio rhestrau geirfa a geiriaduron yn helpu dysgwyr i fod yn annibynnol, ac mae'n sgìl y byddan nhw eisoes wedi'i ddatblygu wrth ddysgu Cymraeg a Saesneg.

### Ysgrifennu

Wrth gynllunio gweithgareddau ysgrifennu yn yr iaith dramor fodern, gallwch gysylltu'r gweithgareddau hynny â thasgau darllen. Mewn gweithgareddau paru, er enghraifft, gall dysgwyr ddysgu copïo geiriau, ymadroddion a brawddegau'n gywir. Gallan nhw labelu lluniau, mapiau a chynllunio posteri. Yn ogystal, gallwch gynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ysgrifennu ar gyfer arddangosfeydd; cynhyrchu arwyddion a rhybuddion i'w harddangos o gwmpas yr ysgol, defnyddio TGCh a defnyddio iaith yn greadigol trwy lunio testunau byr, cyflwyniadau â TGCh, cerddi syml a sgetshis neu sgyrsiau syml i'w perfformio.

## Gweithredu'r Ystod

### Dealltwriaeth ryngddiwylliannol

Dylai cyfleoedd i ddysgu am bobl a chymunedau eraill a'u cymharu nhw â phrofiadau personol fod yn rhan annatod o ddysgu iaith o'r cychwyn cyntaf. Mae dysgu iaith newydd yn gallu codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r gwledydd a'r cymunedau lle defnyddir yr iaith, a hynny wrth iddyn nhw ddefnyddio deunyddiau dilys a ffotograffau ac edrych neu wrando ar adnoddau sy'n canolbwyntio ar yr agweddau hynny. Gall dysgwyr gael profiad uniongyrchol o ddysgu am fwyd, prydau bwyd a dathliadau trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysgol. Gallan nhw wrando ar gerddoriaeth a dysgu caneuon, edrych ar gelf ac adeiladau, dysgu am hinsawdd a nodweddion daearegol, a chreu cysylltiadau â meysydd eraill y cwricwlwm.

Trefnodd un ysgol ginio Ffrengig yn y ffreutur. Bu'r dysgwyr yn trafod bwyd, tai bwyta a thraddodiadau bwyta Ffrainc, ac ar ôl hynny buon nhw'n actio sgyrsiau mewn caffi. Cynlluniodd y dysgwyr fwydlenni Ffrangeg, Cymraeg a Saesneg ar gyfer y cinio, a buon nhw'n cymharu'r geiriau ar draws yr ieithoedd. Roedd y gweithgaredd hwn yn fodd i'r dysgwyr wella'u dealltwriaeth o fywyd yn Ffrainc, llunio cymariaethau rhwng eu hiaith eu hunain ac ieithoedd eraill, ac ymarfer eu sgiliau llafaredd a'u sgiliau ysgrifennu yn Ffrangeg.



Carte Bwydlen Menu

Poulet a la sauce de chasseur
Petit pois/Riz
Frites
Crepes

Chasseur Cyw Ior
Pys/Reis
Sglodion Ffrengig
Crempog

Chicken Chasseur
Peas/Rice
French Fries
Pancakes

Boisson au Cassis
Diod Cwrens duon
Blackcurrant Drink

## Strategaethau dysgu iaith

Bydd dysgwyr eisoes wedi dysgu rhai strategaethau ymarferol yn Gymraeg a Saesneg i'w helpu i ddysgu patrymau sillafu a geiriau a strwythurau newydd, a gallwch adeiladu ar y strategaethau hynny wrth iddyn nhw ddysgu'r iaith dramor fodern. Gallwch helpu hefyd trwy ddefnyddio strategaethau megis cysylltu strwythurau a geiriau â symudiadau, datblygu rhestrau geirfa fel dosbarth, a chymharu'r iaith newydd â'r Gymraeg a'r Saesneg. Bydd ymarfer iaith newydd gan ddefnyddio rhythm, rhigymau a chaneuon yn annog dysgwyr i ddefnyddio'u hiaith newydd y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Gall defnyddio'r iaith wrth gyflawni tasgau eraill yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft wrth gofrestru, helpu dysgwyr i atgyfnerthu'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu.

## Gweithgareddau a chyd-destunau

Yn ogystal â chynllunio gweithgareddau a chyd-destunau gwahanol a difyr ar gyfer datblygu sgiliau iaith dysgwyr, gallwch sicrhau bod yr iaith yn berthnasol ac yn ddiddorol iddyn nhw trwy gysylltu eu gwaith dysgu iaith â meysydd eraill y cwricwlwm a thestunau y gallwch eu cyflwyno mewn pynciau eraill. Mae gêmau a phosau rhif yn gysylltiedig â mathemateg; gall rhannau'r corff fod yn gysylltiedig â gwyddoniaeth; gall gwahanol leoedd mewn tref fod yn gysylltiedig â daearyddiaeth; gallai disgrifiadau corfforol fod yn gysylltiedig â pherson hanesyddol neu berson sy'n amlwg ar y pryd; gall cyfarwyddiadau a gorchmynion fod yn gysylltiedig ag addysg gorfforol; a gall caneuon a chanu fod yn gysylltiedig â cherddoriaeth.

Yng nghyswllt thema'r tymor, sef 'Ffermio', bu'r dysgwyr yn gwneud masgiau anifeiliaid fferm ac yn dysgu enwau'r anifeiliaid yn Ffrangeg, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Yna, cysylltodd y dosbarth y gwaith hwn â Chyfnod y Diolchgarwch, er mwyn ysgrifennu gweddi ffermwr gyda'i gilydd yn y tair iaith i ddiolch am yr anifeiliaid. Defnyddiodd y dysgwyr yr un patrwm gan ddechrau fel hyn: Diolch am . . . *Thank you for. . .* a *Merci pour* . . .. Cafodd y gweddïau eu hadrodd yn y gwasanaeth Diolchgarwch.




## Dilyniant

Dylai addysgu iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2 ganolbwyntio ar strwythurau yn ogystal â geirfa fel bod dysgwyr yn gallu defnyddio iaith yn fwy annibynnol a chreadigol.

O safbwynt llafaredd, bydd dysgwyr yn symud ymlaen o ail-adrodd geiriau, ymadroddion a strwythurau i gynhyrchu eu hiaith eu hunain, ac efallai y byddan nhw'n dechrau cyfnewid geiriau ac ymadroddion er mwyn newid yr hyn y maen nhw'n gallu'i ddweud. Dylid rhoi cyfleoedd iddyn nhw ofyn ac ateb cwestiynau fel y gallan nhw weithio mewn grwpiau a pharau i greu eu sgyrsiau a'u senarios syml eu hunain. Byddan nhw'n gallu gwrando ar ymadroddion sy'n fwyfwy hir, a byddan nhw'n gallu gwrando ar storïau, caneuon a rhigymau cyfarwydd, eu dilyn ac ymateb iddyn nhw.

O safbwynt darllen, bydd dysgwyr yn symud ymlaen o gysylltu geiriau ac ymadroddion unigol â'i gilydd i ddeall testunau syml. Trwy ddysgu cysylltiadau rhwng sain a sillafu a dysgu sut i ddefnyddio rhestrau geirfa yn yr iaith dramor fodern, byddan nhw'n gallu chwilio am ystyr geiriau newydd a'u darllen yn uchel yn gywir.

O safbwynt ysgrifennu, bydd dysgwyr yn symud ymlaen o gopïo geiriau i ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau â chymorth ac ar eu pen eu hunain, ac ysgrifennu iaith syml mewn gweithgareddau creadigol.

## Pontio i Gyfnod Allweddol 3

Gall defnyddio fframwaith Cyfnod Allweddol 2 fod o gymorth wrth bontio i Gyfnod Allweddol 3. Mae strwythur y fframwaith yn adlewyrchu strwythur Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 3 ac yn datblygu'r un Sgiliau a'r un Ystod. Os bydd dysgwyr yn dysgu iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2, ni fydd y pwnc wedyn yn bwnc newydd iddyn nhw yn yr ysgol uwchradd, a byddan nhw wedi datblygu ystod o sgiliau iaith a sgiliau dysgu iaith. Gallwch helpu eich dysgwyr i bontio o un cyfnod i'r llall o safbwynt ieithoedd trwy adeiladu ar gysylltiadau ag athrawon ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd a datblygu'r cysylltiadau hynny. Byddan nhw'n darganfod beth y mae eich dysgwyr yn gallu'i wneud, a byddwch yn gallu rhannu adnoddau a gwaith cynllunio'r cwricwlwm lle bo hynny'n bosibl a chydweithio er mwyn hybu sgiliau iaith dysgwyr ar gyfer eu hastudiaethau iaith yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae'r fframwaith o gymorth i drosglwyddo gwybodaeth. Er nad oes unrhyw ofynion o ran asesu mewn ieithoedd tramor modern, gellir trosglwyddo gwybodaeth ddefnyddiol am gyflawniadau eich dysgwyr i'r ysgol uwchradd trwy waith asesu cyfoedion a hunanasesu a thrwy ddefnyddio neu addasu datganiadau'r cofnod iaith a gyhoeddwyd gyda'r fframwaith. Gellir darparu rhai enghreifftiau o waith dysgwyr hefyd, a gall y rheiny ynghyd â'r cofnod iaith ddarparu darlun sydyn o'r hyn y mae'r dysgwyr yn gallu'i wneud erbyn diwedd Blwyddyn 6. Bydd eich cydweithwyr mewn ysgolion uwchradd yn gallu adeiladu ar hynny yn eu tro.

## Enghreifftiau o weithgareddau yn Ffrangeg

Mae'r enghreifftiau canlynol yn egluro'r mathau o weithgareddau y gallai dysgwyr gymryd rhan ynddyn nhw ar draws y tair sgìl iaith mewn ieithoedd tramor modern. Mae'r gweithgareddau'n cyfuno mwy nag un sgìl yn aml iawn. Cafodd rhai o'r enghreifftiau eu datblygu o waith a wnaed mewn un ysgol lle mae athro teithiol arbenigol yn addysgu Ffrangeg a lle mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu Ffrangeg ers Blwyddyn 4. Cafodd enghreifftiau eraill eu datblygu mewn clwstwr o ysgolion cynradd bach lle mae peth Ffrangeg yn cael ei ddysgu ym Mlwyddyn 6 yn ystod diwrnodau pontio a gynhelir bob pythefnos yn yr ysgol uwchradd, a lle mae athrawon dosbarth nad ydyn nhw'n arbenigwyr yn parhau â'r gwaith yn eu hysgolion unigol. Cafodd y gweithgareddau a'r enghreifftiau o waith eu cynhyrchu gan ddysgwyr ym Mlynyddoedd 5 a 6.

Mae'r gweithgareddau a'r enghreifftiau o waith yn egluro'r sgiliau a'r ystod a amlinellir yn y fframwaith ac yn dangos ystod o gyrhaeddiad ieithyddol yn Ffrangeg. Er bod y gweithgareddau a'r gwaith yn berthnasol i Ffrangeg, gellid eu datblygu gydag unrhyw iaith arall.

## Llafaredd

Dylid darllen y manylion a geir yma am weithgareddau llafaredd ar y cyd â'r adran ar y DVD sy'n ymwneud â Chyfnod Allweddol 2.

### Les numéros

Yn y gweithgaredd hwn, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gêm sy'n cynnwys rhifau. Maen nhw'n ymarfer rhifo o un i ddeg ac ar yr un pryd yn ceisio dileu disgyblion eraill o'r gêm wrth iddyn nhw ddweud 'dix'. Mae'r gweithgaredd hwn yn gysylltiedig â rhifedd, ac mae'n hybu sgiliau gwrando a meddwl y disgyblion wrth iddyn nhw feddwl pwy y dylen nhw ei ddileu o'r gêm a sut gallan nhw osgoi cael eu dileu o'r gêm eu hunain. Maen nhw'n dangos dealltwriaeth o eiriau unigol gan ynganu'n gywir a chael hwyl.

### L'alphabet

Mae'r disgyblion yn cydadrodd yr wyddor yn Ffrangeg, ac yna maen nhw'n adnabod llythrennau a geiriau unigol gyda'r athrawes. Mae'r athrawes yn defnyddio tegan i hoelio sylw'r dosbarth a gwneud y gweithgaredd yn hwyl. Mae dysgu'r wyddor yn yr iaith newydd yn galluogi'r disgyblion i ddechrau gweld y berthynas rhwng seiniau a'r gair ysgrifenedig, ac mae'n eu helpu i ddarllen ac ysgrifennu. Yn ogystal, mae'n eu helpu i nodi agweddau ar yr iaith sy'n debyg ac yn wahanol i Gymraeg a Saesneg.

## Monstres

Ceir dau weithgaredd yn yr adran hon o'r DVD. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgaredd adrodd stori a gweithgaredd drama byr.

Mae'r dosbarth yn gwrando ar eu hathrawes yn darllen y stori *Va-t'en Grand Monstre Vert*, sy'n cynnwys geirfa gyfarwydd yn ymwneud â lliwiau a rhannau'r corff mewn cyd-destun newydd ac sy'n cynnwys brawddegau hirach a strwythurau gorchmynion. Maen nhw'n gwrando'n astud ac yn ymuno â'r athrawes i adrodd y gorchmynion 'Partez!' a 'Va-t'en!' gan ynganu a goslefu'n gywir. Mae'r stori'n atgyfnerthu'r eirfa a'r strwythurau maen nhw wedi'u dysgu'n flaenorol. Mae gwrando ar stori a'i dilyn yn adeiladu ar y sgiliau mae'r disgyblion eisoes yn eu defnyddio yn Gymraeg a Saesneg. Mae defnyddio storïau yn y modd hwn yn hybu sgiliau llafaredd y disgyblion ac yn gosod y sylfaen ar gyfer ailddefnyddio'r iaith yn eu hiaith lafar a'u gwaith ysgrifenedig eu hunain.

Bu grŵp o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn gweithio gyda'u hathro i baratoi'r gweithgaredd drama hwn ar sail *Doctor Who* ar gyfer cyngerdd ysgol. Gan ddefnyddio strwythurau, ymadroddion a geirfa yr oedden nhw wedi'u dysgu'n flaenorol, maen nhw'n ysgrifennu sgript ar gyfer y sgetsh â pheth cymorth, gan gynllunio'r symudiadau a chasglu'r dillad a'r propiau. Maen nhw'n perfformio'n hyderus ac yn frwdfrydig gan ynganu a goslefu'n gywir. Maen nhw'n defnyddio iaith sy'n berthnasol i'w diddordebau personol ac yn defnyddio strwythurau a phatrymau a ddysgwyd yn flaenorol i greu iaith newydd.

## Je me présente

Yn yr adran hon o'r DVD, ceir tri gweithgaredd sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol (enw, oedran, lle maen nhw'n byw, teulu, anifeiliaid anwes, hoff a chas bethau). Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gêm, cyflwyniad a sgwrs.

Yn y gêm 'Nous cherchons Spiderman et Doctor Who', mae'r dosbarth yn ymateb i gyfarwyddiadau gan yr athro ac yn cymryd rhan yn y gêm trwy ofyn y cwestiwn cyfarwydd 'Comment tu t'appelles?' ac ymateb gan ddweud 'Je m'appelle. . . .' Nod y gêm yw darganfod pa ddisgyblion yw Spiderman a Doctor Who. Mae'r athro'n dechrau'r gweithgaredd trwy gyfarch y dosbarth ac ymarfer y strwythurau gan ddefnyddio gweithredoedd. Mae'n rhoi helmedau ffug ar bennau'r ditectifs er mwyn gwneud y gêm yn hwyl. Mae'r disgyblion yn siarad gan ynganu a goslefu'n gywir, ac maen nhw'n cymryd rhan yn hyderus ac yn frwdfrydig yn y gweithgaredd. Mae hon yn gêm gyfarwydd sy'n rhoi cyfle i'r disgyblion ofyn ac ateb cwestiynau, ac mae'r athro'n defnyddio'r gêm fel gweithgaredd cynhesu i hoelio sylw'r disgyblion yn gyflym a sicrhau eu bod yn defnyddio'r iaith cyn symud ymlaen i weithgareddau eraill.

Yn yr ail weithgaredd, mae Cerys-Rae ac Abigail wedi paratoi cyflwyniad gan ddefnyddio TGCh ac ystod o iaith a ddysgwyd yn flaenorol. Maen nhw wedi ysgrifennu'r cyflwyniad ar y cyd gan gyfuno'r strwythurau a'r eirfa maen nhw'n gwybod sut i'w dweud a defnyddio TGCh yn effeithiol i wella'r cyflwyniad. Maen nhw'n gallu rhoi eu henw a'u hoedran, disgrifio'u teulu, a dweud beth y maen nhw'n ei hoffi. Mae eu gwybodaeth am gysylltiadau rhwng sain a sillafu'n golygu nad yw'r gair ysgrifenedig yn amharu ar eu hynganu. Mae Cerys-Rae yn dangos dealltwriaeth o ragenwau gwrywaidd a benywaidd wrth iddi gywiro'i hun. Mae gweddill y dosbarth yn gwrando'n astud ar eu cyflwyniad.

Yn y trydydd gweithgaredd, mae tri disgybl yn cymryd rhan mewn sgwrs syml ac yn gofyn ac yn ateb cwestiynau'n gywir amdanyn nhw'u hunain, eu hoedran, eu pen-blwydd a'u hanifeiliaid anwes. Maen nhw'n defnyddio ystod o strwythurau maen nhw wedi'u dysgu ar y cof, gan gynnwys gwahanol gwestiynau, er mwyn creu sgwrs fer. Maen nhw'n gwybod ei bod hi'n arferol yn Ffrainc i ysgwyd llaw, ac maen nhw'n dechrau eu sgwrs trwy wneud hynny.

## L'éducation physique

Yn y ddau ddarn hwn, mae'r disgyblion yn defnyddio'u Ffrangeg yn ystod gweithgareddau corfforol sy'n gysylltiedig ag ymarferion tebyg maen nhw'n cymryd rhan ynddyn nhw mewn gwersi addysg gorfforol. Mae hynny'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth hefyd.

Yn y gweithgaredd cyntaf, mae dau dîm yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn yr iard chwarae. Mae'r ddau dîm yn cymryd eu tro i alw enw dilledyn o'u dewis, ac mae'n rhaid i un aelod o'r tîm wisgo'r dilledyn cywir, cwblhau'r cwrs rhwystrau a diosg y dilledyn ar ôl cyrraedd y pen arall. Mae cyflymder a sgiliau llafaredd yn hollbwysig. Mae'r disgyblion i gyd yn cystadlu'n frwdfrydig gan alw'r eitemau cywir a'u lliw, ac mae'r rheiny sydd ar yr un tîm â nhw'n gwrando ac yn ymateb yn briodol. Maen nhw'n annog ei gilydd yn Ffrangeg nes bod y tîm buddugol wedi symud y dillad i gyd i ben arall y cwrs. Mae'r disgyblion yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol yn Ffrangeg er mwyn cyflawni'u hamcan, gan ddefnyddio'u Ffrangeg yn hyderus a chael hwyl.

Yn yr ail weithgaredd, mae'r athro'n tywys y dosbarth i'r neuadd er mwyn ymarfer ymateb i orchmynion gan ddefnyddio parasiwt. Mae'r disgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn gyflym i gyfarwyddiadau i neidio, cerdded, rhedeg, aros yn eu hunfan ac eistedd i lawr. Trwy wneud hynny, maen nhw'n dangos dealltwriaeth o ystod o gyfarwyddiadau, yn cydweithio fel grŵp ac yn ymateb i iaith sy'n berthnasol i'w diddordebau personol a'r amgylchedd sydd o'u cwmpas.

## Au café

Ar ôl gwneud gwaith ar fwyd a diod, dysgu am gaffis yn Ffrainc ac arian, ac ymarfer deialogau byr mewn caffi, bu'r grŵp hwn o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn sgriptio ac yn actio sgetsh fer. Gyda chymorth eu hathro, buodd y disgyblion yn trefnu'r dillad a'r propiau ac yn perfformio'r ddrama o flaen gweddill yr ysgol. Maen nhw'n gofyn ac yn ateb cwestiynau ac yn perfformio'n hyderus, gan ddefnyddio ystod o strwythurau a geirfa maen nhw wedi'u dysgu ar y cof ac ynganu a goslefu'n dda iawn.

## Travail en groupe

Mae'r ddau weithgaredd hwn yn dangos disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn cydweithio mewn grwpiau i ymarfer strwythurau cyfarwydd ar ffurf gêm gan ddefnyddio iaith sydd heb ei sgriptio.

Yn y gweithgaredd cyntaf, mae grŵp o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn ymarfer y strwythurau 'Qu'est-ce que tu as? J'ai. . .' yng nghyd-destun eitemau ysgol. Maen nhw'n gwrando'n astud ar ei gilydd gan edrych ar y gwahanol wrthrychau a chytuno neu anghytuno â'r hyn a ddywedir. Maen nhw'n defnyddio'r strwythurau'n gywir gan ynganu'n dda, ac maen nhw'n disgrifio niferoedd, gwrthrychau a lliwiau'n gywir gan ddefnyddio brawddegau llawn a brawddegau hirach weithiau.

Yn yr ail weithgaredd, ar ôl bod yn gwneud gwaith ar gyfarwyddiadau a lleoedd mewn tref, lluniodd y disgyblion hyn eu map eu hunain a rhoi cyfarwyddiadau i wahanol leoedd gan ddefnyddio robot ffug, a gan wisgo berets a roddwyd i'r ysgol er mwyn eu helpu i deimlo'u bod nhw mewn tref go iawn yn Ffrainc. Maen nhw'n adnabod y gwahanol leoedd ar y map, yn rhoi cyfarwyddiadau, ac yn cyfrif wrth iddyn nhw raglennu'r robot a gwylio'r hyn mae'n ei wneud. Maen nhw'n gofyn cwestiynau i'w gilydd ac yn ymateb yn ddigymell.

## Chansons

Mae canu caneuon mewn iaith dramor fodern yn helpu disgyblion i ymarfer iaith newydd a'i defnyddio'n fwy creadigol. Yn ogystal, mae'n rhoi cyfleoedd iddyn nhw ddangos eu sgiliau iaith i eraill, mwynhau defnyddio'r iaith fel grŵp, a chreu cysylltiadau â'r hyn maen nhw'n ei wneud mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a cherddoriaeth.

Yn y gân gyntaf, mae'r athrawes yn defnyddio'r adnodd TGCh *Petit Pont*. Mae'r disgyblion yn dilyn y geiriau ar y bwrdd gwyn ac yn canu'r gân gan wneud y symudiadau. Mae'r gân hon yn ymarfer y gystrawen *Il y a* gan gyfeirio at leoedd mewn tref. Yna mae'r disgyblion yn chwarae gêm ddyfalu gan ddefnyddio'r delweddau ar y bwrdd gwyn. Gan ddefnyddio TGCh i hybu eu gwaith dysgu mae'r disgyblion yn mwynhau'r gân a'r lluniau, ac uniongyrchedd y gân a'r gêm.

Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 4, 5 a 6 yn canu'r ail gân yn y neuadd – rhywbeth maen nhw'n ei wneud yn rheolaidd yn ystod gwasanaethau ysgol. Maen nhw'n canu *'Six au lit et le petit dit'* â symudiadau er mwyn ymarfer y rhifau a strwythurau eraill.

I gloi, mae disgyblion Blwyddyn 6 o glwstwr o ysgolion cynradd yn canu cân Ffrangeg draddodiadol ar gyfer sgowtiaid, sef '*Un kilomètre à pied*', i ymarfer y rhifau. Yna, maen nhw'n canu graddfa sy'n cynnwys diwrnodau'r wythnos ac yn canu'r rhifau o un i ddeg ar ffurf tôn gron ar alaw '*Frère Jacques*'.

## Darllen

Mae'r enghreifftiau hyn o weithgareddau darllen yn dangos sut y gall dysgwyr ddatblygu sgiliau darllen ac atgyfnerthu'r iaith maen nhw'n gallu ei siarad a'i deall.


### Jacques

Yn dilyn gwaith a wnaed ar rannau'r corff, gan gynnwys gêmau megis *Jacques a dit* ('Mae Seimon yn dweud') a'r gân '*Tête, épaules, genoux, pieds*' ('Pen, ysgwyddau, coesau, traed'), rhoddwyd y daflen hon i'r disgyblion er mwyn eu galluogi nhw i labelu Jacques eu hunain. Darllenodd y disgyblion y geiriau'n uchel fel dosbarth er mwyn sicrhau eu bod yn eu hynganu'n dda, ac atgoffodd eu hathro nhw o rai cysylltiadau rhwng sain a sillafu, megis yr 's' a'r 'x' dawel ar ddiwedd geiriau. Yna, darllenodd y disgyblion y geiriau eu hunain a'u copïo yn y man cywir gan ddangos dealltwriaeth o eiriau mewn cyd-destun cyfarwydd. Er bod y disgyblion wedi darllen ac ysgrifennu'r geiriau yn yr enghraifft hon, gallai'r gweithgaredd fod wedi bod yn weithgaredd darllen yn unig pe bai'r disgyblion wedi cysylltu'r geiriau â'r rhan gywir o'r corff yn lle copïo'r geiriau eu hunain.




## Les numéros

Er mwyn atgyfnerthu'r rhifau yn Ffrangeg ar ôl cyflwyno'r rhifau 11–20, ac er mwyn creu cysylltiadau â'u gwaith mewn mathemateg, bu'r disgyblion yn datrys y symiau hyn yn Ffrangeg ac yn cynllunio posteri bach ar y daflen. Ar ôl i'r disgyblion i gyd gwblhau'r daflen, buon nhw'n cyflwyno'u hatebion ar lafar ac yn gwirio'u gwaith eu hunain. Defnyddiwyd y rhifau hefyd i bwysleisio cysylltiadau rhwng patrymau sain a sillafu, er enghraifft, y seiniau 'eu', 'ou', 'ei', 'un', 'on' ac 'in' a'r rheolau ynghylch llythrennau tawel. Fel gweithgaredd dilynol, cynlluniodd y dosbarth bosteri i'w harddangos gan ddefnyddio'r rhifau yn Ffrangeg.



## En ville

Yn dilyn gwaith a wnaed ar leoedd a chyfarwyddiadau, er mwyn ymarfer ac adnabod gwahanol leoedd yn y dref, bu'r disgyblion yn nodi pob lle yn y dref ac yn llunio map i ddangos eu bod yn deall yr enwau gan arddangos dealltwriaeth o eiriau cyfarwydd unwaith eto. Maen nhw hefyd yn ymarfer eu sgiliau ysgrifennu trwy gopïo enw pob lle yn gywir. Yna, buon nhw'n gweithio mewn grŵp bach er mwyn gofyn am gyfarwyddiadau a rhoi cyfarwyddiadau gan ddefnyddio'u map eu hunain.



## Au café

Yn dilyn llawer o waith llafaredd ar gaffis a bwyd a diod yn Ffrainc, cwblhaodd y disgyblion y ddeialog fer hon â'r geiriau a'r ymadroddion cywir, gan ddangos dealltwriaeth o ddeialog syml sy'n cynnwys iaith gyfarwydd. Yna, buon nhw'n darllen y ddeialog yn uchel gyda'u partner cyn cyfnewid gwahanol eiriau ac ymadroddion i greu eu sgyrsiau eu hunain.

### Au café

-Bonjour!

bonjour ✓ !

-Avez-vous choisi?

-Oui, je voudrais un sandwich au jambon, s'il vous plait.

-Moi, je voudrais un sandwich au fromage, s'il vous plait.

-Comme boisson?

-Je voudrais un coca.

-Je voudrais un orangina.

Merci!

merci !

C'est combien?

dix euros, s'il vous plait.


Au revoir!

Au revoir !

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| bonjour | voudrais | merci | revoir | dix | fromage |
| s'il vous plait | orangina | sandwich | | | |

## Les animaux

Roedd y dosbarth hwn wedi bod yn ymdrin â llawer o iaith a oedd yn ymwneud â disgrifiadau, lliwiau a rhai ffurfiau gwahanol ar ferfau yng nghyd-destun siarad amdanyn nhw'u hunain a'u hanifeiliaid anwes. Roedd y gwaith a wnaed yn cynnwys person cyntaf a thrydydd person unigol y berfau 'avoir' ac 'être' a safle a chytundeb lliwiau. Lluniodd y disgyblion gymariaethau â'r Gymraeg a'r Saesneg. Yna, cwblhaodd y disgyblion y dasg darllen hon â thestunau sy'n fwyfwy hir, a buon nhw'n tynnu lluniau'r anifeiliaid a ddisgrifiwyd ym mhob achos gan gynnwys cymaint o fanylder ag a oedd yn bosibl. Roedd pob disgybl yn gallu darllen ac adnabod y rhan fwyaf o'r manylion a'u cyfleu nhw yn eu lluniau, gan ddangos dealltwriaeth o destunau syml â pheth amrywiaeth mewn patrymau brawddegau. Roedd rhai disgyblion, fel yn yr enghraifft hon, yn gallu ysgrifennu eu disgrifiad byr eu hunain gan ail-ddefnyddio'r iaith yr oedden nhw wedi'i darllen.



## Ysgrifennu

### Les couleurs

Er mai ychydig iawn o iaith sydd ganddyn nhw, mae'r disgyblion yn y dosbarth hwn wedi defnyddio'r iaith maen nhw'n ei gwybod i ysgrifennu cerddi creadigol syml a phosteri i'w harddangos. Maen nhw wedi copïo'r geiriau cyfarwydd yn gywir a'u defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd.






## Les monstres

Ar ôl gwrando ar y stori *Va-t'en Grand Monstre Vert* (gweler 'Monstres' yn yr enghreifftiau ar gyfer llafaredd), lluniodd y dosbarth eu fersiwn eu hunain o'r stori gan newid y lliwiau a'r nodweddion. Yn yr enghraifft hon, mae'r disgybl wedi darlunio ei hanghenfil ei hun a newid y lliwiau, ac mae wedi defnyddio ffurf luosog gywir yr ansoddair hefyd. Mae wedi ysgrifennu brawddegau syml â chymorth, ac mae wedi dechrau cyfnewid geiriau er mwyn newid yr iaith.




## Dans ma trousse

Yn dilyn y gêm grŵp a oedd yn defnyddio eitemau mewn câs pensiliau i ofyn ac ateb cwestiynau (gweler 'Travail en groupe' yn yr enghreifftiau ar gyfer llafaredd), cynlluniodd y disgyblion bosteri i'w harddangos gan ail-ddefnyddio'r iaith wrth ysgrifennu a disgrifio'r hyn oedd yn eu câs pensiliau. Roedden nhw'n gallu ysgrifennu brawddegau syml yn gywir yn Ffrangeg â chymorth.




## Je me présente

Tua diwedd Blwyddyn 6, gofynnwyd i'r disgyblion ysgrifennu cymaint ag y gallen nhw amdanyn nhw'u hunain yn Ffrangeg i'w ddangos i weddill y dosbarth, a chreu cyflwyniad personol y gallen nhw fynd ag ef gyda nhw i'w hysgol uwchradd newydd y tymor canlynol. Buon nhw'n ymarfer yr hyn y bydden nhw'n ei ddweud mewn grŵp bach cyn dewis sut i gyflwyno'u gwaith. Dewisodd rhai disgyblion gynhyrchu posteri â llaw gan ddefnyddio ffotograffau ohonyn nhw'u hunain a'u teulu, a dewisodd rhai eraill ddefnyddio TGCh. Yn yr enghraifft hon, mae Alex wedi dewis llunio sleid PowerPoint sy'n cynnwys gwybodaeth amdani ei hun, ei theulu, ei hanifail anwes, a'r hyn mae'n ei hoffi. Mae'r gwaith ysgrifenedig yn gywir, ac mae wedi defnyddio TGCh i wella'i chyflwyniad.



## Ieithoedd tramor modern a sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3 i 19 oed.

Mewn ieithoedd tramor modern, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau maen nhw wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Defnyddiwyd eiconau yn fframwaith Cyfnod Allweddol 2 i ddangos cyfleoedd penodol o ran datblygu gwaith dysgu a sgiliau ar draws y cwricwlwm. Efallai y byddwch yn dod ar draws cyfleoedd pellach i ddatblygu'r gwaith dysgu a'r sgiliau hyn ar draws y cwricwlwm pan fyddwch yn cynllunio eich gwaith dysgu ac addysgu mewn ieithoedd tramor modern.

### Datblygu meddwl

Mae gweithgareddau mewn ieithoedd tramor modern yn gallu datblygu sgiliau meddwl dysgwyr trwy gyfrwng gêmau iaith, er enghraifft, sy'n gofyn iddyn nhw chwilio am batrymau yn yr iaith newydd a gwerthuso'u gwaith eu hunain a gwaith dysgwyr eraill trwy weithgareddau asesu cyfoedion a hunanasesu.

### Datblygu cyfathrebu

Mae dysgu iaith dramor fodern yn ategu ac yn hybu sgiliau cyfathrebu ym mhob maes arall o fewn y cwricwlwm. Mae dysgwyr yn gwella'u sgiliau llafaredd trwy wrando'n astud ar y sawl sy'n defnyddio'r iaith, gan gynnwys eu hathrawon a dysgwyr eraill, a thrwy fagu mwy o hyder wrth siarad. Yn ogystal, mae dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau cyfathrebu a ddatblygwyd wrth ddysgu Cymraeg a Saesneg, gan gynnwys rheolau sillafu, cysylltiadau rhwng sain a sillafu, a phwysigrwydd cywirdeb.

**Datblygu TGCh**

Mae gweithgareddau megis gemau bwrdd gwyn ar gyfer y dosbarth, gemau a phosau iaith sydd i'w cyflawni'n unigol ac sydd wedi'u seilio ar TGCh, defnyddio TGCh i gyflwyno gwaith ysgrifenedig a llunio cyflwyniadau PowerPoint mewn gweithgareddau llafaredd, yn helpu dysgwyr i ddatblygu'u sgiliau TGCh.

**Datblygu rhif**

Mae gweithgareddau megis posau a gemau rhif, mathemateg pen syml, a dweud faint o'r gloch yw hi yn yr iaith newydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu'u sgiliau rhif.

## Ieithoedd tramor modern a dysgu ar draws y cwricwlwm

Mae Cwricwlwm 2008 yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu polisïau a themâu trawsgwricwlaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis y Cwricwlwm Cymreig, addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd a'r byd gwaith, sy'n cynnwys cyfle cyfartal, bwyd a ffitrwydd a datblygiad cynaliadwy.

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mewn ieithoedd tramor modern, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

**Y Cwricwlwm Cymreig**

Gall gweithgareddau mewn ieithoedd tramor modern ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymharu agweddau ar fywyd y wlad a'r cymunedau lle defnyddir yr iaith newydd â'u bywyd eu hunain yng Nghymru, er enghraifft, bwydydd traddodiadol, gwyliau, adeiladau enwog, celf, cerddoriaeth a chaneuon. Yn ogystal, dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr chwilio am yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng yr iaith newydd a'r Gymraeg.

### Addysg bersonol a chymdeithasol

Gall gweithgareddau mewn ieithoedd tramor modern hybu addysg bersonol a chymdeithasol trwy gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr o ddiwylliannau, traddodiadau a phrofiadau pobl eraill. Mae cydweithio mewn grwpiau a pharau'n galluogi dysgwyr i barchu cyfraniadau pobl eraill yn yr iaith newydd. Mae dysgu am fwyd a diod mewn gwledydd eraill yn gallu helpu dysgwyr i fwyta'n iach.

### Gyrfaoedd a'r byd gwaith

Wrth ddysgu iaith dramor fodern, gall dysgwyr gael gwybodaeth am y gwahanol swyddi y mae ieithoedd yn bwysig ar eu cyfer, a dod i wybod am bwysigrwydd ieithoedd yn eu cymuned eu hunain. Gall dysgu am arian gwahanol wledydd a throsi eu harian eu hunain i arian tramor helpu dysgwyr i ddatblygu eu gallu i drin arian.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r nifer fawr o athrawon, ysgolion, awdurdodau lleol, CILT Cymru a'r sefydliadau eraill sydd wedi helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Diolch yn arbennig i'r Grŵp Llywio: Martin Bowen Jones, Gwynneth Davies, Lucy Griffin, Ceri Griffiths, Kristina Hedges, Maggie Leach, David Moss, Rhiannon Scorey a Lynne West, a rhoddodd o'u hamser gwerthfawr i'n helpu i ddatblygu'r canllawiau hyn.

Hoffai APADGOS ddiolch hefyd i'r disgyblion a'r rhieni/warcheidwaid hynny a gytunodd i enghreifftiau o waith gael eu hatgynhyrchu yn y canllawiau hyn.

Yn benodol, mae APADGOS yn ddiolchgar i'r ysgolion canlynol am roi cymorth a deunyddiau:

Ysgol Aberconwy, Conwy
Ysgol Alun, Yr Wyddgrug
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Caerffili
Ysgol Gyfun Gatholig San Joseff, Port Talbot
Ysgol Gymraeg Trelyn, Caerffili
Ysgol Gynradd Bronnant, Ceredigion
Ysgol Gynradd Llanddewibrefi, Ceredigion
Ysgol Gynradd Llangeitho, Ceredigion
Ysgol Gynradd Lledrod, Ceredigion
Ysgol Gynradd Peniel, Sir Gâr
Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid, Ceredigion
Ysgol Gynradd Tregaron, Ceredigion
Ysgol Gynradd Ysbyty Ystwyth, Ceredigion
Ysgol Uwchradd Illtud Sant, Caerdydd
Ysgol Uwchradd Llanisien, Caerdydd
Ysgol Uwchradd Tregaron, Ceredigion

Diolch hefyd i'r canlynol am roi caniatâd i ni ddefnyddio'u deunydd ar y DVD:

*Petit Pont*
Petit Pont © Paul Rogers. Cyhoeddwyd gan Manic Monkey 2007.

*Va-t'en Grand Monstre Vert*
Cyhoeddwyd gyntaf gan Little, Brown & Co yn yr Unol Daleithiau dan y teitl *Go Away, Big Green Monster!*

Ar gyfer yr argraffiad Ffrangeg © Kaléidoscope 1996, *Va-t'en Grand Monstre Vert* gan Ed Emberley.